



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol



Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 003/2010
Dyddiad cyhoeddi: Mai 2010



Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol

Cynulleidfa	Awdurdodau Lleol (swyddogaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol); pob ysgol feithrin, ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir; Byrddau Iechyd Lleol; rhieni a sefydliadau sydd â diddordeb.
Trosolwg	Prif nod y canllawiau hyn yw rhoi cyngor i ysgolion ac Awdurdodau Lleol ar ddiwallu anghenion addysgol plant a phobl ifanc sydd ag anghenion meddygol. Mae'n pwysleisio'r angen am barhad ym maes addysg a'r effaith y gall cyflyrau meddygol ei chael ar addysg, iechyd a lles plentyn neu berson ifanc.
Camau i'w cymryd	I'w ddwyn i sylw Rheolwyr a staff.
Rhagor o wybodaeth	Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon drwy'r e-bost i: DCELLS.enquiries@wales.gsi.gov.uk Neu yn ysgrifenedig i: Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ
Copiau ychwanegol	Gallwch hefyd weld y ddogfen ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, ewch i: www.cymru.gov.uk/addysgagiliau
Dogfennau cysylltiedig	Dogfen ymgynghori Rhif: 045/2007 - Ymgynghoriad ar 'Mynediad i Addysg a Chymorth i Ddisgyblion ag Anghenion Meddygol' Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 57/94 - Addysg Plant Sâl Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 34/97 - Cymorth i Ddisgyblion ag Anghenion Meddygol

Cynnwys

Rhagair		1
Pennod 1	Cymorth i blant a phobl ifanc ag Anghenion Meddygol	2
Pennod 2	Cynllunio i Ddiwallu Anghenion plant a phobl ifanc	14
Pennod 3	Mynediad i Feddyginiaeth	31
Pennod 4	Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)	47
Pennod 5	Ailsefydlu	65
Atodiadau		
1	Canllawiau ar Bolisiâu Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynorthwyo plant a phobl ifanc ag Anghenion Meddygol	70
2a	Canllawiau ar Bolisiâu Ysgolion ar gyfer Cynorthwyo plant a phobl ifanc â Gofynion Meddygol	72
2b	Polisi Ysgol Enghreifftiol	74
3	Cyngor Meddygol ar Gyflyrau Cyffredin	78
4	Ffurflenni	91
	Ffurflen 1 Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys	
	Ffurflen 2 Cynllun Gofal Iechyd	
	Ffurflen 3A Cytundeb rhieni i'r ysgol/lleoliad roi meddyginiaeth	
	Ffurflen 3B Cytundeb rhieni i'r ysgol/lleoliad roi meddyginiaeth	
	Ffurflen 4 Cytundeb Pennaeth yr ysgol/lleoliad i roi meddyginiaeth	
	Ffurflen 5 Cofnod o feddyginiaeth a roddwyd i blentyn unigol	

	Ffurflen 6	Cofnod o feddyginiaethau a roddwyd i bob plentyn	
	Ffurflen 7	Cais i blentyn gario ei feddyginiaeth ei hun	
	Ffurflen 8	Cofnod o hyfforddiant staff - rhoi meddyginiaethau	
	Ffurflen 9	Awdurdodi gweinyddu diazepam drwy'r rectwm	
5	Cysylltiadau Defnyddiol		106

Rhagair

Gall cyflyrau meddygol effeithio'n barhaus ar ddatblygiad cymdeithasol, gallu a hyder plant a phobl ifanc yn eu cyflawniadau addysg. Mae'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau cymorth di-dor ar gael i ddiwallu eu hanghenion a'u galluogi i fanteisio ar gyfleoedd addysgol yn barhaus yn yr ysgol, gartref, yn yr ysbyty, neu leoliad arall ac mewn cydweithrediad effeithiol gyda rhieni a'r ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu fel arfer.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg ar gyfer ein holl blant a phobl ifanc ac yn cydnabod pwysigrwydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i'w lles. Nodir ein hymrwymiad i blant a phobl ifanc yn Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth, a elwir fel arfer yn NSF. Mae'r safonau yn yr NSF wedi'u croesgyfeirio drwy'r canllawiau hyn i sicrhau y cyflawnir ei safonau wrth gynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol.



A handwritten signature in black ink that reads "Leighton Andrews AC".

Leighton Andrews AC

Y Gweinidog dros Blant,
Addysg a Dysgu Gydol Oes



A handwritten signature in black ink that reads "Edwina Hart MBE AC".

Edwina Hart MBE AC

Y Gweinidog dros Iechyd
a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mynediad i Addysg
a Chymorth i Blant a
Phobl Ifanc ag Anghenion
Meddygol

Mai 2010

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2010

Pennod 1: Cymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol

Crynodeb o'r Bennod

Mae'r bennod hon yn ystyried y graddau amrywiol o anghenion meddygol disgyblion, yr effaith ar eu haddysg, iechyd a lles a swyddogaethau a chyfrifoldebau priodol y rhai hynny sy'n darparu cymorth i sicrhau bod ganddynt fynediad parhaus i gyfleoedd addysgol. Mae pwyslais hefyd ar swyddogaeth bwysig rhieni wrth gynorthwyo addysg barhaus eu plant.

Y nod yw achosi'r aflonyddwch lleiaf posibl ar addysg arferol. Mae galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad i addysg briodol yn bwysig i'w datblygiad meddyliol, cymdeithasol a chorfforol yn y dyfodol.

Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i blant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu mynychu ysgol oherwydd anghenion meddygol: disgyblion â salwch corfforol neu sydd wedi'u hanafu a disgyblion â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n amlinellu dyletswyddau awdurdodau lleol ac ysgolion mewn perthynas â deddfwriaeth berthnasol ar anabled.

Dylai awdurdodau, ysgolion a chyrrff llywodraethu lunio polisiau i addysgu plant a phobl ifanc sydd ag anghenion meddygol yng ngoleuni eu cyfrifoldebau statudol a'u hasesiadau eu hunain o anghenion ac adnoddau lleol.

1.1 Bydd gan y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc gyflwr meddygol (tymor byr yn aml) ar ryw adeg a allai effeithio ar eu cyfranogiad mewn gweithgareddau ysgol. Mae'r mwyafrif yn gallu mynychu'r ysgol yn rheolaidd a chymryd rhan yn y mwyafrif o weithgareddau ysgol arferol gyda pheth cymorth gan yr ysgol.

1.2 Gallai rhai cyflyrau meddygol gael effaith sylweddol. Gall fod yn uniongyrchol ac effeithio ar eu gallu gwybyddol, eu gallu corfforol, eu hymddygiad neu eu cyflwr emosiynol a/neu yn anuniongyrchol, er enghraifft: drwy aflonyddu ar fynediad plentyn neu berson ifanc

i addysg; drwy effeithiau annymunol triniaethau; a thrwy'r effeithiau seicolegol y gall afiechyd neu anabledd difrifol neu gronig eu cael arnyn nhw a'u teuluoedd. Gall yr effeithiau fod yn ysbeidiol a gall yr effaith ar ei berfformiad yn yr ysgol amrywio ar wahanol gyfnodau yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol. Gall hyn ddigwydd yn arbennig yn ystod cyfnodau o newid yn y cwricwlwm ysgol, newidiadau yn y plentyn neu'r person ifanc a newidiadau yn eu grŵp cyfoed.

1.3 Bob blwyddyn mae ar filoedd o blant a phobl ifanc angen addysg y tu allan i'r ysgol oherwydd salwch tymor hirach, anafiadau neu broblemau iechyd meddwl a ddiffinnir yn glinigol. Bydd eu sefyllfaoedd yn amrywio'n eang ond maent i gyd yn wynebu'r risg o golli hunanhyder a chyrhaeddiad addysgol is. Gellir darparu addysg mewn sawl ffordd, er enghraifft drwy ddarparu ysgol yn yr ysbyty neu wasanaeth dysgu yn yr ysbyty; dysgu gartref; neu wasanaeth addysg ysbyty/cartref ar y cyd neu mewn uned benodol ar gyfer cyfeirio disgyblion.

***Safon NSF Mynediad i Wasanaethau:
Gweithredu Allweddol 7.7***

Mae digon o addysg barhaus, mewn lle addas, ar gael i'r holl blant a phobl ifanc sy'n ddigon iach i'w derbyn, gan gynnwys rhai yn yr ysbyty. Mae'r plant yn cael eu haddysgu ar y cyd â'u hysgolion unigol, ac mae'r addysg yn briodol yn ôl eu hoedran a'u cam datblygu.

1.4 Bydd ymgynghori a chynnal trafodaethau agored rhwng y plentyn neu'r person ifanc, eu rhieni, yr ysgol, gwasanaeth iechyd ysgolion neu eu meddyg teulu, y paediatregydd cymunedol ac unrhyw wasanaethau arbenigol sy'n darparu triniaeth ar eu cyfer yn hanfodol er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu heithrio'n ddiangen o unrhyw ran o'r cwricwlwm neu weithgarwch ysgol oherwydd pryder am eu gofal a'u triniaeth.

1.5 Y rhieni sydd â'r prif gyfrifoldeb am iechyd eu plant. Dylai'r rhieni a'r plentyn neu'r person ifanc os oes ganddynt y gallu i wneud hynny ddarparu manylion oddi wrth y Meddyg Teulu neu'r paediatregydd, fel sy'n briodol. Gall rhieni ddarparu gwybodaeth am gyraeddiadau addysgol eu plant ac am amrywiaeth o faterion eraill, a fydd yn effeithio ar gynnydd addysgol y plentyn a byddant yn helpu o'r fath yn ddefnyddiol wrth wneud penderfyniadau ar addysg y disgybl.

1.6 Dylai rhieni gael mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth yn ystod salwch y plentyn a lle bynnagy bo modd, dylid hysbysu rhieni a'u plant o'r addysg sydd ar gael iddynt cyn eu derbyn. Gall cadw cysylltiad rhwng y rhieni a'r ysgol ar ôl i'w plentyn ddychwelyd i'r ysgol dawelu meddwl y rhieni, y plentyn ac athrawon yn aml.

Safon NSF: Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar Blant a Theuluoedd

Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn derbyn gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion penodol. Maent yn cael eu parchu gan ddarparwyr gwasanaethau, ac yn cael y wybodaeth a'r cyngor sy'n briodol i'w gallu a'u hanghenion sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau ynghylch y gofal maent yn ei dderbyn.

1.7 Er y gallai disgyblion ag anghenion meddygol fod ag anghenion dysgu ychwanegol, nid yw diagnosis meddygol o reidrwydd yn golygu bod ganddo anghenion addysgol arbennig fel y diffinnir yn Neddf Addysg 1996. Mae'n bosibl y gall cyflwr meddygol gynyddu'r tebygolrwydd y bydd plentyn neu berson ifanc yn datblygu "anhawster dysgu llawer gwaeth na'r mwyafrif o blant o'r un oed,"¹ neu y gall eu cyflwr fod yn anabledd sy'n eu hatal neu eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol a ddarperir yn gyffredinol i blant o'r un oed yn yr ardal leol. Os yw hyn yn wir, efallai fod ganddo angen addysgol arbennig a bydd gofyn cynnal asesiad statudol o'i anghenion.

1.8 Dylai'r awdurdod lleol, y swyddog meddygol dynodedig a gweithwyr proffesiynol eraill ystyried mewn trafodaethau gyda rhieni a'r ysgol, a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion addysgol arbennig ac a oes arno angen darpariaeth addysgol arbennig. Am arweiniad pellach gweler Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Cymru.

Rôl yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI)

1.9 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu addysg ac eithrio yn yr ysgol (EOTAS) lle mae angen gwneud hynny i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc (gweler Pennod 4). Dylid teilwra'r trefniadau y mae'n rhaid i awdurdod eu gwneud yn ôl eu hamgylchiadau unigol ac yn ôl y cyfleusterau sydd ar gael.

¹ Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Cymru 2002

Mae arferion da'n awgrymu y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod:

- dulliau cyfathrebu clir er mwyn i bawb wybod pwy sy'n gyfrifol am nodi anghenion plentyn neu berson ifanc a sut i ddefnyddio'r gwasanaethau perthnasol yn gyflym;
- cynllun addysg unigol gan bob plentyn neu berson ifanc sy'n methu mynychu'r ysgol oherwydd cyflwr meddygol hirdymor neu gyflwr sy'n dychwelyd. Dylid rhoi'r cynllun ar waith yn syth ar ôl ei dderbyn i'r ysbyty neu pan fydd yn methu mynychu'r ysgol. Dylid cychwyn yr addysg cyn gynted ag y bydd y cyflwr meddygol yn caniatáu;
- rhieni'n cael gwybod gyda phwy y dylid cysylltu i ofyn am ddarpariaeth addysg y tu allan i'r ysgol;
- cyngor meddygol yn cael ei dderbyn a'i roi ar waith heb oedi;
- nad yw plant a phobl ifanc gartref am fwy na 15 diwrnod gwaith heb fynediad i addysg ac os yw disgybl yn cael salwch/diagnosis sy'n achosi absenoldeb hir neu ysbeidiol o'r ysgol, gartref neu yn yr ysbyty, dylai mynediad i addysg ddechrau o'r diwrnod cyntaf os yw hynny'n bosibl a phriodol;
- disgyblion yn derbyn addysg o ansawdd tebyg i'r hyn sydd ar gael yn yr ysgol, gan gynnwys cwricwlwm eang a chytbwys;
- dylai disgyblion a addysgir gartref gan fod ganddynt gyflwr meddygol dderbyn **o leiaf 5 awr** o addysg yr wythnos. Dylid ei gynyddu yn ôl yr angen i'w alluogi i gadw i fyny gyda'i astudiaethau yn enwedig wrth iddo agosáu at arholiadau cyhoeddus;
- gan athrawon fynediad i amrywiaeth o hyfforddiant mewn gwasanaeth i gynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol; a
- eu darpariaeth mewn ysgolion ac ysbytai yn cael ei hadolygu'n rheolaidd; bod y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu yn diwallu anghenion yr holl blant a phobl ifanc; bod datblygiad plant a phobl ifanc yn cael ei olrhain a'i fonitro drwy'r amser; bod darpariaeth yn cael ei chynnal yn gost-effeithiol, a'i bod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Addysg 1996.

1.10 Gall yr ysgol neu'r Swyddogion Lles Addysg (EWO) ddefnyddio dadansoddiadau o absenoldebau meddygol yn rheolaidd i ddatblygu dulliau monitro plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol yn gyson, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth dysgu gartref ac yn yr ysbyty.

1.11 Mae gan Swyddogion Lles Addysg (EWO) swyddogaeth bwysig wrth sicrhau cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol a datrys unrhyw faterion mynychu, gan gynnwys achosion o anghenion meddygol. Dylai pob ysgol fod ag EWO penodol sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r ysgol honno i reoli presenoldeb yr holl blant a phobl ifanc yn yr ysgol. Mewn rhai ardaloedd, mae'r EWO wedi'u lleoli yn yr ysgol ac yn cael eu rheoli'n uniongyrchol ganddi. Mae'n hanfodol bod Gwasanaethau Lles Addysg (EWS) ac ysgolion yn rhannu polisiau ac arferion gweithredol a dylid sicrhau bod swyddogaethau staff ysgol ac EWO wedi'u diffinio'n glir. Mae'n arfer da penodi uwch aelod o staff i gydgyssylltu presenoldeb fel rhan o agwedd yr ysgol gyfan at gynhwysiant. Dylai ysgolion ddefnyddio staff gweinyddol i wirio cofrestrï ac i gysylltu â rhieni plentyn neu berson ifanc ar unwaith ar ddiwrnod cyntaf unrhyw absenoldeb.

**Safon NSF Mynediad i Wasanaethau:
Gweithredu Allweddol 6.6**

Mae pob plentyn oedran ysgol mewn amgylchiadau arbennig yn cael cynnig lle mewn ysgol yn eu hardal leol, lle bo hynny'n bosibl/briodol. Mae dewis ysgol y person ifanc yn cael ei fodloni lle bo hynny'n bosib. Mae eu presenoldeb a'u gofynion am gymorth ychwanegol yn cael eu monitro, a chymau'n cael eu cymryd i ofalu bod eu hanghenion yn cael eu bodloni.

Swyddogaeth yr Ysgol

1.12 Dylai ysgolion sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n absennol o'r ysgol oherwydd eu hanghenion meddygol y cymorth addysg angenrheidiol i gynnal eu haddysg. Mae angen i'r ysgol, y rhieni a'r awdurdod lleol gyfathrebu a chydweithredu'n dda os bwriedir

darparu addysg dda. Dylai awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu gydweithio i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc ag anghenion meddygol a staff ysgol gymorth effeithiol mewn ysgolion.

1.13 Dylai ysgolion sicrhau bod eu trefniadau gofal bugeiliol eu hunain yn galluogi plant a phobl ifanc i drafod unrhyw broblemau sy'n ymwneud ag iechyd neu broblemau eraill gyda gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol, seicolegydd addysg, swyddog lles addysg, cynghorwr neu weithiwr proffesiynol arall os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Dylai'r ysgol a'r teulu gadw mewn cysylltiad i ddarparu'r cymorth mwyaf posibl ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

1.14 Dylai ysgolion gael polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer ymdrin ag addysg plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol. Gallai'r rhain hefyd fod yn ddefnyddiol ym mhrosbectws yr ysgol (gweler Atodiad 2).

1.15 Nid oes dyletswydd gyfreithiol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion weinyddu meddyginiaeth; swyddogaeth wirfoddol yw hon. Fodd bynnag, mae dyletswydd i sicrhau bod aelodau staff sy'n gwirfoddoli i weinyddu meddyginiaeth yn cael cymorth gan y Pennaeth a rhieni, mynediad i wybodaeth a hyfforddiant, a sicrwydd am eu hatebolrwydd cyfreithiol.

Mae arferion da'n awgrymu y dylai ysgolion:

- gael polisi ar waith ar gyfer diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol;
- penodi aelod o staff penodol sy'n gyfrifol am blant a phobl ifanc ag anghenion meddygol, cadw mewn cysylltiad â rhieni, plant a phobl ifanc, y gwasanaeth dysgu gartref, yr awdurdod lleol, y gweithiwr allweddol ac eraill sy'n cyfrannu at ofal y plentyn neu'r person ifanc;
- hysbysu'r awdurdod lleol/EWO os yw plentyn neu'r person ifanc i ffwrdd, neu'n debygol o fod i ffwrdd, o'r ysgol oherwydd anghenion meddygol am fwy na 15 diwrnod gwaith;
- cyflenwi gwybodaeth am alluoedd, cyrhaeddiad addysgol a rhaglen waith plentyn neu berson ifanc i'r darparwyr addysg priodol;

- cyfrannu at fonitro cyrhaeddiad ac wrth ailsefydlu yn yr ysgol, gan gadw mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill, yn ôl yr angen;
- datblygu cynllun gofal iechyd ysgol ar gyfer plentyn neu berson ifanc unigol ag anghenion meddygol ar y cyd â rhieni, yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill;
- darparu hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon i gynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol;
- sicrhau bod plant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd anghenion meddygol yn cael gwybod am ddiwyddiadau cymdeithasol yn yr ysgol ac yn gallu cymryd rhan, er enghraifft, mewn clybiau gwaith cartref, cymorth astudio a gweithgareddau eraill;
- annog a hwyluso cyfoedion i gadw mewn cysylltiad, er enghraifft, drwy ymweliadau a fideos; a
- lle bo'n briodol, anfon gwaith i'w wneud gartref yn cyfnod dros dro rhwng absenoldeb a dychwelyd i'r ysgol neu ddarparu addysg yn y cartref.

1.16 **Ni** cheir tynnu plentyn neu berson ifanc nad yw'n gallu mynd i'r ysgol oherwydd anghenion meddygol oddi ar gofrestr yr ysgol heb ganiatâd y rhieni, hyd yn oed yn ystod cyfnod hir o salwch, ac eithrio bod swyddog meddygol yr ysgol yn ardystio nad yw'r disgybl yn debygol o fod mewn cyflwr addas i fynychu'r ysgol cyn pasio oedran ysgol gorfodol. Ni ddylid perswadio rhieni i ganiatáu i'w plant gael eu tynnu oddi ar gofrestr ysgol.

1.17 Mae nyrsio yn yr ysgol yn ganolog i amrywiaeth o wasanaethau sy'n hybu a chefnogi iechyd corfforol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc. Wrth gofrestru ar adran Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol cofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, mae nyrsys ysgol yn cael eu cydnabod fel nyrsys iechyd y cyhoedd sy'n allweddol i hyrwyddo, gwella a diogelu iechyd a lles plant a phobl ifanc oedran ysgol i sicrhau eu bod yn cael yr iechyd gorau posibl.

1.18 Mae'r gwasanaeth yn cynnwys:

- Asesu a goruchwyllo iechyd.
- Hybu iechyd ac addysg iechyd.
- Imiwneiddio ac atal clefydau.
- Diogelu iechyd a lles plant a phobl ifanc.
- Cefnogi plant ag anghenion meddygol a mynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd cymhleth.
- Rhoi arweiniad, cyngor, cymorth a hyfforddiant i blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a staff ysgol ar gyflyrau meddygol a gweinyddu meddyginiaethau yn ddiogel.
- Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau gofal iechyd unigol i blant a phobl ifanc y mae arnynt eu hangen ac ymdrin â sefyllfaoedd o argyfwng ac asesu parhaus.
- Gweithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn trafod, storio a gwaredu meddyginiaethau'n ddiogel.

**Safon NSF Mynediad i Wasanaethau:
Gweithredu Allweddol 5.23**

*Mae plant sydd ag **anghenion gofal iechyd cymhleth** sy'n mynd i **ysgolion prif ffrwd neu ysgolion arbennig** yn gallu cael gwasanaeth nyrsys ysgol sy'n cael eu cyflogi gan y GIG. Bydd nyrsys ar gael bob amser mewn ysgolion arbennig pan fo'r plant yn yr ysgol. Mae'r nyrsys ysgol hefyd wrth law i roi cyngor arbenigol i **blant anabl** mewn ysgolion prif ffrwd.*

1.19 Gall gweithwyr iechyd proffesiynol eraill hefyd gyfrannu at ofal plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol mewn ysgolion. Meddyg arbenigol yw'r paediatregydd cymunedol sydd â diddordeb mewn anabled, salwch cronig ac effaith salwch ar blant a phobl ifanc. Gall roi cyngor i'r ysol ar unigolion neu ar broblemau iechyd yn gyffredinol.

1.20 Mae gan y mwyafrif o gyrff y GIG fferyllwyr sy'n arbenigo mewn pediatreg neu wasanaethau iechyd cymunedol. Mae rhai'n cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol ac yn cynghori ar reoli meddyginiaethau mewn ysgolion. Gall hyn olygu eu bod yn helpu

i baratoi polisïau sy'n ymwneud â meddyginiaethau mewn ysgolion a hyfforddi staff ysgol. Yn benodol, gallant gynghori ar storio, trafod a gwaredu meddyginiaethau.

**Safon NSF Ansawdd Gwasanaethau:
Gweithredu Allweddol 2.27**

Mae gan y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddirideolaethau'r GIG strategaeth ar feddyginiaethau sy'n cynnwys:

- Enw fferyllydd sy'n arbenigo mewn meddyginiaeth bediatrig;
- Sicrhau fod pob ymarferwr sy'n paratoi, gweinyddu neu'n dosbarthu meddyginiaethau i blant, yn cael gwybodaeth safonol, diweddaraf, am feddyginiaethau plant - ar ffurf copi caled ac electronig, ee FfGC i Blant.

1.21 Mae rhai plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol yn cael cymorth ymroddedig gan nyrs arbenigol neu nyrs baediatrig gymunedol. Mae'r nyrsys hyn yn gweithio'n aml fel rhan o Fwrdd Iechyd Lleol ac yn cadw mewn cysylltiad agos â'r tîm gofal iechyd sylfaenol. Gallant ddarparu cyngor ar anghenion meddygol unigolyn, yn enwedig pan fydd diagnosis newydd o gyflwr meddygol a bod plentyn neu'r person ifanc yn addasu i drefniadau newydd. Gall ysgolion alw ar Nyrsys Arbenigol Diabetes Pediatrig (PDSNs) am gymorth a chyngor arbenigol.

Addysg ôl-16

Safon NSF: Pontio

Mae pobl ifanc sydd eisïau gwasanaethau parhaus, fel rhai sy'n anabl neu'n dioddef salwch cronig, plant ifanc sydd â salwch neu anhwylderau meddyliol parhaus, pobl ifanc sy'n agored i niwed a'u teuluoedd a'u gofalwyr, a rhai sy'n gadael gofal, yn cael cynnig pob math o wasanaethau amlasiantaeth wedi'u cydgysylltu yn unol â'r anghenion a aseswyd - fel eu bod yn pontio'n effeithiol o blentyndod i fyd oedolion.

1.22 Dylid ystyried anghenion addysgol ôl-16 pobl ifanc yn ofalus, yn enwedig os yw'r cynnydd wedi bod yn araf hyd at 16 oed oherwydd darpariaeth addysgol ysbeidiol. Dylai pob asiantaeth wneud ei gorau i alluogi plentyn neu berson ifanc i barhau gyda'i gwrs ar ôl cael ei dderbyn i'r ysbyty, neu gartref yn ystod salwch neu o ganlyniad i anaf.

1.23 Fel arfer dylai awdurdodau lleol drefnu addysg barhaus ar gyfer pobl ifanc dros oedran ysgol arferol ond dan 18 oed, os yw'r disgybl oherwydd salwch angen astudio ymhellach, i gwblhau cyrsiau arholiad, y byddai, fell arall, wedi'u cwblhau cyn cyrraedd oedran gadael ysgol arferol.

1.24 Cyfrifoldeb y person ifanc ei hun yw penderfynu pa lwybr sydd fwyaf addas ar ei gyfer. Mae gan gynghorwyr Gyrfa Cymru ran hanfodol yn y gwaith o gynghori pobl ifanc ar eu hopsiynau dysgu.

Gwahaniaethu ar sail Anabledd

1.25 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu'r 'model cymdeithasol' o anabledd, sy'n defnyddio'r term anabledd nid i gyfeirio at nam ond yn hytrach i ddisgrifio effeithiau rhagfarn a gwahaniaethu, y ffactorau cymdeithasol sy'n creu rhwystrau, atal cyfleoedd, ac felly'n eithrio ac anablu pobl.

1.26 Mae gan ysgolion ac awdurdodau lleol ddyletswyddau penodol o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf AAA ac Anabledd 2001 a Deddf Anabledd 2005 i beidio â thrin plant a phobl ifanc anabl yn llai ffafriol, i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i i'w cynorthwyo ac i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl.

Ystyrir bod person yn anabl os oes ganddo/ganddi
"nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith niweidiol
sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau
arferol" Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995

1.27 Ers mis Medi 2002, mae'n rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol:

- beidio â thrin plant a phobl ifanc yn llai ffafriol, heb gyfiawnhad, am reswm sy'n ymwneud â'u hanabledd;
- cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc anabl yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol o gymharu â plant a phobl ifanc eraill nad ydynt yn anabl; a
- cynllunio'n strategol ar gyfer a gwneud cynnydd o ran:
 - gwella amgylchedd ffisegol ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc anabl;
 - cynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc anabl yn y cwricwlwm; a
 - gwella'r ffyrdd y mae gwybodaeth ysgrifenedig a ddarperir i blant a phobl ifanc nad ydynt yn anabl yn cael ei darparu hefyd i blant a phobl ifanc anabl.

1.28 Gall hawliadau gwahaniaethau ar sail anabledd, o dan amgylchiadau penodol, gael eu gwneud gan rieni yn erbyn cyrff cyfrifol. Gall Tribiwnlys AAA yng Nghymru wrando ar y rhain.

1.29 Mae canllawiau manwl wedi'u cyhoeddi ar "Ymwybyddiaeth o Ddyletswyddau Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar gyfer Ysgolion (2007)". Hefyd, mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a sefydlwyd fis Hydref 2007.

Pennod 2: Cynllunio i Ddiwallu Anghenion Plant a Phobl Ifanc

Crynodeb o'r Bennod

Pa bynnag ddarpariaeth sy'n ofynnol ar gyfer plant a phobl ifanc unigol, dylai pob un o'r elfennau'n llunio rhan o fframwaith cynllunio strategol sy'n sicrhau darpariaeth addysg barhaus a sefydlu mecanweithiau effeithiol ar gyfer cyfathrebu rhwng y cartref, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac ysbytai.

Mae polisi clir sy'n cael ei ddeall a'i dderbyn gan staff, rhieni a phlant a phobl ifanc yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau bod phlant a phobl ifanc ag anghenion meddygol yn cael gofal a chymorth priodol yn yr ysgol. Dylai polisiau alluogi disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, cyn belled â bo hynny'n bosibl. Dylai systemau a gweithdrefnau ffurfiol, wedi'u llunio mewn partneriaeth â rhieni a staff, gefnogi'r polisi.

Nod y Bennod hon yw nodi mecanweithiau cynllunio priodol y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol eu rhoi ar waith i sicrhau bod anghenion meddygol plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu'n effeithiol a bod cynlluniau gofal iechyd priodol ar waith lle bo'n briodol sy'n cynnig cyngor ac arweiniad pellach ar weithgareddau y tu allan i'r ysgol ac sy'n ystyried pa hyfforddiant sydd ei angen ar staff cymorth ysgolion a phwysigrwydd rhannu gwybodaeth.

Anghenion Meddygol Tymor Byr

2.1 Dylid gwneud trefniadau gyda'r rhieni ar gyfer absenoldebau y disgwylir iddynt bara o leiaf 15 diwrnod gwaith neu lai ac nad ydynt yn rhan o batrwm o salwch ysbeidiol, i ddarparu gwaith cartref ar gyfer y plentyn cyn neu'r person ifanc cyn gynted ag y byddant yn gallu ymdopi â hynny. Mae cyswllt o'r fath rhwng yr ysgol a rhieni fel arfer yn caniatáu i waith a deunyddiau fel llyfrau a dogfennau cyfeirio gael eu hanfon i'r cartref. Fodd bynnag, lle mae'r absenoldeb yn ymwneud â chyflwr cronig, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn derbyn addysg cyn gynted ag y byddant yn cael budd o hynny.

2.2 Dylai'r ysgol fonitro gwaith sydd heb ei wneud a chynllunio, mewn cysylltiad â'r ysbyty/gwasanaeth dysgu cartref, os ydynt yn cyfrannu at y dysgu, i gynorthwyo plentyn neu berson ifanc i "gadw i fyny yn hytrach na gorfod dal i fyny". Mae ar blentyn neu berson ifanc sy'n gweithio tuag at arholiadau cyhoeddus angen ystyriaeth arbennig a dylid nodi'r trefniadau yng ngweithdrefnau'r awdurdod lleol a'r ysgol.

Anghenion Meddygol Hirdymor

2.3 Dylai fod gan yr ysgol ddigon o wybodaeth am gyflwr meddygol unrhyw blentyn neu berson ifanc ag anghenion meddygol hirdymor. Os nad yw anghenion meddygol plentyn neu berson ifanc yn cael digon o gefnogaeth, gall effeithio'n sylweddol ar ei gyraeddiadau academaidd a/neu arwain at broblemau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Felly mae angen i'r ysgol wybod am unrhyw anghenion meddygol cyn i blentyn ddechrau yn yr ysgol, neu pan fo cyflwr yn datblygu. Efallai y bydd angen gwneud trefniadau arbennig ar gyfer y rhai sy'n mynychu llawer o apwyntiadau ysbyty hefyd. Yn aml, mae'n ddefnyddiol i ysgol lunio cynllun gofal iechyd ysgrifenedig, gan sicrhau cyfraniad rhieni a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol eraill. Gweler Atodiad 4, Ffurflen 3.

Safonau NSF Gwasanaethau Plant a Theulu ac Ansawdd Gwasanaethau: Gweithredu Allweddol 2.2 a 5.29

Pwysleisio y dylai ysgolion gael 'cynllun gofal iechyd ysgol' ac y dylai gael ei gynllunio'n benodol ar gyfer pob plentyn ag anghenion cymhleth. Dylai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau gan unrhyw asiantaeth gyfrannu'n llawn at adolygiadau rheolaidd sy'n eu galluogi i fynegi eu safbwyntiau am sut y diwellir eu hanghenion.

2.4 Lle mae salwch yn anodd ei rag-weld ac yn newidiol, dylid cael cyfarfodydd adolygu yn ogystal â chyfarfodydd cynllunio a gweithredu.

2.5 O ran y disgyblion hynny nad ydynt yn yr ysgol ac y mae arnynt angen addysg ond nad ydynt wedi'u derbyn i'r ysbyty neu sydd rhwng cyfnodau yn yr ysbyty, EWO yw'r ffynhonnell hysbysu a ddefnyddir amlaf. Fodd bynnag, mewn rhai awdurdodau lleol, nid yw swyddogion yn dilyn achosion o absenoldebau plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn awtomatig yn absenoldebau awdurdodedig. Mae'n bwysig bod yr ysgol gartref yn hysbysu'r EWO a'r awdurdod lleol am absenoldeb awdurdodedig oherwydd salwch hirdymor. **Mae'n rhaid cael caniatâd gan rieni cyn ceisio gwybodaeth feddygol bob tro.**

2.6 Dylid cynllunio ffordd i ailafael mewn addysg, ar ba bynnag ffurf, mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn teimlo dan bwysau i astudio ond yn cael eu hannog i wneud hynny mewn ffordd sy'n debygol o fod yn gynaliadwy.

Beichiogrwydd yn yr Ardegau

2.7 Wrth gyflawni eu rhwymedigaethau statudol o dan adran 13 ac 19 o Ddeddf Addysg 1996, mae gan awdurdodau lleol bwerau y gellir eu defnyddio i ddarparu cymorth i famau ifanc a darpar famau. Dylai awdurdodau lleol gydweithio ag ysgolion a phartneriaethau ehangach i ddarparu cymorth i'r fam, yn ystod ei beichiogrwydd ac ar ôl geni'r baban.

Safon NSF Mynediad i Wasanaethau: Gweithredu Allweddol 3.11

Mae gwasanaethau arbenigol ar gael i ferched ifanc yn eu harddegau sy'n feichiog, megis addysg rhieni a chyfoedion a grwpiau cymorth.

2.8 Dylid penodi swyddog awdurdod lleol i fod yn gyfrifol am rieni ifanc yn yr ysgol. Y swyddog ailsefydlu arbenigol fydd hwn mewn ardaloedd lle mae rhai'n bodoli.

2.9 Dylai ysgolion hyrwyddo gwasanaethau nyrsys ysgol, ymwelwyr ieched, bydwragedd, meddygon teulu, clinigau lleol a chyfleusterau

meddygol eraill cyn belled â phosibl fel y lle cyntaf i gael cyngor ar faterion meddygol, gan gynnwys beichiogrwydd.

2.10 Mae rhieni sydd â phlant ysgol sy'n rhieni yn gorfod sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ddarpariaeth a drefnir gan yr awdurdod lleol. Bydd angen i awdurdodau lleol gydweithio'n agos â'r plentyn neu'r person ifanc a'r teulu ehangach i sicrhau eu bod yn manteisio ar y cyfleoedd dysgu parhaus sydd ar gael.

2.11 Mae gwybodaeth bellach am rieni ifanc a beichiogrwydd yn yr ardeggau ar gael yng Nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru "Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion" (2006).

Plant a phobl ifanc â Chyflyrau Meddygol Dirywiol

2.12 Mae rhai cyflyrau'n datblygu'n gyflym ac mae hyn yn golygu bod iechyd y plentyn yn dirywio yn codi cwestiynau penodol o ran hygyrchedd y cwricwlwm a gweithgareddau priodol ar gyfer oed a gallu'r plentyn a'r person ifanc. O dan amgylchiadau o'r fath, mae angen i'r asiantaethau amrywiol sy'n cyfrannu at unrhyw asesiad statudol a darpariaeth mewn ysgol ymateb yn gyflym. Mae cynnal mewnbyn addysgol, hyd yn oed pan fo cyflwr yn datblygu'n gyflym, yn bwysig i'r plentyn a'r teulu.

2.13 Gall plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth o gyflyrau meddygol cynyddol neu ddirywiol ofyn am ystyriaeth arbennig pan fo cymorth neu ymyriad addysgol yn cael ei ystyried. Bydd gan y plant a'r bobl ifanc hyn fwy o anghenion meddygol na'r mwyafrif. Bydd angen i weithwyr iechyd proffesiynol, ysgolion ysbyty ac ysgolion eraill gydweithio'n agos, yn enwedig lle darperir meddyginiaeth a chyfarpar meddygol.

2.14 Er y bydd iechyd yn dirywio ar gyflymder amrywiol, hwyrach y bydd angen adolygu darpariaeth addysg a darpariaethau eraill ar gyfer y grŵp hwn o blant a phobl ifanc yn amlach a chynt.

2.15 O fis Medi 2002, mae cyflyrau dirywiol wedi'u cwmpasu gan ddarpariaethau Rhan IV o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Disgyblion ag Anghenion Iechyd Cymhleth

2.16 Mae'r polisiau yng Nghymru ar gynnwys plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd cymhleth, lle bynnag bosibl, mewn ysgolion prif ffrwd, yn golygu bod gan ysgolion fwy o gyfrifoldeb am ddiwallu anghenion iechyd nifer cynyddol o ddisgyblion ag anghenion cymhleth mewn lleoliadau addysg. O ganlyniad i'r polisi hwn mae'r boblogaeth o blant a phobl ifanc sy'n parhau mewn ysgolion arbennig yn debygol o fod â lefel uwch o anghenion na'r gorffennol.

2.17 Y prif nod o hyd yw darparu cwricwlwm addysgol sy'n gwneud y mwyaf o botensial yr holl blant a phobl ifanc yn yr ysgol, pa beth bynnag eu hanghenion gofal iechyd. Mae ymrwymiad cadarnhaol i agwedd ar sail hawliau at ofal ac addysg plant a phobl ifanc ag anabledau difrifol yn hanfodol.

2.18 Mae angen dull partneriaeth i sicrhau cydweithredu effeithiol rhwng iechyd ac addysg i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd mewn ysgol. Mae cefnogaeth yr uwch swyddog penodol ym mhob ardal BILI sydd â chyfrifoldeb dynodedig am gomisiynu gwasanaethau plant a phobl ifanc, gan gynnwys gwasanaethau iechyd ysgol, yn hanfodol. Mae ffocws cryf ar waith amlasiantaeth yn gwella hyfforddiant a chymorth i athrawon a staff addysgu wrth reoli plant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd cymhleth, ynghyd ag wrth baratoi, gweithredu, monitro a gwerthuso cynlluniau gofal.

Safon NSF Gwasanaethau Plant a Theulu: Gweithredu Allweddol 5.28

*Mae protocolau clir ar atgyfeirio plant dan 2 oed sydd ag **anghenion cymhleth**, difrifol a hirdymor, i fydd addysg. Mae gwasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cydgytuno ar anghenion pob plentyn a aseswyd, a sut byddant yn cael eu diwallu - fel nad yw'r un plentyn ar ei hôl hi wrth gychwyn ysgol.*

2.19 Bydd y nifer cynyddol o blant a phobl ifanc mewn ysgolion prif ffrwd â chyflyrau fel asthma, diabetes, sioc anaffylactig, epilepsi neu ffibrosis systig (gweler Atodiad 3 - Cyflyrau Cyffredin) yn gofyn am gydweithio agos rhwng ysgolion a'r gwasanaethau iechyd. Mae'r disgyblion dan sylw'n debygol o fod angen cymorth ychwanegol o bryd i'w gilydd i reoli cyflwr iechyd (sydd weithiau'n gallu bygwth bywyd) mewn lleoliadau addysg neu gymunedol eraill. Efallai y bydd gan ysgolion hefyd blant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd sylweddol yn dychwelyd i'r ysgol, yn ystod eu triniaethau o bosibl.

2.20 Mae'r holl blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd cymhleth angen gweithiwr allweddol neu gydgysylltydd gofal penodol. Mae gweithiwr allweddol yn cael ei benodi i gefnogi'r unigolyn ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd ac mae'n gyswllt i wasanaethau eraill sydd ar gael ac y gellir eu defnyddio'n effeithiol. Mae gan weithwyr allweddol gyfrifoldeb i weithio gyda'i gilydd gyda'r teulu a chyda gweithwyr proffesiynol ac i ddarparu cynllun gofal rhyngasiantaethol ar gyfer y plentyn a'r teulu.

Safon NSF Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar y Plant a'r Teulu: Gweithredu Allweddol 2.14

*O ran plant a phobl ifanc sydd eisiau mwy na dau wasanaeth parhaus yn ogystal â'r gwasanaethau cyffredinol, mae eu gwasanaethau yn cael eu cydgysylltu gan **weithiwr allweddol a gomisiynwyd**. Mae'r plentyn yn gwybod beth yw enw'r **gweithiwr allweddol** ac mae cofnod o hynny yng nghynllun gofal y plentyn.*

2.21 Gall rhieni plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol hefyd ddarparu copi o adrannau perthnasol o "Lyfr Oren" eu plentyn i ysgolion. Menter a gefnogir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw'r llyfr oren sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth a'u rhieni. Mae'n gyfrwng i rieni gasglu gwybodaeth bwysig am eu plentyn mewn un lle hawdd ei gyrraedd ac i rannu'r wybodaeth hon gydag ymarferwyr.

2.22 Mae ansawdd amgylchedd ffisegol ysgol yn hollbwysig i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Maent yn fwy tebygol o fod angen ymyriadau iechyd sy'n:

- gofyn am fannau y gellir eu cadw'n ddi-haint.
- cynnig digon o le ar gyfer storio, nôl, gwasanaethu a defnyddio cyfarpar, cadeiriau olwyn ac ati.
- sicrhau preifatrwydd ar gyfer darparu gofal personol neu driniaeth feddygol neu therapi.
- darparu trefniadau storio diogel ar gyfer meddyginiaeth.
- darparu manau distaw ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n teimlo'n sâl neu sy'n gwella ar ôl ffit epileptig neu driniaeth.
- darparu digon o wres, gan ei bod hi'n anodd i ddisgyblion ag anabledd difrifol symud digon i gadw'n gynnes a'u bod yn debygol o dreulio cyfnodau ar y llawr neu mewn cyfarpar sefydlog neu gadeiriau olwyn. Mae glendid a chynhesrwydd yn hanfodol i'w lles; a,
- cael trefniadau mynediad diogel ar gyfer cadeiriau olwyn a chymhorthion symud, cerbydau cludiant a manau chwarae y tu allan.

Cynlluniau Gofal Iechyd

2.23 Gall cynllun gofal iechyd unigol helpu ysgolion i nodi'r mesurau diogelwch angenrheidiol i gynorthwyo plant a phobl ifanc a sicrhau nad ydynt hwy ac eraill yn cael eu rhoi mewn perygl. Prif bwrpas cynllun unigol yw nodi'r lefel o gymorth sydd ei angen yn yr ysgol. **Ni fydd pob disgybl ag anghenion meddygol angen cynllun unigol.** Hwyrach y bydd cytundeb ysgrifenedig byr gyda rhieni yn ddigonol. Mae cyfarwyddyd ar yr hyn ddylai cynllun gofal iechyd ei gynnwys ar gael yn Atodiad 4 - Ffurflen 3.

2.24 Gall cynllun gofal iechyd unigol egluro i staff, rhieni a'r plentyn neu'r person ifanc y cymorth y gall yr ysgol ei ddarparu a'i dderbyn. Dylai ysgolion gytuno gyda rhieni pa mor aml y dylent gyd-adolygu'r cynllun gofal iechyd. Mae'n ddoeth gwneud hyn o leiaf unwaith y flwyddyn.

2.25 Dylai'r ysgol benderfynu ar anghenion bob plentyn neu berson ifanc yn unigol gan fod plant a phobl ifanc yn amrywio o ran eu gallu i ymdopi â phroblemau iechyd neu gyflwr meddygol penodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid gweithredu polisi meddyginiaeth yr ysgol yn gyson.

2.26 Ni ddylai llunio cynllun gofal iechyd ysgol fod yn feichus er y bydd pob cynllun gofal iechyd ysgol yn cynnwys gwahanol lefelau o fanylder, yn ôl anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Mae'r bobl y gallai fod angen iddynt gyfrannu at gynllun gofal iechyd yn cynnwys:

- Y Pennaeth.
- Y rhiant neu'r gwarcheidwad.
- Y plentyn neu'r person ifanc (os yw'n gallu).
- Yr athro dosbarth (ysgolion cynradd)/tiwtor dosbarth/pennaeth y flwyddyn (ysgolion uwchradd).
- Cynorthwy-ydd gofal neu staff cymorth (os yw'n gymwys).
- Staff ysgol sydd wedi cytuno i weinyddu meddyginiaeth neu gael eu hyfforddi mewn gweithdrefnau brys.
- Y gwasanaeth iechyd ysgol, meddyg teulu'r plentyn neu'r person ifanc, Gwasanaethau Cymdeithasol neu weithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill (yn dibynnu ar lefel y cymorth sydd ei angen ar y plentyn).

2.27 Os yw cyflwr plentyn neu berson ifanc yn dirywio neu'n bygwth bywyd, dylai'r cynllun adlewyrchu'r anghenion ychwanegol hyn a dylai ddarparu digon o wybodaeth i staff yr ysgol. Dylid eu llunio ar y cyd â'r plentyn (lle'n bosibl), y rhiant, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a gwasanaethau cymdeithasol lle'n briodol, a dylai nodi'n fanwl y mesurau sydd eu hangen i'w gynorthwyo yn yr ysgol, gan gynnwys paratoi ar gyfer sefyllfa frys. Dylai'r cynllun gynnwys manylion am ei gyflwr, beth i'w wneud a'r person y dylid cysylltu ag ef mewn argyfwng. Mae'r cynllun yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ac yn egluro'r cymorth a fydd yn cael ei ddarparu a dylid ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer y rhai â chyflyrau meddygol cymharol sefydlog. Bydd angen adolygu cynllun disgyblion â chyflyrau sy'n dibynnu ar dechnoleg neu â'r potensial i fyrhau bywyd yn amlach.

2.28 Dylid cynnal cyfarfodydd cyn-derbyn bob tro ar gyfer trefniadau cynllunio a sefydlu ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd cymhleth y mae'r ysgol yn eu gweld am y tro cyntaf. Dylai'r cyfarfod cyn-derbyn gynnwys y teulu a chynrychiolwyr iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol perthnasol. Wrth dderbyn plentyn ag anghenion iechyd cymhleth dylai penaethiaid bob amser gynnwys y gwasanaeth iechyd ysgolion wrth lunio cynlluniau iechyd.

2.29 Dylai rhieni, os oes angen, gyda chymorth gweithwyr iechyd proffesiynol, roi digon o wybodaeth i'r Pennaeth am gyflwr meddygol eu plentyn a'r driniaeth neu'r gofal arbennig sydd ei angen yn yr ysgol. Ar y cyd â'r Pennaeth ac asiantaethau eraill, dylent gytuno ar swyddogaeth yr ysgol wrth gynorthwyo gydag anghenion meddygol eu plentyn. Dylai staff sy'n sylwi bod dirywiad graddol yn iechyd plentyn neu berson ifanc hysbysu'r Pennaeth a dylai'r Pennaeth hysbysu'r rhieni.

2.30 Mae'n hanfodol hefyd ar yr adeg hon ei bod hi'n gwbl glir pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn yn unol ag ystyr Deddf Plant 1989 - gall hyn gynnwys cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol am Blant sy'n Derbyn Gofal, os yw hynny'n berthnasol.

Dadebru

2.31 Mae'n debyg y bydd gofal dadebru yn dod yn fwy cyffredin mewn lleoliadau addysg, yn bennaf oherwydd bod y ffordd o reoli plant a phobl ifanc â chyflyrau cymhleth neu ddirywiol wedi newid. Yn y gorffennol roeddent yn debygol o dreulio cyfnodau maith mewn gofal ysbyty. Bellach y rhagdybiaeth yw y byddant yn defnyddio cyfleusterau cymunedol fel ysgolion yn rheolaidd. Mae gan ysgolion yr un cyfrifoldeb i geisio cymorth meddygol brys ar eu cyfer ac ar gyfer plant a phobl ifanc eraill.

2.32 Tîm amlddisgyblaethol priodol ddylai benderfynu ar geisiadau am hysbysiad "Peidiwch â Dadebru" bob tro, gyda chyfranogiad llawn y rhieni a'r rhai â chyfrifoldeb clinigol. Mae cynlluniau o'r fath yn dueddol o gael eu paratoi gan bediatregydd ymgynghorol, nyrs bediatrig gymunedol a'r rhieni, a'u dosbarthu i bawb yn y

sefydliadau iechyd. Yn achos plant sydd â niwro anabledd cymhleth, dylai'r ysgol barhau i alw ar wasanaethau argyfwng os yw'r plentyn yn 'llewygu', ac yna bydd penderfyniadau'n cael eu cymryd yn y lleoliad iechyd mewn ymgynghoriad â'r rhieni.

2.33 Mae'n rhaid ysgrifennu'r penderfyniadau hyn yn glir yn y cynllun gofal iechyd unigol ar gyfer y plentyn. Mae cyfathrebu da'n gwbl angenrheidiol o dan yr amgylchiadau hyn ac yn allweddol i sicrhau bod hawliau'r plentyn neu'r person ifanc yn cael eu parchu a bod cyn lleied o gamddealltwriaeth ac anghytuno â phosibl.

2.34 Dylai ysgolion a chyfleusterau cymunedol eraill fod â pholisïau a gweithdrefnau clir mewn perthynas â gofal dadebru ar gyfer plentyn neu'r person ifanc sydd ag anableddau difrifol.

2.35 Cyfrifoldeb y cyflogwr yw sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn a bod pob aelod o staff yn llawn ymwybodol, fel sy'n briodol, o'r polisïau a'r gweithdrefnau arbennig sydd wedi'u cytuno ar gyfer y plentyn. Disgwylir i staff roi o'u gorau drwy'r amser, yn enwedig mewn achosion brys. Yn gyffredinol mae'n debyg bod y canlyniadau o beidio â gwneud dim yn fwy difrifol na cheisio cynorthwyo mewn achos brys. Os oes ansicrwydd, dylid cychwyn triniaeth tan y gellir gwneud asesiad cliriach.

Cydgysylltu Gwybodaeth

2.36 Dylai Pennaeth a staff yr ysgol drin gwybodaeth feddygol yn gyfrinachol. Dylai'r Pennaeth gytuno gyda'r plentyn neu'r person ifanc (lle mae ganddo/ganddi'r gallu) neu'r rhiant ynglŷn â phwy arall ddylai gael mynediad i gofnodion a gwybodaeth arall amdano. Os nad yw gwybodaeth yn cael ei rhyddhau i staff, ni ddylent yn gyffredinol gael eu dal yn gyfrifol os ydynt yn ymddwyn yn anghywir ond yn ddi-ddwyll wrth roi cymorth meddygol.

2.37 Gall fod yn anodd cydgysylltu a lledaenu gwybodaeth am unigolyn ag anghenion meddygol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Gall y Pennaeth roi cyfrifoldeb penodol am y swyddogaeth hon i aelod o staff. Gall yr unigolyn hwn fod yn swyddog cyswllt cyntaf ar gyfer rhieni a staff, a chadw mewn

cysylltiad ag asiantaethau allanol. Gall Gweithiwr Allweddol ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

2.38 Mae angen i staff a allai fod angen delio ag achos brys wybod am anghenion meddygol plentyn neu berson ifanc. Mae'n rhaid i'r Pennaeth sicrhau bod athrawon llanw yn gwybod am anghenion meddygol disgybl. Pan fo ysgol uwchradd yn trefnu profiad gwaith, dylai'r Pennaeth sicrhau bod y lleoliad yn addas ar gyfer myfyriwr â chyflwr meddygol penodol. Dylid annog plant a phobl ifanc i rannu gwybodaeth feddygol berthnasol â chyflogwyr.

Safon NSF Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar y Plant a'r Teulu: Gweithredu Allweddol 2.59

Mae protocolau clir ar rannu gwybodaeth i hwyluso'r broses o gydweithio rhwng sefydliadau. Mae'r protocolau hyn yn ystyried canllawiau a deddfwriaeth y Llywodraeth, ac yn cyfeirio atynt.

Hyfforddiant

2.39 Bydd angen i ysgolion asesu eu gofynion hyfforddi'n rheolaidd a gweithio gyda phartneriaid iechyd i sicrhau bod y rhain ar waith. Bydd gofyn i staff ysgol fod â gwybodaeth lawn a chyfoes am gyflwr plentyn neu berson ifanc a sut dylent ymateb i anghenion gofal iechyd dydd i ddydd yn ogystal ag achosion brys. Mae'n bwysig diffinio cyfrifoldeb am ddiogelwch plant a phobl ifanc yn glir a bod pob unigolyn sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ag anghenion meddygol yn ymwybodol o'r hyn sydd i'w ddisgwyl ganddynt.

2.40 O ran plant a phobl ifanc â chynlluniau gofal iechyd, gall y cynlluniau nodi'r angen am hyfforddiant pellach. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gadarnhau hyfedredd mewn gweithdrefnau meddygol, yn amrywio o weinyddu meddyginiaeth drwy ddulliau amrywiol i ymdrin â chyfarpar technolegol. Mae gofyn i'r holl staff gael hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol ynghyd â gwybodaeth am y trefniadau iawn ar gyfer symud a thrafod

plentyn. Bydd hyfforddiant mwy arbenigol yn cynnwys hyfforddiant dadebru. Gyda rhai plant a phobl ifanc ag anabledau dysgu ac anghenion iechyd meddwl cysylltiedig, byddai angen trafod pryderon am weinyddu meddyginiaeth a pholisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â defnyddio ataliaeth gorfforol. Byddai angen trafod materion iechyd a diogelwch, gan gyfeirio'n arbennig at reoli risg, a mesurau hylendid personol hefyd.

2.41 Ym mis Mawrth 2005, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol a nodi'r egwyddorion a ddylai reoli'r defnydd o ymyriad corfforol cyfyngol. Nodir y canllawiau presennol ar gyfer lleoliadau addysg yng Nghylchlythyr 37/98: Defnyddio Grym Rhesymol i Reoli neu Ffrwyno Disgyblion. Bwriedir i hwn gael ei ddisodli yn 2010 gan Ymddygiad mewn Ysgolion: Dulliau Diogel ac Effeithiol o Ymyrryd.

2.42 Dylai'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gael eu hyfforddi i ddeall hawliau plant yn iawn a chael ymwybyddiaeth briodol o'u hanghenion, fel y gall cyflogwyr ei gwneud hi'n ofynnol iddynt, ar sail rhwymedigaeth contract penodol, i ymrwymo i barchu a defnyddio'r hawliau hynny. Dylai'r holl staff hefyd dderbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant.

2.43 Dylai BILlau gynnal sesiynau hyfforddiant a hunan-gyllidir ar gyfer gyrwyr tacsï a bws mini a hebryngwyr o'r sector preifat a ddefnyddir i gludo plant a phobl ifanc i'r ysgol.

Safonau NSF Ansawdd Gwasanaethau a Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar y Plant a'r Teulu: Gweithredu Allweddol 2.21, 5.30 a 5.31

Yr asiantaethau'n datblygu cynllun gydag amserlen ar gyfer gweithredu polisi ar gyfraniad plant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel partneriaid wrth gynllunio a gwerthuso'r gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.

Arholiadau Cyhoeddus ac Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

2.44 Mae cyfathrebu effeithlon ac effeithiol yn hanfodol wrth i blant a phobl ifanc ag anghenion meddygol agosáu at arholiadau cyhoeddus gan gynnwys y rhai hynny sy'n sefyll arholiadau yn yr ysbyty, gall yr elfen gwaith cwrs eu cynorthwyo i gadw i fyny gyda'u cyfoedion mewn ysgolion. Gall yr athrawon yn y cartref a'r ysbyty drefnu canolbwyntio ar yr elfen hon i leihau'r amser a gollir pan nad yw'n gallu mynychu'r ysgol. Mae'n hollbwysig bod yr ysgol gartref a'r athro ysbyty neu'r athro cartref yn cadw mewn cysylltiad, yn enwedig pan fo yn symud o'r ysgol neu'r cartref i'r ysbyty yn rheolaidd. Efallai y bydd angen i rai plant a phobl ifanc fonitro neu drin eu cyflwr yn ystod arholiad a dylid gwneud trefniadau ar gyfer hyn.

2.45 Gall cyrff dyfarnu wneud trefniadau arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledau ac anawsterau dysgu parhaol neu hirdymor a disgyblion ag anabledau, salwch neu anhwylderau dros dro, sy'n sefyll arholiadau cyhoeddus, fel TGAU neu Safonau Uwch. Dylai ysgolion gyflwyno ceisiadau am drefniadau arbennig i'r cyrff dyfarnu cyn gynted â phosibl. Mae canllawiau llawn ar yr amrywiaeth o drefniadau arbennig sydd ar gael a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud ceisiadau ar gael yng nghylchlythyr y Cyd-gyngor Cymwysterau Cyffredinol, "*Regulations and Guidance Relating to Candidates with Particular Requirements*" sydd ar gael gan y cyrff dyfarnu.

2.46 Dylai ysgolion fod yn ymwybodol bod arholiadau ac asesiadau yn gallu peri straen i rai plant a phobl ifanc ac y gallai hyn wneud rhai cyflyrau'n waeth.

Teithiau Ysgol

2.47 Mae'n arfer da i ysgolion annog plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol i fynd ar deithiau ysgol, os yw hynny'n ddiogel. Gall ysgol fod yn gwahaniaethu ar gam yn erbyn plentyn anabl os yw'n gwrthod gadael iddo gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath.

2.48 Efallai y bydd angen i'r ysgol gymryd mesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer ymweliadau awyr agored. Bydd hefyd angen ystyried trefniadau ar gyfer cymryd unrhyw feddyginiaeth angenrheidiol. Dylai staff sy'n goruchwyllo gwibdeithiau fod yn ymwybodol o unrhyw anghenion meddygol a gweithdrefnau brys perthnasol bob tro. Weithiau, gall goruchwylwr ychwanegol neu riant ofalu am blentyn neu berson ifanc penodol. Os yw staff yn bryderus ynglŷn ag a ydynt yn gallu darparu ar gyfer diogelwch plant a phobl ifanc, neu ddiogelwch disgyblion eraill ar daith, dylent ofyn am gyngor meddygol gan y Gwasanaeth Iechyd Ysgolion neu feddyg teulu'r plentyn neu'r person ifanc. Dylid mynd â chopi o'i gynllun iechyd ac unrhyw feddyginiaeth neu driniaeth frys ar deithiau.

2.49 Dylai ysgolion roi gwybod i ganolfannau awyr agored a chyflenwyr gwasanaethau eraill am anghenion meddygol neu anabled plentyn neu berson ifanc, er mwyn iddynt allu cynnal asesiad am risg a chynllunio fel sy'n briodol.

Gweithgareddau Chwaraeon

2.50 Gall y mwyafrif o blant a phobl ifanc â chyflyrau meddygol gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol neu yn y cwricwlwm addysg gorfforol sydd yn ddigon hyblyg i'r holl blant a phobl ifanc eu dilyn mewn ffyrdd sy'n briodol ar gyfer eu galluoedd eu hunain. I lawer, gall gweithgarwch corfforol fod o fudd i'w lles cymdeithasol, meddyliol a chorfforol cyffredinol. Dylid cynnwys unrhyw gyfyngiadau ar allu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn addysg gorfforol yn eu cynllun gofal iechyd unigol.

2.51 Efallai bod angen i rai plant a phobl ifanc gymryd mesurau rhagofalus cyn, wrth ymarfer, neu ar ôl ymarfer, a/ neu y gellir cael gafael ar unwaith ar eu meddyginiaeth os oes angen. Dylai athrawon ac eraill sy'n goruchwyllo gweithgareddau chwaraeon fod yn ymwybodol o gyflyrau meddygol a gweithdrefnau brys perthnasol.

Cludiant Ysgol

2.52 Mae Awdurdodau Lleol yn trefnu cludiant o'r cartref i'r ysgol os yw'n ofynnol yn gyfreithiol iddynt wneud hynny. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc yn ddiogel yn ystod y daith a rhoi polisiau ysgol ar waith yn ôl yr angen i'w hannog i ymddwyn yn ddiogel ar eu teithiau i ac o'r ysgol. Nid oes angen goruchwylio'r mwyafrif o blant a phobl ifanc ag anghenion meddygol ar gludiant ysgol, ond dylai awdurdodau lleol ddarparu goruchwylwyr wedi'u hyfforddi'n briodol os ydynt yn ystyried bod angen hynny. Cludir nifer o blant a phobl ifanc ag anawsterau difrifol a lluosog i'r ysgol drwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys tacsis.

2.53 Dylid asesu gofynion cludiant y plentyn neu'r person ifanc a'i ysgrifennu'n glir yn y cynllun gofal iechyd personol ar gyfer y plentyn. Dylai'r cynllun gofal nodi'r camau i'w cymryd i gynorthwyo gyda gofal arferol yr unigolyn yn ogystal â'r ymatebion priodol i sefyllfaoedd brys. Dylai pob gyrrwr a hebryngwr fod wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf sylfaenol a dylent wybod beth i'w wneud mewn achosion meddygol brys. Dylent fod yn ymwybodol o swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd. Hefyd, efallai y bydd yn ofynnol i hebryngwyr wedi'u hyfforddi gynorthwyo rhai plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol cymhleth. Mae'n rhaid iddynt dderbyn hyfforddiant a chymorth a deall y gweithdrefnau a'r protocolau i'w dilyn yn iawn, gan gynnwys gweinyddu meddyginiaethau mewn achos brys, os oes angen.

2.54 Mae'n hanfodol sicrhau bod gyrrwyr a hebryngwyr a ddarperir gan sefydliadau preifat yn ddiogel i weithio gyda phlant a phobl ifanc drwy gyflawni gwiriad boddhaol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB).

Addysg oddi ar y safle neu Brofiad Gwaith

2.55 Ysgolion sy'n gyfrifol am sicrhau, o dan bolisi cyffredinol cyflogwr, fod lleoliadau profiad gwaith yn addas ar gyfer myfyrwyr â chyflwr meddygol penodol. Ysgolion sydd hefyd yn gyfrifol am blant a phobl ifanc ag anghenion meddygol sydd, fel rhan o ddarpariaeth cyfnod allweddol 4, yn cael eu haddysgu oddi ar y safle drwy

ddarparwr arall fel y sector gwirfoddol, darparwr hyfforddiant neu Goleg Addysg Bellach. Dylai ysgolion ystyried a oes angen cynnal asesiad risg cyn i berson ifanc gael ei addysgu oddi ar y safle neu fynd ar brofiad gwaith ac a oes angen darparu gwybodaeth i alluogi partion sy'n derbyn i gynnal asesiad risg eu hunain.

2.56 Mae gan ysgolion ddyletswydd sylfaenol i ofalu am blant a phobl ifanc a chyfrifoldeb i asesu addasrwydd cyffredinol yr holl ddarpariaeth oddi ar y safle, gan gynnwys coleg a lleoliadau gwaith. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am gynnal asesiad risg cyffredinol o'r gweithgarwch, gan gynnwys materion fel teithio i ac o'r lleoliad a goruchwyliaeth yn ystod cyfnodau pan nad oes dysgu, egwyl ac amser cinio. Nid yw hyn yn gwrthdaro â chyfrifoldeb y coleg neu'r cyflogwyr i gynnal asesiad risg i nodi risgiau sylweddol a mesurau rheoli angenrheidiol pan fo plant a phobl ifanc iau na'r oedran ysgol gorfodol ar y safle.

2.57 Yn gyffredinol dylai ysgolion gynnal asesiad risg cyffredinol o'r gweithgarwch cyfan a dylai trefnwyr lleoliadau ysgol neu awdurdod lleol ymweld â'r gweithle i asesu ei addasrwydd cyffredinol. Cyfrifoldeb y cyflogwr neu'r coleg yw cynnal asesiadau risg. Os oes gan fyfyrwyr anghenion meddygol arbennig, bydd angen i'r ysgol sicrhau bod asesiadau risg o'r fath yn ystyried yr anghenion hynny. Mae'n rhaid i rieni a phlant a phobl ifanc roi caniatâd cyn i wybodaeth feddygol berthnasol gael ei rhannu'n gyfrinachol gyda chyflogwyr.

Gweithdrefnau Brys

2.58 Fel rhan o'r broses rheoli risg gyffredinol, dylai pob ysgol a lleoliadau addysg eraill gael trefniadau ar waith ar gyfer delio ag achosion brys. Gallai hyn fod yn rhan o bolisi a darpariaeth cymorth cyntaf yr ysgol. Dylai plant a phobl ifanc eraill wybod beth i'w wneud mewn argyfwng, fel rhoi gwybod i aelod o staff. Dylai'r holl staff wybod sut i gysylltu â'r gwasanaethau brys. Darperir cyfarwyddyd ar alw ambiwlans ar Ffurflen 1.

2.59 Dylai'r holl staff hefyd wybod pwy sy'n gyfrifol am gyflawni gweithgareddau brys pe bai angen. Dylai aelod o staff fynd gyda disgybl i'r ysbyty mewn ambiwlans bob tro, ac aros hyd nes bydd rhiant yn cyrraedd. Gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am unrhyw benderfyniadau a wneir am driniaeth feddygol pan nad yw'r rhieni ar gael.

2.60 Ni ddylai staff fynd â phlant a phobl ifanc i'r ysbyty yn eu ceir eu hunain ar unrhyw gyfrif; mae'n fwy diogel galw ambiwlans. Mewn ardaloedd anghysbell gall ysgolion wneud trefniadau gyda gweithiwr iechyd proffesiynol ar gyfer cymorth mewn achosion brys.

2.61 Dylai cynlluniau gofal iechyd unigol gynnwys cyfarwyddiadau ar sut i ymdrin â phlentyn mewn argyfwng, a nodi pwy sy'n gyfrifol mewn achos brys. Er enghraifft, os oes damwain ar y cae chwarae byddai angen i oruchwyliwr amser cinio wybod yn iawn beth yw ei swyddogaeth.

Pennod 3: Mynediad i Feddyginiaeth

Crynodeb o'r Bennod

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol wrth reoli meddyginiaethau mewn ysgolion. Mae'n crynhoi'r prif ddarpariaethau cyfreithiol sy'n effeithio ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol ac ysgolion wrth reoli anghenion meddygol plentyn neu berson ifanc.

Dylid nodi nad dehongliad cyfreithiol awdurdodol o ddarpariaethau unrhyw ddeddfiad, rheoliad neu gyfraith gwlad mo hyn - mater i'r llysoedd yn unig yw hynny. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol ac ysgolion yw datblygu eu polisiau yn unol â'u cyfrifoldebau statudol a'u prosesau eu hunain wrth asesu anghenion ac adnoddau lleol.

Yn ail mae'r bennod hon hefyd yn ceisio helpu ysgolion i lunio polisiau ar reoli meddyginiaeth mewn ysgolion, ac i roi systemau rheoli effeithiol ar waith i gefnogi plant a phobl ifanc unigol ag anghenion meddygol.

Mae'n bwysig bod cyfrifoldeb am ddiogelwch plant a phobl ifanc yn cael ei ddiffinio'n glir a bod pawb sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ag anghenion meddygol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Bydd cydweithredu agos rhwng ysgolion, rhieni, gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau eraill yn helpu i ddarparu amgylchedd cefnogol ar eu cyfer.

3.1 Bydd gofyn i lawer o blant a phobl ifanc gymryd meddyginiaeth yn yr ysgol (neu ei derbyn gan eraill) rywbyrd yn ystod eu bywyd ysgol. Gan amlaf, bydd hyn yn digwydd tros gyfnod byr yn unig; er enghraifft, er mwyn gorffen cwrs gwrthfotig neu ddefnyddio eli. Bydd caniatáu iddynt wneud hyn yn lleihau cyfnod eu habsenoldeb o'r ysgol. Ni ddylid mynd â meddyginiaeth i'r ysgol oni bai bod hynny'n hanfodol.

**Safon NSF Ansawdd Gwasanaethau:
Gweithredu Allweddol 2.30**

Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod plant mewn lleoliadau addysg yn cael meddyginiaethau mewn modd diogel ac effeithiol trwy ddilyn y canllawiau a gaiff eu hargymell yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru 34/9719. Cyhoeddir canllawiau newydd i ymgynghori arnynt yn 2006.

3.2 Mae awdurdodau lleol, ysgolion a chyrff llywodraethu yn gyfrifol am iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc o dan eu gofal. Mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch pob plentyn a pherson ifanc mewn ysgolion yn seiliedig ar ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch. Mae'r gyfraith yn gosod dyletswyddau ar gyflogwyr. Mae BILLau yn gyfrifol am iechyd a lles pobl sy'n preswyl fel rheol yn eu hardal.

3.3 Nid oes dyletswydd ar staff o dan y gyfraith na contract i roi meddyginiaeth i blentyn na'i oruchwyllo wrth ei chymryd. Hwyrach y bydd dyletswyddau penodol ar staff cymorth i ddarparu cymorth meddygol fel rhan o'u contract. Wrth reswm, bydd angen i unrhyw aelod o staff weithredu ar fyrder er mwyn cynorthwyo unrhyw blentyn mewn argyfwng. Dylai cyflogwyr sicrhau bod eu polisiau yswiriant yn rhoi sicrwydd priodol.

3.4 Yn naturiol, bydd rhai aelodau o staff mewn ysgolion yn bryderus ynghylch eu gallu i gynorthwyo unigolyn â chyflwr meddygol, yn enwedig os yw'r cyflwr â'r potensial i roi bywyd plentyn yn y fantol. Dylai athrawon sydd â phlant a phobl ifanc ag anghenion meddygol yn eu dosbarth ddeall natur y cyflwr a deall pryd a ble y gall fod yn ofynnol i'r plentyn gael sylw ychwanegol.

3.5 Dylai staff fod yn ymwybodol o debygolrwydd unrhyw argyfwng ac o'r camau y dylid eu cymryd os yw argyfwng yn codi. Dylid trefnu bod cymorth wrth gefn ar gael yn ystod cyfnodau pan fydd yr aelod o staff sy'n gyfrifol yn absennol neu heb fod ar gael. Hwyrach y bydd aelodau eraill o staff yn gyfrifol am blant a phobl ifanc yn ystod cyfnodau gwahanol o'r diwrnod ysgol (e.e. goruchwylwyr buarth chwarae), ac mae'n bwysig eu bod nhw'n derbyn hyfforddiant a chynghor hefyd. Mae ffurflen 8 yn enghraifft o gadarnhad bod unrhyw hyfforddiant gofynnol wedi'i gwblhau.

3.6 Rhaid i unrhyw un sy'n gofalu am blant a phobl ifanc, gan gynnwys athrawon, aelodau eraill o staff ysgol a staff gofal dydd sy'n gofalu am blant, ufuddhau i ddyletswydd gofal cyfraith gwlad i weithredu fel unrhyw riant synhwyrol wrth sicrhau bod plant yn iach a diogel. O dan amgylchiadau eithriadol, gallai'r ddyletswydd gofal gynnwys rhoi meddyginiaeth a/neu weithredu mewn argyfwng. Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn berthnasol i staff sy'n arwain gweithgareddau oddi ar y safle, fel ymweliadau, gwibdeithiau neu deithiau maes.

3.7 Mae gan blant a phobl ifanc ag anghenion meddygol yr un hawliau i gael eu derbyn gan ysgolion ag eraill, ac ni allant gael eu gwahardd o'r ysgol am resymau meddygol fel arfer. O dan rai amgylchiadau, e.e. os oes risg i iechyd a diogelwch staff neu blant a phobl ifanc eraill oherwydd heintiau hysbysadwy, gellir eu tynnu o'r ysgol am resymau meddygol (gweler paragraff 3.23).

3.8 Mae deddfwriaeth hefyd yn berthnasol i ysgolion a lleoliadau wrth ymdrin ag anghenion meddygol â phlant a phobl ifanc ag yn enwedig felly'r canlynol: Deddf Addysg 1996, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1972 a Deddf Meddyginiaethau 1968.

Y Cyflogwr

3.9 O dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, rhaid i gyflogwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion, sicrhau bod ganddynt bolisi iechyd a diogelwch. Dylai'r polisi hwn gynnwys rheoli'r gwaith o ymdrin â meddyginiaethau, gan gynnwys staff yn rhoi meddyginiaeth, storio meddyginiaeth, a phlant a phobl ifanc yn cymryd meddyginiaeth, a chario meddyginiaeth.

3.10 Ac eithrio awdurdodau lleol, rhaid i gyflogwyr sicrhau bod ganddynt Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr sy'n gymwys ar gyfer niwed i staff wrth gyflawni eu gwaith.

3.11 Hwyrach y bydd awdurdodau lleol yn dewis yswirio eu hunain, ond yn ymarferol mae'r rhan fwyaf yn trefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr. Dylai cyflogwyr sicrhau bod eu trefniadau yswiriant yn darparu'n llawn ar gyfer yr hyn y gallai'r staff ei wneud yn rhinwedd

eu swyddi. Cyfrifoldeb y cyflogwr yw sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith a bod staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ac wedi'u hyfforddi'n llawn. Mae cadw cofnodion cywir yn ddefnyddiol mewn achosion o'r fath. Dylai cyflogwyr gynorthwyo staff i wneud eu gorau bob amser, yn enwedig mewn argyfwng. Yn gyffredinol, mae canlyniadau peidio â gweithredu o gwbl yn debygol o fod yn fwy difrifol na chanlyniadau ceisio helpu mewn argyfwng.

3.12 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr awdurdod lleol, yr ysgol neu leoliad blynyddoedd cynnar yn cyflogi staff yn uniongyrchol. Fodd bynnag, hwyrach y cyflogir rhai aelodau o staff gofal neu iechyd gan BILL neu adran o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, neu drwy'r sector gwirfoddol. O dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r asiantaethau perthnasol gytuno ar drefniadau llywodraethu perthnasol ar y cyd.

3.13 Mae'r cyflogwr yn gyfrifol am sicrhau bod staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol i gynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol. Dylai cyflogwyr hefyd sicrhau bod yna systemau addas ar waith i rannu gwybodaeth am anghenion meddygol plentyn neu berson ifanc ym mhob ysgol neu leoliad y maent yn gyfrifol amdanynt. Dylai cyflogwyr fodloni eu hunain bod staff wedi meithrin digon o ddealltwriaeth, hyder ac arbenigedd o ganlyniad i'w hyfforddiant a bod trefniadau ar waith i ddiweddarau hyfforddiant yn rheolaidd. Dylai gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gadarnhau ar bapur bod aelod o staff yn hyddysg mewn gweithdrefn feddygol benodol.

3.14 Os yw staff yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn nogfennau'r ysgol, gan amlaf bydd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus eu cyflogwr yn eu diogelu rhag cwynion gan rieni. Dylai'r Pennaeth ofyn i'r cyflogwr roi cadarnhad ysgrifenedig o fanylion yr yswiriant i staff sy'n rhoi cymorth meddygol penodol.

3.15 Mae gan BILLau yr hawl i sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer unrhyw hyfforddiant gofynnol. Dylai cyflogwyr hefyd ystyried trefnu hyfforddiant i staff ym meysydd rheoli meddyginiaethau a llunio polisiau i weinyddu meddyginiaethau. Dylai'r hyfforddiant hwn gael ei drefnu ar y cyd â gwasanaethau iechyd lleol neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill. Gallai hyfforddiant i reoli meddyginiaethau gael ei ddarparu gan Awdurdodau Lleol, fferyllwyr a darparwyr hyfforddiant eraill.

Yr Awdurdod Lleol

3.16 Mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod lleol yw'r cyflogwr, ac ef sy'n gyfrifol am holl faterion iechyd a diogelwch.

3.17 Gall yr awdurdod lleol ddarparu fframwaith polisi cyffredinol o arferion gorau fel canllaw ar gyfer ysgolion y sir ac ysgolion a gynhelir wrth lunio eu polisiâu eu hunain ar gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol. Mae llawer o awdurdodau lleol yn ei chael hi'n ddefnyddiol gweithio'n agos â'u BILL wrth lunio polisiâu. Gall yr awdurdod lleol hefyd drefnu hyfforddiant i staff ar y cyd â gweithwyr iechyd proffesiynol.

3.18 Mae pob BILL yn gyfrifol am iechyd a lles pobl sy'n byw fel rheol yn ei ardal. Dylai BILLau, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gydweithio â'r timau amlddisgyblaethol er mwyn nodi anghenion a chynllunio a chydgyssylltu darpariaeth leol effeithiol ar sail yr adnoddau sydd ar gael.

3.19 Fel arfer mae BILLau yn enwi pediatregydd â chyfrifoldeb penodol am blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Dylai nyrs ysgol a gyflogir gan y GIG fod ar gael i blant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd cymhleth sy'n mynychu ysgolion arbennig.

Ysgolion a Chyrff Llywodraethu

3.20 Mae ysgolion unigol yn datblygu eu polisiâu eu hunain ar gyfer eu hanghenion eu hunain. Mae gan y corff llywodraethu gyfrifoldeb cyffredinol am holl bolisiâu'r ysgol, hyd yn oed os nad y corff yw'r cyflogwr. Yn gyffredinol, bydd y corff llywodraethu yn awyddus i ystyried barn y Pennaeth, staff a rhieni wrth ddatblygu polisi ar gynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol. Mewn ysgolion awdurdodau lleol, yr awdurdod lleol yw'r cyflogwr felly dylai'r corff llywodraethu ddilyn y polisiâu a'r gweithdrefnau a gynhyrchwyd gan yr AALI.

3.21 Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am weithredu polisi'r corff llywodraethu ac am ddatblygu gweithdrefnau manwl. Mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, mae'r Pennaeth yn atebol i'r awdurdod lleol yn nhermau rheoli llinell. Pan fydd

athrawon yn gwirfoddoli i helpu plant a phobl ifanc gyda'u hanghenion meddygol, dylai'r Pennaeth gytuno iddynt wneud hynny, gan sicrhau bod athrawon yn cael y cymorth a'r hyfforddiant priodol lle bo angen. Gan amlaf, y Pennaeth fydd yn gyfrifol am benderfyniadau o ddydd i ddydd ynghylch rhoi meddyginiaeth.

3.22 Dylai'r Pennaeth sicrhau bod pob rhiant yn ymwybodol o bolisi a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer ymdrin ag anghenion meddygol. Dylai polisi'r ysgol nodi'n glir bod angen i rieni gadw plant a phobl ifanc gartref os ydynt yn sâl iawn. Dylai'r polisi hefyd ymwneud â threfn yr ysgol o ran cymryd meddyginiaeth yn yr ysgol.

3.23 Gall Ymgynghorydd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Lleol ar Reoli Clefydau Trosglwyddadwy gynghori ar yr amgylchiadau lle na ddylai plant a phobl ifanc â chlefydau heintus fod yn yr ysgol, ac ar y camau i'w cymryd yn dilyn achosion o glefyd heintus.

3.24 Ar gyfer plentyn ag anghenion meddygol arbennig, bydd angen i'r Pennaeth gytuno â'r rhieni ar yr union gymorth y gall yr ysgol ei ddarparu. Lle bo pryderon ynglŷn â gallu ysgol i ddiwallu anghenion plentyn neu berson ifanc, neu lle bo disgwyliadau'r rhieni yn ymddangos yn afresymol, gall y Pennaeth ofyn am gyngor nyrs yr ysgol, meddyg teulu'r plentyn neu'r person ifanc neu bediatregydd ac, os oes angen, yr awdurdod lleol. Os oes angen darparu cymorth meddygol cymhleth, mae'n debygol y bydd angen rhoi hyfforddiant arbennig i'r staff sy'n gwirfoddoli.

3.25 Mae llawer o sefydliadau gwirfoddol sy'n arbenigo mewn cyflyrau meddygol penodol yn cynhyrchu pecynnau ysgol sy'n cynghori athrawon ar sut i gefnogi plant a phobl ifanc. Mae Atodiad 4 yn rhestru enwau a chyfeiriadau cyswllt.

3.26 Nid yw amodau cyflogaeth athrawon yn cynnwys rhoi meddyginiaethau i ddisgyblion neu eu goruchwyllo wrth eu cymryd. Dylai ysgolion sicrhau fod ganddynt ddigon o staff cymorth sy'n cael eu cyflogi a'u hyfforddi'n briodol i reoli meddyginiaethau fel rhan o'u dyletswyddau.

3.27 Dylai unrhyw aelod o staff sy'n cytuno i dderbyn cyfrifoldeb am weinyddu meddyginiaethau presgripsiwn i blentyn gael hyfforddiant ac arweiniad priodol. Dylent hefyd fod yn ymwybodol o sgil effeithiau posibl y meddyginiaethau a'r hyn y dylent ei wneud

os ydynt yn digwydd. Bydd y math o hyfforddiant sydd ei angen yn dibynnu ar yr achos unigol.

3.28 Hwyrach y bydd y nyrs neu'r pediatregydd cymunedol yn gallu rhoi cyngor ar hyfforddiant i staff ysgol sy'n barod i weinyddu meddyginiaeth neu dderbyn cyfrifoldeb am agweddau eraill ar gynorthwyo. Yn ogystal, gall nyrs yr ysgol neu'r pediatregydd cymunedol fynychu diwrnod agored neu noson rieni yn yr ysgol i gynghori rhieni a staff.

**Safon NSF Ansawdd Gwasanaethau:
Gweithredu Allweddol 2.29**

*Mae'r holl leoliadau gan gynnwys **cartrefi plant, cartrefi gofal preswyl, ysgolion preswyl, gofal maeth, hosbisau ac unedau diogel** yn gweithredu'r canllawiau ar ddefnyddio meddyginiaethau yn ddiogel sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Safonau Gofynnol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y gwasanaeth perthnasol, ac mae ganddynt ddolen gyswllt i droi ati am gyngor fferyllol.*

Arolygu

3.29 Mae gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) bwerau statudol i arolygu unrhyw safle sy'n darparu gofal dydd ar unrhyw adeg ac ysgolion sy'n darparu llety i ddisgyblion am gyfnodau penodedig. Mae'r bwerau arolygu'n cynnwys yr hawl i archwilio cofnodion a dogfennau eraill. Byddai'r rhain yn cynnwys cael polisiau a gweithdrefnau boddhaol ar gyfer rhoi a storio meddyginiaethau yn ddiogel.

3.30 Mae'r ASGC eisoes yn mynd ati'n rheolaidd i arolygu cartrefi gofal a mathau eraill o sefydliadau preswyl fel ysgolion preswyl arbennig ac ysgolion preswyl. Mae arolygwyr fferyllfeydd arbenigol yn cynorthwyo lle bo angen.

3.31 O ran arolygu ysgolion a gynhelir yn unol â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin, mae arolygwyr Estyn yn gwerthuso ac yn adrodd ar safonau arwain, cynorthwyo a gofalu am ddysgwyr.

3.32 Wrth arolygu gwaith awdurdodau lleol ym maes anghenion dysgu ychwanegol (ALN), mae arolygwyr Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn gwerthuso ac yn adrodd ar effeithiolrwydd gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anawsterau corfforol, meddygol a/neu iechyd meddwl. Mae'r gwaith gwerthuso hwn yn cynnwys ystyried:

- a oes hyfforddiant effeithiol ar gyfer staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion i'w galluogi i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ALN; ac
- a yw plant a phobl ifanc ag anawsterau corfforol neu iechyd meddwl sy'n methu â mynychu'r ysgol yn derbyn cymaint o addysg â phosibl ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'u hysgolion.

Meddyginiaethau Presgripsiwn

3.33 O dan y rheoliadau, mae'n ofynnol i rieni roi caniatâd cyn y gall meddyginiaeth gael ei rhoi i'w plentyn, ac i'r darparwr gadw cofnod ysgrifenedig.

3.34 Ni ddylid mynd â meddyginiaethau i'r ysgol neu i leoliad os nad yw'n hanfodol, hynny yw, byddai iechyd y plentyn yn dioddef pe na bai'r feddyginiaeth yn cael ei rhoi tra bo'r plentyn yn yr ysgol neu'r lleoliad. Dim ond meddyginiaethau presgripsiwn sydd wedi'u rhoi gan feddyg, deintydd a nyrs neu fferylllydd â'r hawl i roi presgripsiwn y dylai ysgolion a lleoliadau eu derbyn. Dylid rhoi'r feddyginiaeth yn y cynhwysydd gwreiddiol a ddefnyddiwyd gan fferylllydd neu feddyg fferyllol a chynnwys cyfarwyddiadau gweinyddu'r sawl sy'n rhagnodi'r feddyginiaeth.

3.35 Ni ddylai ysgolion a lleoliadau dderbyn meddyginiaethau sydd wedi'u tynnu o'r cynhwysydd gwreiddiol a ddefnyddiwyd i'w gweinyddu na newid y dos ar sail cyfarwyddiadau rhieni, oni bai eu bod wedi cytuno i wneud hyn yn flaenorol gyda'r rhieni a'i fod wedi'i nodi yng nghynllun gofal iechyd unigol y plentyn neu'r person ifanc.

3.36 Os yw'n briodol yn glinigol, gorau oll os caiff meddyginiaethau eu rhagnodi er mwyn galluogi disgyblion i'w cymryd y tu allan i oriau ysgol. Gellid annog rhieni i holi'r sawl sy'n rhagnodi'r feddyginiaeth a yw hyn yn bosibl. Hwyrach y gellid trefnu bod meddyginiaeth sydd angen ei chymryd dair gwaith y dydd yn cael ei chymryd yn y bore, ar ôl yr ysgol a chyn mynd i'r gwely, er na fydd hyn bob amser yn briodol, e.e. i rai plant a phobl ifanc sydd â diabetes.

Cyffuriau a Reolir

3.37 Mae cyflenwi, gweinyddu a meddu ar rai meddyginiaethau yn cael eu rheoli gan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1972 a'i rheoliadau cysylltiedig. Hwyrach y caiff rhai meddyginiaethau eu pennu fel meddyginiaethau ar gyfer plant, e.e. methylphenidate.

3.38 Gall unrhyw aelod o staff roi cyffur a reolir i'r plentyn y mae'r cyffur wedi'i ragnodi ar ei gyfer. Dylai staff sy'n rhoi meddyginiaeth ufuddhau i gyfarwyddiadau'r sawl sy'n ei rhagnodi.

3.39 Mae gan blentyn hawl gyfreithlon i gario cyffur a reolir os yw wedi'i ragnodi ar ei gyfer. Gall ysgolion a lleoliadau gadw cyffur a reolir os ydynt wedi cytuno i'w roi i'r plentyn y mae'r cyffur wedi'i ragnodi ar ei gyfer.

3.40 Dylai ysgolion a lleoliadau gadw cyffuriau a reolir dan glo mewn cynhwysydd na ellir ei symud a sicrhau mai staff penodol yn unig sy'n cael ei ddatgloi. Dylid cadw cofnod at ddibenion archwilio a diogelwch.

3.41 Fel sy'n wir am bob meddyginiaeth, dylid dychwelyd cyffur a reolir i'r rhiant pan nad oes ei angen bellach er mwyn trefnu ei fod yn cael ei waredu'n ddiogel (trwy ddychwelyd y cyflenwad dros ben i'r fferyllfa leol). Os nad yw hyn yn bosibl, dylid ei ddychwelyd i'r fferyllfa/meddyg a oedd yn gyfrifol am ei weinyddu (dylai'r manylion fod ar y label).

3.42 Mae camddefnyddio cyffur a reolir, er enghraifft trwy ei roi i blentyn arall i'w gymryd, yn drosedd. Dylai ysgolion sicrhau bod ganddynt bolisi ar gyfer ymdrin ag achosion o gamddefnyddio cyffuriau.

Meddyginiaeth Ddi-Bresgripsiwn

3.43 Ni ddylai staff **byth** roi meddyginiaeth ddi-bresgripsiwn i blentyn oni bai eu bod yn cael caniatâd ysgrifenedig penodol ymlaen llaw gan y rhieni. Os yw'r Pennaeth yn cytuno i weinyddu meddyginiaeth ddi-bresgripsiwn, **rhaid** gwneud hynny yn unol â pholisi'r cyflogwr. Dylai polisi'r cyflogwr nodi o dan ba amgylchiadau y gall staff weinyddu meddyginiaethau di-bresgripsiwn. Os caiff meddyginiaeth ddi-bresgripsiwn ei rhoi i blentyn, dylid ei chofnodi ar ffurflen fel Ffurflen 5 neu 6 (gweler Atodiad 3) a hysbysu'r rhieni. Os yw plentyn yn dioddef poen difrifol neu gyson yn rheolaidd, dylid annog y rhieni i gysylltu â meddyg teulu'r plentyn.

Ni ddylid byth rhoi asbirin i blentyn o dan 16 oed oni bai ei fod yn cael ei ragnodi ar ei gyfer.

Plant a phobl ifanc yn rheoli eu meddyginiaeth

3.44 Mae'n arfer da i ysgolion gynorthwyo ac annog plant a phobl ifanc i fod yn gyfrifol am reoli eu meddyginiaethau eu hunain o oedran cymharol ifanc, cyn belled â'u bod yn ddigon atebol i wneud hynny. Mae'r oedran lle bydd plant a phobl ifanc yn barod i gadw a bod yn gyfrifol am eu meddyginiaethau eu hunain yn amrywio. Wrth i blant a phobl ifanc dyfu a datblygu, dylid eu hannog i gyfrannu at benderfyniadau am eu meddyginiaethau ac i gymryd cyfrifoldeb.

3.45 Os oes modd, dylai plant hŷn â salwch hirdymor gymryd cyfrifoldeb llawn o dan oruchwyliaeth eu rhiant. Mae datblygiad pob plentyn yn amrywio, felly hefyd ei allu i gymryd cyfrifoldeb am ei feddyginiaeth ei hun. Dylid cofio hyn wrth ddod i benderfyniad ynghylch trosglwyddo cyfrifoldeb i blentyn neu berson ifanc. Nid oes oedran penodedig ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn. O dan rai amgylchiadau, hwyrach na fydd yn briodol i blentyn o unrhyw oedran reoli ei feddyginiaeth ei hun. Ar ôl trafod gyda rhieni a phlant, mae angen i weithwyr iechyd proffesiynol asesu pryd y bydd yn briodol trosglwyddo'r cyfrifoldeb.

3.46 Os yw plant a phobl ifanc yn gallu cymryd eu meddyginiaeth yn annibynnol, hwyrach mai goruchwylio yn unig y bydd angen i staff ei wneud. Dylai'r polisi nodi a gaiff plant a phobl ifanc gario a gweinyddu (lle bo'n briodol) eu meddyginiaethau eu hunain, gan ystyried diogelwch plant a phobl ifanc eraill a chyingor meddygol y sawl sy'n rhagnodi'r feddyginiaeth i'r plentyn unigol. Mae Ffurflen 7 yn enghraifft o ffurflen ganiatâd rhieni.

3.47 Lle bo cyffuriau a reolir wedi'u rhagnodi ar gyfer plant a phobl ifanc, rhaid i staff fod yn ymwybodol y dylid eu cadw mewn lle diogel. Fodd bynnag, gall plant a phobl ifanc sy'n rheoli eu meddyginiaeth eu hunain gael gafael arnynt os cytunir bod hynny'n briodol.

Rhoi Meddyginiaethau

3.48 Dylai unrhyw aelod o staff sy'n rhoi meddyginiaethau i blentyn neu berson ifanc ei gadarnhau:

- ei enw a'i ddyddiad geni.
- cyfarwyddiadau ysgrifenedig y rhieni neu'r sawl sy'n rhagnodi'r feddyginiaeth.
- y dos a ragnodir; ac
- y dyddiad terfyn os yw'n cael ei nodi.

3.49 Os yw'r aelod o staff yn ansicr ynglŷn ag unrhyw un o'r gweithdrefnau, dylai gysylltu â'r rhieni neu weithiwr iechyd proffesiynol cyn gweithredu ymhellach.

3.50 Mae'n arfer da i staff lenwi a llofnodi cardiau cofnodi bob tro maent yn rhoi meddyginiaeth i blentyn neu berson ifanc. O dan rai amgylchiadau, mae'n arfer da sicrhau bod oedolyn arall yn dyst i'r dos sy'n cael ei roi a'r broses o'i roi. Gellir defnyddio Ffurflen 5 at y diben hwn.

3.51 Dylai staff ddarparu ardal dawel, breifat i blant a phobl ifanc dderbyn neu gymryd meddyginiaethau.

Safon NSF Ansawdd Gwasanaethu: Gweithredu Allweddol 2.31

Mae'r darparwyr gwasanaeth yn sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi'n briodol i ddatblygu cymwysterau perthnasol o ran cyfrifo dognau a rhoi meddyginiaethau i blant.

Gwrthod Meddyginiaeth

3.52 Os yw plentyn neu berson ifanc yn gwrthod cymryd meddyginiaeth, ni ddylai staff ei orfodi i'w chymryd, ond dylent gofnodi'r ffaith a dilyn y gweithdrefnau a gytunir. Bydd y gweithdrefnau wedi'u nodi yn y polisi neu yng nghynllun gofal iechyd y plentyn unigol. Dylid hysbysu rhieni bod eu plentyn wedi gwrthod y feddyginiaeth ar yr un diwrnod. Os yw'r ffaith fod y plentyn yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth yn arwain at argyfwng, dylid dilyn gweithdrefnau argyfwng yr ysgol neu'r lleoliad.

Cadw Cofnodion

3.53 Dylai rhieni hysbysu'r ysgol neu'r lleoliad am y meddyginiaethau y mae eu plentyn angen eu cymryd, ac am unrhyw newidiadau i'r presgripsiwn neu'r cymorth gofynnol. Fodd bynnag, dylai staff sicrhau bod y wybodaeth hon yn cyfateb i'r wybodaeth a ddarperir gan y sawl sy'n rhagnodi'r feddyginiaeth.

3.54 Dylid rhoi pob meddyginiaeth yn y cynhwysydd gwreiddiol a ddefnyddiwyd gan fferylllydd neu feddyg fferyllol a chynnwys cyfarwyddiadau gweinyddu'r sawl sy'n rhagnodi'r feddyginiaeth. Ym mhob achos dylid cadarnhau bod y manylion ysgrifenedig yn cynnwys:

- enw'r plentyn;
- enw'r feddyginiaeth;
- dos;
- sut i roi'r feddyginiaeth;
- amser/amlder rhoi'r feddyginiaeth;
- unrhyw sgil effeithiau; ac
- y dyddiad terfyn os yw'n cael ei nodi.

3.55 Hwyrach y bydd yn ddefnyddiol rhoi ffurflen sy'n debyg i Ffurflen 3A neu 3B i rieni i gofnodi manylion meddyginiaethau mewn fformat safonol. Dylai staff gadarnhau bod unrhyw fanylion a ddarparwyd gan rieni, neu, mewn achosion penodol, gan bediatregydd neu nyrs arbenigol, yn cyfateb i'r cyfarwyddiadau ar y cynhwysydd.

3.56 Gellid defnyddio Ffurflen 4 i gadarnhau gyda'r rhieni y bydd aelod o staff yn rhoi meddyginiaeth i'w plentyn.

3.57 Er nad oes gofynion cyfreithiol i ysgolion gofnodi manylion y meddyginiaethau a roddwyd i blant a phobl ifanc na'r staff sydd wedi'u rhoi, mae'n arfer da gwneud hynny. Mae cadw cofnodion yn diogelu staff ac yn profi eu bod wedi dilyn y gweithdrefnau a gytunwyd. Mae rhai ysgolion yn cadw llyfr log at y diben hwn. Mae Ffurflen 5 a 6 yn enghreifftiau o daflenni cofnodi.

Caniatâd i driniaeth

3.58 Mewn nifer o achosion, bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn bresennol yn ystod triniaeth a byddant yn gyfarwydd â'r gofynion. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod staff sy'n gysylltiedig â gweinyddu triniaeth yn gyfarwydd â'r mater o gael caniatâd.

3.59 Mae cael caniatâd dilys cyn dechrau rhoi triniaeth neu wneud archwiliad corfforol, neu ddarparu gofal personol i glaf yn egwyddor gyfreithiol a moesegol. Bydd gan blentyn sydd â dealltwriaeth a gwybodaeth ddigonol i ddeall yn iawn beth mae ymyriad neu driniaeth arfaethedig yn ei olygu, yn gallu rhoi caniatâd.

3.60 Dylid ystyried y broses o roi caniatâd yn ofalus wrth ddatblygu polisi ar weinyddu triniaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi Canllaw Cyfeirio ar gael Caniatâd i gynnal Archwiliad neu Ddarparu Triniaeth. Mae Pennod 5 yn nodi'r gofynion cyfreithiol wrth drin plentyn ac fe'ch cyfeirir ati. (www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=465&pid=11930).

Cyfrinachedd

3.61 Mae angen i ysgolion feddu ar bolisi cyfrinachedd clir y mae pawb (gan gynnwys plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr) yn ei wybod, ei ddeall ac yn ei ddilyn. Mae hyn yn rhan allweddol o'r broses o ddiwallu anghenion lles plant a phobl ifanc, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Addysg 2002.

3.62 Dylid hysbysu'r staff o'r angen i barchu hawl y plentyn i gyfrinachedd bob amser a dylent ddeall yr amgylchiadau a fyddai'n caniatáu rhannu gwybodaeth feddygol. Dylid gofyn a chael caniatâd y plentyn cyn datgelu gwybodaeth feddygol oni bai fod yna amgylchiadau eithriadol ac y byddai datgelu'r wybodaeth er budd pennaf y plentyn.

Ymdrin â meddyginiaethau yn ddiogel

Rheoli Diogelwch

3.63 Gall pob meddyginiaeth beri niwed i unigolyn os nad yw wedi'i rhagnodi ar ei gyfer. Os yw ysgol neu leoliad yn cytuno i weinyddu unrhyw feddyginiaeth, rhaid i'r cyflogwr sicrhau fod y risgiau i iechyd pobl eraill yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r ddyletswydd hon yn deillio o Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (COSHH).

Storio Meddyginiaeth

3.64 Ni ddylid storio cyflenwadau mawr o feddyginiaethau. Dylai staff storio, goruchwyllo a rhoi meddyginiaeth sydd wedi'i rhagnodi ar gyfer plentyn unigol yn unig. Dylid storio meddyginiaethau yn unol â'r cyfarwyddiadau (gan ganolbwyntio ar dymheredd yn benodol) ac yn y cynhwysydd gwreiddiol. Dylai staff sicrhau fod yna label glir ar y cynhwysydd a ddarparwyd yn nodi enw'r plentyn, enw a dos y feddyginiaeth a pha mor aml y dylid ei chymryd. Dylai hyn fod yn hawdd os yw'r ysgol yn sicrhau mai dim ond yn y cynhwysydd gwreiddiol y maent yn derbyn meddyginiaethau, fel y'u gweinyddwyd gan fferyllwyd yn unol â chyfarwyddiadau'r sawl sy'n eu rhagnodi. Os yw plentyn angen dwy feddyginiaeth bresgripsiwn neu fwy, dylid eu cadw mewn cynhwysyddion ar wahân. Ni ddylai staff nad ydynt yn ymwneud â'r

maes gofal iechyd fyth symud meddyginiaethau o'u cynhwysyddion gwreiddiol.

3.65 Dylai plant a phobl ifanc wybod ble mae eu meddyginiaethau eu hunain wedi'u storio a phwy sy'n cadw'r agoriad. Y Pennaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio yn ddiogel. Dylai pob meddyginiaeth frys, fel anadlwyr asthma, pennau adrenalin a glucogel, fod ar gael i blant a phobl ifanc yn hwylus yn hytrach na'u cadw dan glo. Mae llawer o ysgolion a lleoliadau'n caniatáu i blant a phobl ifanc gario eu hanadlwyr eu hunain. Yn gyffredinol, dylid cadw meddyginiaethau nad ydynt ar gyfer achosion brys ac inswlin mewn lle diogel nad yw'n agored i blant a phobl ifanc. Mae meini prawf o dan y safonau cenedlaethol ar gyfer gofal dydd i blant o dan 8 oed ac ysgolion sy'n darparu llety yn nodi bod angen storio meddyginiaethau yn eu cynhwysyddion gwreiddiol, wedi'u labelu'n glir ac allan o gyrraedd plant a phobl ifanc.

3.66 Mae angen cadw rhai meddyginiaethau yn yr oergell. Gellir eu cadw mewn oergell sy'n cadw bwyd, ond dylid sicrhau eu bod mewn cynhwysydd aerglos a'u bod wedi'u labelu'n glir. Dylid cyfyngu ar y mynediad i oergell sy'n cadw meddyginiaethau.

3.67 Gall fferyllwyr lleol roi cyngor ar storio meddyginiaethau.

Mynediad i Feddyginiaeth

3.68 Rhaid sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad i'w meddyginiaeth yn ôl yr angen. Hwyrach y bydd angen i'r ysgol neu'r lleoliad wneud trefniadau mynediad arbennig pan fydd yn storio meddyginiaeth frys. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig mai dim ond y sawl a ragnodir sy'n gallu cael mynediad i'r feddyginiaeth. Dylid ystyried hyn fel rhan o bolisi'r ysgol ar blant a phobl ifanc yn cario eu meddyginiaeth eu hunain.

3.69 Rhaid i'r ysgol sicrhau bod athrawon a staff yn adnabod y plentyn neu'r person ifanc, neu'n cadarnhau enw a dyddiad geni cyn trosglwyddo meddyginiaethau.

Cael Gwared ar Feddyginiaethau

3.70 Ni ddylai staff gael gwared ar feddyginiaethau. Rhieni sy'n gyfrifol am sicrhau bod meddyginiaethau sydd wedi pasio eu dyddiad terfyn yn cael eu dychwelyd i fferyllfa i gael eu gwaredu'n

ddiogel. Dylent hefyd gasglu meddyginiaethau sy'n cael eu cadw gan yr ysgol ar ddiwedd bob tymor. Os nad yw rhieni yn casglu pob meddyginiaeth, dylid mynd â hwy i fferyllfa leol i gael eu gwaredu'n ddiogel.

3.71 Dylid defnyddio'r bocsys priodol bob tro i gael gwared ar nodwyddau. Mae bocsys nodwyddau ar gael i rieni ar bresgripsiwn gan feddyg teulu neu bediatregydd y plentyn. Dylid cysylltu â gwasanaethau amgylcheddol yr Awdurdod Lleol er mwyn trefnu iddynt gasglu a chael gwared ar y bocsys.

Rheoli Hylendid/Heintiau

3.72 Dylai pob aelod o staff fod yn gyfarwydd â'r rhagofalon arferol ar gyfer osgoi heintiau a dylent ddilyn gweithdrefnau hylendid sylfaenol. Rhaid darparu menig diogel untro i staff a dylent gymryd gofal wrth ymdrin ag achosion o ollwng gwaed neu hylifau eraill o'r corff ac wrth waredu gorchuddion neu gyfarpar. Mae canllawiau pellach ar gael yng nghyhoeddiad yr Adran Hyfforddiant ac Addysg, HIV ac Aids: Canllaw ar gyfer y Gwasanaeth Addysg a chylchlythyr 54/95 y Swyddfa Gymreig - Camddefnyddio Cyffuriau: Mesurau Atal ac Ysgolion.

Triniaeth Bersonol neu Ymyrrol

3.73 Mae'n gwbl ddealladwy bod rhai aelodau o staff mewn ysgolion yn amharod i wirfoddoli i roi triniaeth bersonol neu ymyrrol oherwydd natur y driniaeth neu bryderon y cânt eu cyhuddo o gam-drin disgyblion. Rhaid i rieni a Phenaethiaid barchu pryderon o'r fath ac ni ddylent bwysu ar staff i gynorthwyo i roi triniaeth oni bai eu bod yn hollol fodlon gwneud hynny.

3.74 Bydd gan bob BILl nyrs ysgol neu bediatregydd cymunedol y gall ysgolion gysylltu â hwy am gyngor. Dylai'r Pennaeth neu'r corff llywodraethu drefnu hyfforddiant priodol ar gyfer staff ysgolion sy'n fodlon rhoi cymorth meddygol. Os yw'r ysgol yn gallu trefnu i ddau oedolyn, o'r un rhyw â'r plentyn neu'r person ifanc yn ddelfrydol, fod yn bresennol wrth roi triniaeth bersonol neu ymyrrol, mae'r potensial ar gyfer cyhuddiadau o gam-drin yn cael ei leihau. Mae hefyd yn haws yn ymarferol i ddau oedolyn roi triniaeth o'r fath. Dylai staff geisio sicrhau urddas y plentyn neu'r person ifanc i'r graddau y mae hynny'n bosibl, hyd yn oed yn ystod argyfwng.

Pennod 4: Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)

Crynodeb o'r Bennod

Os yw plentyn neu berson ifanc yn methu â mynychu'r ysgol oherwydd anghenion meddygol, dylid nodi ei anghenion addysgol, rhoi cymorth addysgol cyflym ac effeithiol iddo a sicrhau ei fod yn gallu cael mynediad i addysg addas a hyblyg sy'n gweddu i'w anghenion. Rhaid i natur y ddarpariaeth allu ymateb i ofynion statws meddygol a fydd, o bosibl, yn newid.

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliad heblaw ysgol, naill ai gartref, mewn ysbyty, mewn uned cyfeirio disgyblion ddynodedig neu mewn lleoliad arall.

4.1 Wrth gyflawni ei ddyletswydd i ddarparu "addysg heblaw mewn ysgol", nid oes disgwyl i'r awdurdod lleol ddarparu addysg yng nghartrefi plant a phobl ifanc sy'n sâl am gyfnodau byr iawn yn unig; fodd bynnag, dylent ystyried effaith bosibl yr absenoldeb ar y plentyn wrth iddo ddychwelyd i'r ysgol. O ran absenoldeb byr, er enghraifft absenoldeb sy'n debygol o bara llai na phedair wythnos, disgwylir i'r ysgol gartref ddarparu gwaith i'w gwblhau gartref os yw cyflwr y plant a phobl ifanc yn caniatáu hynny. Fodd bynnag, gall yr awdurdod lleol benderfynu addysgu'r plentyn gartref yn gynharach pe bai hynny o fudd iddo.

4.2 Prin yw'r awdurdodau lleol hynny sy'n gadael plant a phobl ifanc gartref heb unrhyw addysg am fwy na phedair wythnos heb gyfiawnhad ac mewn achosion lle mae'r plentyn eisoes wedi bod yn yr ysbyty heb fynediad i addysg, dylai'r awdurdod lleol roi ystyriaeth i'r cyfnod hwnnw wrth ystyried ei addysgu gartref. Os yw wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod hirach ac wedi'i addysgu yno, bydd patrwm yr addysg wedi'i gwtogi a dylid sicrhau cymaint o ddilyniant â phosibl. Dylai'r awdurdod lleol fod yn awyddus i ddarparu gymaint o wersi â phosibl ac sydd o fudd, gan roi ystyriaeth i'r adnoddau sydd ar gael a'i gyflwr. Efallai y bydd yn ofynnol rhoi ystyriaeth arbennig i blentyn neu berson ifanc sy'n paratoi ar gyfer arholiadau cyhoeddus.

4.3 Bydd gallu'r plentyn neu'r person ifanc i gael mynediad i'r ddarpariaeth hon yn dibynnu ar gyngor meddygol, ac yn bwysicach na hynny, ar yr adeg y bydd yn teimlo'n ddigon iach i ymdopi. Rhaid sicrhau cydbwysedd cywir rhwng annog plant a phobl ifanc i astudio a chydabod yr adegau pan nad ydynt yn ddigon iach i gael unrhyw fudd o gael eu haddysgu. Rhaid arolygu'r sefyllfa hon yn rheolaidd.

4.4 Dylai'r awdurdod lleol fod â pholisi ysgrifenedig ar roi gwersi gartref a/neu mewn lleoliad arall. Dylai polisiâu gynnwys trefniadau ar gyfer y gwasanaeth a sut i'w staffio; pryd i ddarparu'r gwasanaeth; ac unigolyn penodol y dylai rhieni, athrawon yn yr ysbyty ac eraill gysylltu ag ef (gweler Atodiad 1). Dylai'r polisi fod yn gysylltiedig â gwasanaethau perthnasol yr awdurdod lleol fel gwasanaethau ar gyfer anghenion addysgol arbennig a gwasanaethau cymorth eraill yr awdurdod lleol, seicolegwyr addysg, y Gwasanaeth Lles Addysg ac unedau cyfeirio disgyblion. Dylai'r polisi hefyd ystyried darpariaethau eraill, fel y Partneriaethau Plant a phobl ifanc, ac offerynnau cynllunio eraill, er enghraifft, y Cynllun Plant a phobl ifanc.

4.5 Dylai monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol fod yn elfen allweddol o strategaethau'r awdurdod lleol. Mae angen iddynt sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu hystyried, bod safon yr addysg yn dderbyniol a bod darpariaeth yn rhoi gwerth da am arian.

4.6 Dylai gwasanaethau addysgu gartref ac yn yr ysbyty, neu adrannau digyswllt o'r gwasanaeth sy'n darparu addysg mewn lleoliad ysgol ag adnoddau naill ai gael eu sefydlu fel ysgol ysbyty neu eu cofrestru fel Uned Cyfeirio Disgyblion.

Y Gwasanaeth Addysgu Gartref/Mewn Ysbyty

4.7 Gellir disgrifio addysgu gartref/mewn ysbyty fel addysg i unigolyn neu grwpiau bach sy'n cael ei darparu yng nghartref y plentyn neu'r person ifanc, mewn ysbyty neu mewn canolfan ddynodedig. Yn gyffredinol, mae plant a phobl ifanc yn llwyddo'n well yn addysgol a chymdeithasol wrth gael eu haddysgu mewn grwpiau, ac mae hyn hefyd yn eu helpu i ailsefydlu yn yr ysgol. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod addysgu gartref ar gael ar sail un i un i'r sawl sydd ei angen. Dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn

cydymffurfio â phob dyletswydd statudol a bod meini prawf ar gyfer mynediad i ddarpariaeth addysg gartref/mewn ysbyty yn glir, teg a chyson.

4.8 Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gan ysgolion ysbytai neu gan wasanaethau addysgu ysbytai yn gleifion mewnol yn yr ysbyty, ond hwyrach y bydd rhai plant a phobl ifanc â salwch cronig yn mynychu'n ddyddiol o'u cartrefi. Hwyrach y bydd rhai ohonynt yn cael eu derbyn am ychydig ddyddiau yn unig, tra bydd eraill yn aros mewn wardiau neu unedau am gyfnodau hirach. Gall rhai eraill fynychu'r ysgol yn yr ysbyty yn rheolaidd am rai dyddiau'r wythnos, gan ddychwelyd adref neu i'r ysgol am weddill yr wythnos.

4.9 Yng Nghymru, mae gwasanaethau addysgu gartref/mewn ysbyty yn rhan o wasanaeth integredig gan amlaf, ac mae awdurdodau lleol yn cyflogi'r tiwtoriaid i weithio naill ai yn y cartref neu mewn ysbyty fel rhan o un gwasanaeth. Os nad yw hyn yn digwydd, dylent sefydlu cysylltiadau pendant rhwng yr ysbyty a'r gwasanaeth addysgu gartref.

4.10 Dylai'r awdurdod lleol hysbysu tiwtoriaid sy'n gweithio mewn cartrefi/ysbytai pa adnoddau a chymorth sydd ar gael iddynt. Dylai'r tiwtoriaid gael amrywiaeth eang o lyfrau, cyfarpar a deunyddiau er mwyn addysgu disgyblion gartref. Dylai addysgu gartref ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol lle bo hynny'n bosibl. Mae'n bwysig bod cofnodion llawn o blant a phobl ifanc sy'n aros mewn ysbyty yn yr hirdymor yn cael eu trosglwyddo o'r ysgol gartref i'r ysbyty ac wedyn i'r tiwtor. Pan fydd y plentyn yn dychwelyd i'r ysgol, dylai'r tiwtor nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed.

Safon NSF Salwch neu Niwed Acíwt a Chronig: Gweithredu Allweddol 7.7

Mae digon o addysg barhaus, mewn lle addas, ar gael i'r holl blant a phobl ifanc sy'n ddigon iach i'w derbyn, gan gynnwys rhai yn yr ysbyty. Mae'r plant yn cael eu haddysgu ar y cyd â'u hysgolion unigol, ac mae'r addysg yn briodol yn ôl eu hoedran a'u cam datblygu.

Mynediad i Addysg
a Chymorth i Blant a
Phobl Ifanc ag Anghenion
Meddygol

Mai 2010

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2010

4.11 Mae gan rai plant a phobl ifanc anghenion penodol sy'n gofyn am fewnbwn gan athrawon â hyfforddiant arbennig, fel athrawon â'r cymhwyster gorfodol i addysgu plant a phobl ifanc â nam ar eu clyw, nam ar eu golwg neu nam amlsynnwyr. Mewn achosion lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn yr ysbyty neu'n aros gartref am gyfnod hir, hwyrach na fydd athrawon arbenigol yn gallu darparu addysg barhaus tra bod y plentyn neu'r person ifanc yn absennol o'r ysgol. Yn yr achosion hyn, mae cydweithio agos rhwng yr ysgol, yr ysbyty, y gwasanaeth addysgu gartref a'r awdurdod lleol yn hanfodol. O dan rai amgylchiadau mae'n bosibl i'r awdurdod lleol drefnu i staff arbenigol ymweld ag ef yn yr ysbyty yn rheolaidd. Yn ogystal, hwyrach y bydd modd hyfforddi staff ysbytai, er enghraifft i gynorthwyo prosesau cyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc â nam ar y synhwyrâu.

Unedau Cyfeirio Disgyblion

4.12 Yn ôl diffiniad y gyfraith, mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn fath o ysgol ac yn addysg heblaw mewn ysgol. Maent yn ysgolion sy'n cael eu sefydlu a'u cynnal gan awdurdod lleol, ac fe'u trefnir yn arbennig er mwyn darparu addysg i blant a phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol na fyddent yn derbyn addysg addas oherwydd eu bod yn sâl, wedi'u gwahardd o'r ysgol neu reswm arall.

4.13 Mae'n arfer da i Unedau Cyfeirio Disgyblion sy'n darparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol gyfyngu eu darpariaeth i ddisgyblion o'r fath yn unig. Yr awdurdod lleol a'r pwyllgor rheoli sy'n pennu'r polisi derbyn ar gyfer unedau o'r fath. Dylai Uned dderbyn disgyblion ar sail meini prawf clir, a dylid pennu targedau i bob un ar gyfer ailsefydlu mewn ysgol prif ffrwd, ysgol arbennig, addysg bellach neu gyflogaeth. Gall yr awdurdod lleol ymdrin â phenderfyniadau ynghylch derbyn disgyblion i'r Uned, neu mae modd eu dirprwyo i'r pwyllgor rheoli neu'r athro cyfrifol.

4.14 Gall datblygu darpariaeth sy'n seiliedig ar adnoddau fod yn ddull rhagorol o ddwyn ynghyd grwpiau bach o blant a phobl ifanc sâl a rhai sydd wedi cael niwed a darparu addysg o ansawdd da ar eu cyfer. Gall addysgu plant a phobl ifanc mewn grwpiau, lle bo hynny'n bosibl, gynnig profiad addysgol a chymdeithasol mwy cynhwysfawr a llwybr yn ôl i'r ysgol.

4.15 Gall lleoliadau deuol gefnogi cynhwysiant effeithiol trwy helpu i baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer addysg prif ffrwd a thrwy helpu ysgolion i ddiwallu eu hanghenion. Mae Deddf Addysg 1996 a Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 yn caniatáu cofrestriad deuol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn Uned Cyfeirio Disgyblion neu ysgol arbennig ac ysgol leol arall. Gall y broses hon gynorthwyo disgybl i gymryd un cam ar y tro wrth ddychwelyd i addysg brif ffrwd.

4.16 Mae canllawiau pellach ar Unedau Cyfeirio Disgyblion ar gael yn Nogfen Canllawiau Cynulliad Cymru "Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion" (2006).

Addysg mewn Ysbyty

4.17 Mae'r nod yr un fath wth addysgu plant a phobl ifanc mewn ysbyty ag wrth addysgu plant a phobl ifanc eraill. Mae addysg yn hanfodol bwysig i ddyfodol y plentyn neu'r person ifanc; heb addysg, gall hapusrwydd personol y plentyn neu'r person ifanc a'i gyfle mewn bywyd a'i yrfa fel oedolyn gael eu rhoi dan anfantais barhaol.

4.18 Gall addysg mewn ysbyty ddarparu dilyniant a helpu plant a phobl ifanc (a'u teuluoedd) i ymdopi â thriniaeth ysbyty, cynorthwyo eu hadferiad a chodi eu hysbryd.

4.19 Cleifion mewnol yn yr ysbyty yw'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gan ysgolion ysbytai, ond hwyrach y bydd rhai plant a phobl ifanc â salwch cronig yn mynychu'n ddyddiol o'u cartrefi. Hwyrach y bydd rhai ohonynt yn cael eu derbyn am ychydig ddyddiau yn unig, tra bydd eraill yn aros mewn wardiau neu unedau am gyfnodau hirach. Gall rhai eraill fynychu'r ysgol yn yr ysbyty yn rheolaidd am rai dyddiau'r wythnos, gan ddychwelyd adref neu i'r ysgol am weddill yr wythnos.

4.20 Mae gan blant a phobl ifanc â salwch sy'n bygwth bywyd neu salwch terfynol hawl i addysg sy'n gweddu i'w hoedran, eu gallu, eu hanghenion a'u hiechyd ar y pryd.

4.21 Ar hyn o bryd nid oes yr un ysgol ysbyty wedi'i sefydlu yng Nghymru sy'n cyfateb i ddiffiniad Deddf Safonau a Fframwaith

Ysgolion 1998. Dylai ysgolion ysbytai, fel y'u diffinnir gan y Ddeddf, gael eu cofrestru mewn adeilad ysbyty fel ysgolion arbennig, gyda statws ysgol a gynhelir neu ysgol nas cynhelir, h.y. ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol neu ysgol annibynnol. Mae gweithdrefnau Adran 31 ac Atodlen 6 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn berthnasol i ysgolion ysbytai mewn perthynas â'u sefydlu, eu terfynu neu wrth wneud newidiadau penodol iddynt. Dylid nodi y gall plant a phobl ifanc o Gymru fynychu ysgolion ysbytai y tu allan i Gymru.

4.22 Yn gyffredinol yng Nghymru, mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn cymorth tra byddant yn yr ysbyty yn cael cymorth y gwasanaeth addysgu gartref/ysbyty a reolir gan yr awdurdod lleol.

4.23 Mae'r gyfraith addysg yn adlewyrchu natur arbennig ac amgylchiadau newidiol ysgolion ysbytai trwy ddarparu trefniadau mwy hyblyg mewn rhai meysydd deddfwriaeth o gymharu â threfniadau ar gyfer ysgolion arbennig eraill. Nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar ysgolion ysbytai i gynnig y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Derbyn Cleifion i'r Ysbyty, Cynllunio a Chydgysylltu Cymorth

4.24 Gan amlaf, bydd ysbytai yn derbyn cleifion ar fyr rybudd, ond weithiau mae'r trefniadau'n cael eu gwneud ymhell ymlaen llaw. Dylai athrawon gartref/ysbyty gael cymaint o rybudd â phosibl bod ysbyty yn derbyn plentyn gyda syniad o ddyddiad, neu ddyddiad tebygol derbyn plentyn i'r ysbyty a hyd yr arhosiad. Bydd rhoi rhybudd ymlaen llaw yn cynnig cyfle i gydgysylltu â'r rhieni a'r ysgol gartref am y rhaglen addysgol i'w dilyn tra byddant yn yr ysbyty.

4.25 Yn achos arhosiadau hir dylid mynd ati i gynllunio addysg ar unwaith a dylai'r ddarpariaeth addysg ddechrau cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl i'r plentyn gael ei dderbyn i'r ysbyty, gan gymryd i ystyriaeth yr hyn y mae'n ei ddysgu ar hyn o bryd. Yn achos derbyniadau rheolaidd er enghraifft lle bo plentyn yn cael dialysis, dylai addysg fod ar gael ar y dyddiad derbyn. Mae cydgysylltu â'r athrawon cartref/ysbyty yn arbennig o bwysig gan fod y sylw a roddir i'r cwricwlwm yn cael ei rannu rhyngddynt fel arfer ac er mwyn sicrhau parhad a dilyniant. Dylai athrawon cartref/ysbyty gael eu cadw'n ymwybodol o'r holl gyfarfodydd perthnasol a

gynhelir gan yr awdurdod lleol mewn achosion o salwch rheolaidd. Mewn achosion eraill bydd angen i'r farn ynghylch pryd y dylai addysg ddechrau gymryd i ystyriaeth hyd yr arhosiad a'r cyflwr meddygol. Nid oes angen yr un lefel o gynllunio a darpariaeth ar gyfer arhosiadau byr, ond er mwyn sicrhau nad yw'r cyfnod yn yr ysbyty'n cael ei wastraffu, mae rhai athrawon ysbyty wedi cynllunio rhaglenni gwaith penodol, yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol, sy'n rhoi profiadau addysgol gwerthfawr y gellir eu cwblhau mewn cyfnodau byr.

4.26 Mewn achosion o ffibrosis systig, cyflyrau arenndol a chyflyrau cardiaidd cymhleth a chanser mae'r cyswllt rhwng yr athro ysbyty, y tiwtor cartref a'r ysgol gartref yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau parhad a dilyniant. Mae'r canllawiau a roddir yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn gymwys yma. Rhaid ceisio cyngor addysgol sy'n rhan o asesiad statudol gan unrhyw ysgol y mae'r plentyn wedi'i mynychu yn y 18 mis cyn hynny.

4.27 Gall rhai ysgolion ysbyty arbenigol sy'n darparu ar gyfer plant a phobl ifanc y mae arnynt angen gofal hirdymor helpu i drefnu darpariaeth ar gyfer brodyr a chwiorydd iach lle mae'r teulu cyfan wedi symud i'r ardal dros dro i fod yn agos at y plentyn neu'r person ifanc sydd yn yr ysbyty. Dylai hyn ddigwydd lle bynnag y bro modd.

4.28 I blant a phobl ifanc sy'n sefyll arholiadau TGAU yn yr ysbyty, mae'n hanfodol bwysig bod yr aelwyd, yr ysgol ac athrawon yr ysbyty yn cydweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gweithio cymaint â'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd.

4.29 Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion addysgol pobl ifanc ôl-16. Er mwyn sicrhau arferion da, os yw'n briodol ac ymarferol, dylid ceisio sicrhau eu bod yn gallu parhau i ddilyn y cyrsiau y maent wedi'u dechrau wrth fynd i'r ysbyty.

4.30 Mae angen i'r rhai sy'n addysgu plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol hirdymor fod yn llawer mwy nag athrawon proffesiynol ond rhaid iddynt hefyd helpu'r plentyn i ddychwelyd i'r byd addysg yn dilyn trawma a salwch. Mae'n bwysig bod ganddynt y gallu i gynyddu'r targedau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ar fin dychwelyd i addysg brif ffrwd a'r gallu i'w lleihau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gwaethygu'n gorfforol. Mae gan y maes

hwn oblygiadau ar gyfer hyfforddiant mewn swydd (HMS) a dylai'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu fynd i'r afael ag ef.

4.31 Mae hefyd yn hanfodol bod gweithwyr addysg, meddygol a gweinyddol yr ysbyty yn mynd ati i gydweithio. Dylid ceisio sicrhau'r budd mwyaf posibl i addysg ac iechyd y plentyn, gan gynnwys creu awyrgylch sy'n hwyluso dysgu effeithiol. Mae'n hanfodol bod staff addysgu'r ysbyty yn sefydlu proffil clir yn yr ysbyty. Rhaid i reolwyr y gwasanaeth fod yn rhagweithiol wrth sefydlu agweddau amlddisgyblaethol.

4.32 Gall athrawon mewn ysbyty wneud cyfraniad gwerthfawr at ofal iechyd ac adferiad plant a phobl ifanc trwy, er enghraifft, dweud wrth y tîm clinigol am unrhyw bryderon posibl sydd gan blant a phobl ifanc ynghylch poen neu effeithiau meddyginiaeth. Dylent gydweithio'n agos â staff nyrsio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio i'r eithaf ar eu horiau o addysg, drwy sicrhau bod triniaethau rheolaidd ac achlysurol yn cael eu cwblhau cyn i'r cyfnod addysgu ddechrau. Hwyrach y bydd angen i athrawon ysbyty fynychu ymweliadau'r meddyg â'r ward, cynadleddau achos a chyfarfodydd amlddisgyblaethol er mwyn cyfleu'r agwedd addysgol. Dylid sicrhau hefyd fod rhieni yn cymryd rhan yn y broses dderbyn ac yn cael eu hysbysu o raglenni addysgol a threfn yr ysbyty.

4.33 Mae cydweithio agos rhwng athrawon gartref/ysbyty ac athrawon prif ffrwd yn hanfodol i ddarparu rhaglen addysgol effeithiol ar gyfer y plentyn, a gall rhieni fod yn gyswllt pwysig hefyd. Dylai fod enw cyswllt yn yr ysgol gyffredin er enghraifft, y cydlynedd AAA, neu'r tiwtor blwyddyn mewn ysgolion uwchradd a'r Pennaeth mewn ysgolion cynradd.

4.34 Dylai'r athro gartref/ysbyty ymweld â'r ysgol gartref pan fydd yn ymarferol bosibl gwneud hynny. Hwyrach y gall rhai athrawon ysgol drefnu amser ar gyfer ymweliad bugeiliol â'r ysbyty i weld eu plant a'u pobl ifanc a'u hamgylchiadau dysgu.

Safon NSF Gwasanaethau i'r Plentyn a'r Teulu: Gweithredu Allweddol 7.27

*Nid yw plant sydd ag **anghenion iechyd cymhleth** yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty heb **gynllun gofal** ysgrifenedig. Mae systemau ar waith rhwng y gwasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod cyfarpar sy'n addas i anghenion y plentyn, a bod gofal dilynol amserol hefyd ar gael.*

4.35 Rhan o waith yr athro/athrawes yw ailgychwyn y dysgu a chadw'r broses ddysgu'n fyw i'r er mwyn sicrhau nad oes gormod o amharu ar ei addysg.

Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig

4.36 Mae'n debygol y bydd gan nifer o blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn yr ysbyty ddatganiadau yn nodi darpariaeth addysgol a/neu anaddysgol arbennig penodol. Mae'n debyg iawn na fydd gan athrawon ysbyty yr amser na'r cyfle i gyfrannu'n sylweddol tuag at ddarpariaeth, sy'n ddarpariaeth hirdymor yn ei hanfod, mewn perthynas ag archosiadau byr. Fodd bynnag, dylai'r awdurdod lleol roi copïau o'r datganiad neu eu darparu ar gais i ysgol neu wasanaeth yr ysbyty mewn perthynas ag arhosiadau hir a rhaid i'r ysgol roi'r sylw priodol i ofynion y datganiad.

4.37 Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried diwygio'r datganiad er mwyn enwi ysgol yr ysbyty mewn perthynas â rhai arhosiadau hir, os mai'r ysgol honno a fydd yn diwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn neu'r person ifanc hyd y gellir rhag-weld. Byddai gan rieni'r hawl i leisio eu barn ar unrhyw ddiwygiad o'r fath yn unol â'r broses statudol a nodir yn Neddff Addysg 1996.

4.38 Fel arall, gall fod yn ofynnol i'r awdurdod lleol wneud ailasesiad statudol o anghenion hirdymor plentyn neu berson ifanc os yw ei amgylchiadau a'i anghenion addysgol arbennig wedi newid oherwydd salwch hirdymor neu ddirywiad yn ei gyflwr. Mae'r Cod Ymarfer yn darparu canllawiau ar y meini prawf ar gyfer asesu statudol. Rhaid i awdurdodau lleol barhau i gynnal yr adolygiad blynyddol o'r datganiad er bod disgybl sy'n aros yn yr

ysbyty am gyfnod hir yn absennol o'r ysgol gartref. O ran y rheiny â datganiadau sy'n aros yn yr ysbyty yn rheolaidd, dylai'r ysgol gartref (os caiff ei henwi yn y datganiad) arwain yr adolygiad a cheisio cynnwys ysgol yr ysbyty, a hwyrach yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai ysgol yr ysbyty arwain yr adolygiad os caiff ei henwi yn rhan 4 o'r datganiad.

Unedau Addysgu mewn Ysbytai

4.39 Bydd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sy'n cael addysg mewn ysbyty yn cael eu lleoli mewn uned addysgu ac yn derbyn cymorth a hyfforddiant gan Wasanaethau Addysgu Gartref/mewn Ysbyty a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu gan wasanaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

4.40 Mae nifer fach o bobl ifanc yn datblygu anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol difrifol, sydd angen gofal a thriniaeth nad ydynt ar gael yn yr ysgol na weithiau gan wasanaethau gofal iechyd lleol. Mae angen i rai ohonynt fynychu ysgolion preswyl arbennig neu gael eu trin mewn ysbyty. Caiff rhai pobl ifanc eu lleoli mewn unedau neu ysbytai iechyd meddwl preifat neu mewn unedau'r GIG, ac mae llawer yn gorfod symud ymhell o gartref. Mae gan blant a phobl ifanc mewn unedau o'r fath hawl i dderbyn addysg. Rhaid i unedau iechyd meddwl preifat baratoi cynlluniau ar y cyd â'r awdurdod lleol cartref i sicrhau bod y rhai sy'n gleifion iechyd meddwl yn parhau i gael mynediad i addysg.

4.41 Gall plant a phobl ifanc gael eu derbyn i leoliad iechyd meddwl o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu, fel sy'n digwydd yn amlach, gallant gael eu derbyn ar sail wirfoddol neu anffurfiol. Mae'r Ddeddf yn pennu'r meini prawf canlynol ar gyfer derbyn plant a phobl ifanc: yn gyntaf, rhaid bod anhwylder meddwl gan y claf yn unol â diffiniad y Ddeddf; yn ail, rhaid i natur neu ddifrifoldeb yr anhwylder olygu bod arhosiad mewn ysbyty yn briodol; yn drydydd, mae triniaeth feddygol yn hanfodol ar gyfer iechyd neu ddiogelwch y claf neu er mwyn diogelu eraill.

4.42 Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu derbyn i unedau seiciatrig angen mewnbyn addysgol dwys i adfer eu hunan-barch a'u galluogi i ddychwelyd i'r ysgol ac i fywyd pob dydd yn llwyddiannus, lle bo hynny'n bosibl. Heb hyn, efallai hwyrach y bydd eu rhagolygon ar gyfer llwyr wellhad yn lleihau.

4.43 Mae angen cynllunio rhaglenni addysgol er mwyn diwallu eu hanghenion unigol, gan gofio y bydd eu hanghenion a'u hanawsterau'n amrywio'n eang. Nid oes gofyniad cyfreithiol i ddarparu'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ond dylai athrawon mewn unedau seiciatrig geisio darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Mae sicrhau cysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn hanfodol er mwyn ceisio ailsefydlu'r person ifanc i addysg brif ffrwd maes o law.

4.44 Mae angen i athrawon mewn unedau seiciatrig gyfrannu'n llawn at gynllunio derbyniadau, cynnal asesiadau (gan gynnwys cydweithio ysgol gartref ag y plentyn neu'r person ifanc) a sefydlu a rheoli rhaglen ailsefydlu. Mae'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl gan athrawon yn debyg mewn sawl ffordd i'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl gan staff mewn unedau cyfeirio disgyblion, fel y'i disgrifir yng Nghylchlythyr 61/94 y Swyddfa Gymreig, *AALI yn Addysgu Plant Heblaw yn yr Ysgol*.

4.45 Bydd nifer fach yn cael eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i anaf i'r ymennydd. Mewn rhai achosion, bydd darpariaeth addysgol yn anymarferol. Lle nad yw'n ymarferol, a lle bu effaith ar eu galluoedd, gall athro/athrawes yr ysbyty gyfrannu at asesu'r nam a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ymdrin ag unrhyw anawsterau dysgu.

4.46 Mae'n bwysig sicrhau bod staff meddygol ac addysgol yn cydweithio. Rhaid i athro/athrawes yr ysbyty fod yn aelod sylfaenol o dimau amlddisgyblaethol yr ysbyty, a dylid sicrhau eu bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i allu asesu pob claf mewnol, gofalu amdanynt a'u trin.

4.47 Ni ellir cymryd yn ganiataol y bydd gan yr athro/athrawes wybodaeth feddygol am anafiadau i'r pen a dylai'r staff meddygol fynd ati'n syth i roi gwybodaeth glir i'r athro/athrawes am ddifrifoldeb yr anaf a'r prif bryderon am adferiad. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli terminoleg feddygol: hwyrach na fydd categorïau niwrolawfeddygol o fân anafiadau ac anafiadau cymedrol a difrifol i'r pen yn adlewyrchu'r anawsterau dysgu sy'n debygol o ddilyn.

4.48 Weithiau daw anawsterau dysgu i'r amlwg yn gynnar yn y broses wella, bryd arall yn fwy diweddar ac weithiau ar ôl i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol. Oherwydd yr amrywiaeth hwn yn adferiad yr ymennydd, rhaid sicrhau bod athro/athrawes yr ysbyty

yn hyblyg iawn ac yn cydweithio'n agos ag eraill yn y system addysg. Rhaid i athro/athrawes yr ysbyty fod yn ymwybodol iawn o gyflwr a thriniaeth y plentyn neu'r person ifanc, gan barhau i gymryd cyfrifoldeb proffesiynol ac annibynnol am yr hyn a ddysgir.

4.49 Gall ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd, therapyddion chwarae a staff nyrsio helpu'r disgybl i gael mynediad i'r cwricwlwm eto. Hwyrach y bydd angen cynnwys seicolegwyr clinigol cyn i'r plentyn adael yr ysbyty; gall meithrin cysylltiadau â'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg fod o gymorth.

4.50 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau digon o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigolyn. Er enghraifft, hwyrach y bydd rhai yn mynychu uned yr ysbyty yn rhan-amser ac ysgol gartref y plentyn neu'r person ifanc weddill yr amser.

4.51 Er mwyn hwyluso cydweithio a chyfathrebu effeithiol, dylai pob awdurdod lleol sicrhau bod ganddo o leiaf un seicolegydd addysg penodol yn y Gwasanaeth Seicoleg Addysg i weithio gyda'r gwasanaethau addysgu gartref/mewn ysbyty neu i gydweithio o fewn y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a gwasanaethau cymorth eraill yn ôl y gofyn.

4.52 Hwyrach y bydd angen i'r therapydd galwedigaethol asesu amgylchedd y cartref a'r ysgol, gyda'r nod o argymhell newidiadau i adeiladau neu ddarparu cyfarpar.

4.53 Yn ogystal, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y ddarpariaeth yn cydymffurfio â chanllawiau iechyd a diogelwch a bod y polisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer amddiffyn plant.

Cydweithio

4.54 Fis Rhagfyr 1991 cyhoeddodd yr Adran Iechyd ganllawiau ar "Lles Plant a Phobl Ifanc yn yr Ysbyty". Mae Adran 4.17 o'r ddogfen yn hysbysu BILlau/Ymddiriedolaethau o'u dyletswydd i sicrhau bod ysbytai sy'n darparu addysg yn cydweithio ag awdurdodau lleol.

4.55 Mae'n bosibl y bydd nifer fawr o bobl yn cyfrannu at y gwaith o gynorthwyo person ifanc sy'n mynd i gael ei addysgu mewn ysbyty. Mae cydweithio rhwng staff addysgol, meddygol a gweinyddol yr ysbyty yn hanfodol.

4.56 Gellir datblygu cysylltiadau anffurfiol drwy gynnal cyfarfodydd ar y cyd a rhannu Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS). Gan eu bod yn gyfrifol am addysgu pob oedran a gallu, mae athrawon ysbytai ac athrawon gartref angen mynediad i HMS perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal eu harbenigedd a'u statws proffesiynol ac yn osgoi cael eu hynysu oddi wrth eu cydweithwyr mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig eraill.

4.57 Mae'n bwysig cydweithio â gwasanaethau cymdeithasol, lle bo'n briodol, gan fod ganddynt ddyletswydd i amddiffyn plant a darparu cymorth i blant mewn angen. Bydd rhai teuluoedd yn arbennig yn cael trafferth i gefnogi eu plant sydd ag anghenion meddygol ac mae'n hollbwysig cael cyfathrebu effeithiol rhwng yr holl asiantaethau statudol ar yr adeg hon.

Y Cwricwlwm

4.58 Nid oes angen eithriadau dros dro gan Benaethiaid o dan Adran 114 o Ddeddf Addysg 2002 er mwyn awdurdodi gwroddi wrth y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n parhau i fod ar gofrestr eu hysgol ond sy'n absennol o'r ysgol am gyfnod oherwydd salwch. Fodd bynnag, ar ôl iddynt ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd, dylai Penaethiaid fanteisio ar yr hyblygrwydd cynhenid a ddarperir gan y datganiad mynediad i'r Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn gwneud addasiadau perthnasol i'r cwricwlwm. Er mwyn eu galluogi i addasu, bydd yn ofynnol i athrawon yr ysbyty gydweithio â'r aelwyd ddigon ymlaen llaw.

4.59 Yn gyffredinol mae athrawon mewn ysbytai yn ceisio dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol lle bo hynny'n ymarferol. Mae hyn o fudd i'r plentyn wrth ei helpu i ddychwelyd i'r ysgol brif ffrwd ac wrth ddarparu cysondeb mewn fframwaith cyffredinol gyda'r gwasanaeth addysgu gartref. Lle bo'n briodol, dylai ysgolion ysbytai a gwasanaethau addysgu ddilyn yr un tymhorau a gwyliau â'r ysgolion yn eu hardal.

Monitro a gwerthuso cynnydd disgyblion

4.60 Er mwyn cydymffurfio ag arferion da, dylai cofnodion yn nodi cynnydd academaidd (neu fel arall) plant a phobl ifanc sy'n aros am gyfnod hir yn yr ysbyty adlewyrchu terminoleg a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

4.61 Dylai plant a phobl ifanc wedi'u cofrestru'n ddeuol neu ddisgyblion rhan-amser, h.y. disgyblion sydd wedi'u cofrestru gydag ysgol brif ffrwd ond sy'n mynychu uned addysg ysbyty neu uned cyfeirio disgyblion am rywfaent o'r wythnos neu'r wythnos gyfan, barhau i gael eu monitro gan eu hysgol gartref. Dylai'r ysgol fonitro presenoldeb ac addysg a gofyn am adolygiadau o gynnydd rheolaidd.

4.62 Mae'n bwysig bod athrawon prif ffrwd ac athrawon ysbyty yn cytuno ar sut i gyfnewid gwybodaeth am gynnydd academaidd, gan gynnwys Cofnodion Cyrhaeddiad.

4.63 Dylai athrawon ysbyty gadw tystiolaeth o gyraeddiadau plant a phobl ifanc fel bod athrawon prif ffrwd yn gallu eu cynnwys mewn rhaglenni astudio priodol wrth iddo ddychwelyd i'r ysgol; dylid cynnwys portffolio o waith ar gyfer y rhai sy'n aros yn yr ysbyty am gyfnod hir. Mae angen eu cynnwys wrth gynhyrchu Cofnodion Cyrhaeddiad fel eu bod yn gallu cyflwyno sylwadau ar eu profiadau o fod yn yr ysbyty. Dylai athrawon gartref ofalu nad ydynt yn tanbriso'r hyn y gallant ei gyflawni pan fyddant yn yr ysbyty. Dylid annog y rhai sy'n aros yn yr ysbyty am gyfnod byr i fynd â'r gwaith a wnaethant yn yr ysbyty yn ôl i'w hysgolion.

4.64 Bydd cynnydd y rhai sy'n aros yn yr ysbyty am gyfnod hir yn cael ei fonitro drwy sefydlu rhaglen cymorth bugeiliol (PSP). Dylai hwn ganolbwyntio ar anghenion academaidd a chymdeithasol disgyblion unigol a chynnwys cynlluniau ar gyfer eu hailsefydlu yn yr ysgol brif ffrwd. Dylid adolygu'r PSP o leiaf bob chwe wythnos a rhannu'r canlyniadau gyda'r prif bartïon perthnasol. Y sefydliad lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser ddylai fod yn gyfrifol am gynnal yr adolygiad. Mae canllawiau pellach ar PSPs ar gael yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion'.

4.65 Mae rhai ysgolion ac unedau ysbytai yn Ganolfannau Arholi ar gyfer arholiadau cyhoeddus. Yr ysgol gartref sy'n gyfrifol am asesu statudol (os yw cyflwr y plentyn neu'r person ifanc yn caniatáu hynny ac os yw'n mynychu ysgol yr ysbyty a'i ysgol gartref), ond dylid cynnal profion rheolaidd eraill ar ddisgresiwn athro/athrawes yr ysbyty. Dylid gofalu nad yw hyn yn creu mwy o straen ar y rhai sy'n sâl ac sydd, o bosibl, eisoes o dan bwysau seicolegol dwys neu bwysau eraill.

4.66 Y gofynion sylfaenol gwithrediad effeithlon a chost-effeithiol ysgolion ysbyty a gwasanaethau addysgu, ac eithrio'r rhai sy'n seiliedig ar ddarpariaeth erchwyn gwely, yw digon o le yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer y disgyblion sy'n cael eu derbyn, ynghyd â digon o le storio a swyddfa briodol, mewn lleoliad amlbwrpas o bosibl. Dylai'r ystafell ddosbarth fod mor agos â phosibl at ward y plant. Ni fydd modd darparu amrywiaeth eang o adnoddau eraill mewn ysbyty gan amlaf (er enghraifft, llyfrau a chyfarpar cyfredol ar gyfer holl ystod oedran ysgol gorfodol a thu hwnt, yn cwmpasu pob gallu). Dylai ysgolion y disgyblion gydweithredu drwy ddarparu neu fenthyl llyfrau ac adnoddau eraill.

Staffio

4.67 Mae gofynion staffio yn amrywio'n sylweddol yn ôl natur arbenigedd meddygol ysbytai penodol a natur cyflyrau meddygol y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty; mae angen cryn hyblygrwydd er mwyn trefnu staffio. O ganlyniad, mae'n anymarferol pennu cymarebau staffio cyffredinol yn ganolog. Yn gyffredinol, mae'r gymhareb ddisgybl/athro yn uwch lle mae anghenion y disgyblion yn debyg a lle mae mwy o gyfleoedd ar gyfer rhoi disgyblion mewn grwpiau at ddibenion addysgu. Fodd bynnag, hwyrach y bydd anghenion addysgol rhai plant a phobl ifanc yn llawer mwy unigol, gan fynnu mwy o amser a sylw gan athrawon. Os yw'r ysgol yn darparu ar gyfer yr holl ystod oedran ysgol gorfodol heb lawer o staff parhaol, llawn-amser, dylid sicrhau cydbwysedd priodol rhwng athrawon cynradd ac uwchradd. Hwyrach y bydd yn ofynnol defnyddio athrawon ag arbenigedd penodol.

4.68 Lle bo plentyn neu berson ifanc yn mynychu ysbyty, dylai athrawon drafod eu swyddogaethau gyda staff nyrsio a meddygol. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod athrawon mewn ysbytai yn derbyn gwybodaeth am bob cyfle posibl i fynychu sesiynau HMS lleol. Hwyrach y bydd athrawon mewn ysbytai ac athrawon gartref am gysylltu ag ysgolion lleol i drefnu ymweliadau a mynychu sesiynau HMS lle bo hynny'n briodol a pherthnasol. Mae'n bosibl y bydd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu cyfrannu o dan yr amgylchiadau hyn.

Plant a Phobl Ifanc mewn ysbytai

4.69 Ni ddylai plant a phobl ifanc gael eu rhoi mewn wardiau oedolion oni bai nad oes modd osgoi hynny. Os ydynt yn cael eu rhoi mewn wardiau o'r fath, hwyrach na fydd yr athro/athrawes yn derbyn gwybodaeth gyson am y plentyn. Rhaid i staff gweinyddol, meddygol ac addysgu fod yn ymwybodol o'r anhawster posibl hwn. Mae'r glasoed yn aml yn cael eu derbyn i wardiau oedolion sydd wedi'u gwasgaru o gwmpas yr ysbyty. Nid yw athrawon ysbyty yn addysgu mewn wardiau oedolion fel rheol, gan fod yr arferion gweithio yn ei gwneud hi'n anodd iddynt addysgu. Bydd llawer o'r glasoed yn gweithio tuag at, neu ar fin sefyll, arholiadau cyhoeddus a bydd eu hanghenion yn arbennig o bwysig a phenodol. O ganlyniad, mae darparu addysg a chynnal safonau yn arbennig o bwysig. Hwyrach y bydd y bobl ifanc yn pryderu'n fawr am effaith eu salwch ar eu cymwysterau yn y dyfodol. Dylai ysbytai sicrhau bod data ar gael i athrawon ysbyty ynglŷn â derbyn a rhyddhau plant a'r glasoed i wardiau oedolion, a dylent hysbysu'r awdurdod lleol hefyd.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

4.70 Gellir defnyddio TGCh mewn sawl ffordd amrywiol i gynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol ar ôl asesu eu hanghenion addysgu.

4.71 Lle bynnag yr addysgir plant a phosibl ifanc (heblaw mewn ysgolion), gall cyfrifiaduron fod yn ffordd hyblyg iddynt barhau â'u haddysg gan fod modd eu defnyddio mewn amrywiaeth o leoliadau ac mewn nifer o ffyrdd er mwyn eu helpu i gefnogi anghenion

unigol. Yn ogystal, gall technolegau cynorthwyol alluogi'r rhai â phroblemau symudedd neu anawsterau corfforol gael mynediad i TGCh.

4.72 Mae gliniaduron yn ateb hyblyg gan fod modd eu defnyddio mewn ystafell ddosbarth yn yr ysgol, yn yr ysbyty neu gartref. Yn ogystal, gall cyfarpar symudol, e.e. WP, PDAs, EDAs etc fod yn ffordd gyfleus i blant a phobl ifanc gadw cofnodion a gwneud nodiadau. Gall athrawon baratoi tasgau ar CDs, Web20, cofbin, podlediadau ac ati, a gall y plentyn neu'r person ifanc fynd â hwy gydag ef a'u dychwelyd ar ôl cwblhau'r tasgau.

4.73 Pan na fydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei addysgu yn yr ysgol, rhaid sicrhau bod yr ysgol a'r plentyn neu'r person ifanc yn parhau i gyfathrebu â'i gilydd. Mae TGCh yn galluogi hyn i ddigwydd mewn ffordd rithwir, gan sicrhau ei fod yn teimlo'n llai unig, ac yn ei alluogi i barhau â'i addysg i'r graddau y mae ei salwch yn caniatáu. Dylid ystyried y goblygiadau i staff sy'n paratoi'r adnoddau hynny.

4.74 Gellir defnyddio'r rhyngwrwyd neu wefan yr ysgol i ddarparu pecynnau dysgu o bell, gan drefnu bod gwasanaeth addysgu awdurdod lleol, sefydliad preifat neu'r ysgol brif ffrwd yn gyfrifol amdanynt. Gellir eu defnyddio hefyd i gynorthwyo tasgau ymchwil, os yw plant a phobl ifanc gartref, mewn ysbyty neu mewn amgylchedd prif ffrwd. Gellir defnyddio e-bost (podledu, blogiau ac ati) i gyfnewid gwybodaeth a manylion neu broblemau ynghylch aseiniadau. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol gyda staff a chymheiriaid y plentyn neu'r person ifanc.

4.75 Gellir defnyddio gwefannau ysgolion sy'n cael eu creu gan ysgolion prif ffrwd neu ysgolion ysbytai i gynnwys manylion gwersi a gollwyd a gwaith cartref i'w gwblhau. Mae pob awdurdod lleol yn ystyried defnyddio Llwyfannau Dysgu y gellid eu cyrchu gan bob sefydliad addysg lleol a chan blant a phobl ifanc gartref neu mewn ysbyty sy'n gallu cysylltu â'r rhyngwrwyd.

4.76 Gall defnyddio gwegamerâu ar gyfer fideo-gynadledda alluogi plant a phobl ifanc yn yr ysbyty neu gartref i gysylltu â gwersi prif ffrwd. Gall fideo-gynadledda hefyd gysylltu ardaloedd addysgu mewn ysbyty a galluogi plant a phobl ifanc i gysylltu â sefydliadau addysg ar hyd a lled y byd.

4.77 Ystyr cynhwysol yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cyfrannu'n llawn at fywyd ac addysg yr ysgol. Gall TGCh fod yn gymorth i sicrhau arferion cynhwysol drwy helpu athrawon i oresgyn rhwystrau posibl i ddysgu wrth ymateb i anghenion amrywiol plant a phobl ifanc a gosod heriau dysgu priodol. Rhaid i athrawon gynllunio sut maent yn rheoli TGCh yn yr ystafell ddosbarth ar sail y technolegau penodol sydd ar gael i gynorthwyo anghenion unigol plant a phobl ifanc.

Pennod 5: Ailsefydlu

Crynodeb o'r Bennod

Gall dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod o salwch fod yn gam emosiynol i blentyn neu berson ifanc. Gall sgiliau fel dysgu trefn y diwrnod ysgol a datblygu a chynnal cyfeillgarwch gael ei niweidio o ganlyniad i absenoldeb hir.

Mae'r bennod hon yn ystyried sut gall ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill hwyluso'r ffordd i ddisgyblion wrth ddychwelyd i'r ysgol. Mae'n ystyried sut i asesu anghenion presennol y plentyn a rhai'r dyfodol, gan roi cyngor ymarferol ar systemau i gynorthwyo'r broses ailsefydlu.

5.1 Rhaid i bolisiâu ac arferion ysgol fod mor gadarnhaol a rhagweithiol â phosibl er mwyn croesawu'r plentyn neu'r person ifanc yn ôl i'r ysgol a sicrhau ailsefydlu'n llwyddiannus. Mae'n bwysig ymgynghori â'r plentyn a'r rheini ar bryderon, materion meddygol ac amseru'r broses ddychwelyd i'r ysgol. Gellid cynnal cyfarfod rhwng staff allweddol fel yr athro dosbarth, y pennaeth blwyddyn, yr athro bugeiliol, yr athro gartref a/neu ysbyty a'r cynghorydd gyrfaedd er mwyn trafod yr achos. Gall ffrindiau a phlant a phobl ifanc eraill helpu plentyn i ymgartrefu yn yr ysgol eto. Dylid darparu cymorth ychwanegol pan ddaw'n amlwg pa waith sydd wedi'i golli - mae profion diagnostig yn ffordd dda o asesu unrhyw fylchau.

5.2 Mae cynnwys yr ysgol gartref gydol cyfnod y salwch yn helpu'r disgybl i ddychwelyd i'r ysgol. Mae cyswllt â chyd-ddisgyblion yn ystod absenoldeb, er enghraifft trwy gardiau, llythyrau, fideos a gwahoddiadau i ddigwyddiadau ysgol yr un mor bwysig â chyswllt ffurfiol.

5.3 I rai disgyblion, mae ailsefydlu'n debygol o fod yn broses raddol tros gyfnod o amser. Ar y dechrau bydd rhai plant a phobl ifanc yn elwa o drefniadau hyblyg fel mynychu'r ysgol yn rhan-amser a derbyn cymorth arall. Hwyrach y bydd angen darpariaeth wahanol ar rai disgyblion er mwyn eu galluogi i ymdopi â'u perthynas gyda chyd-ddisgyblion a'r amgylchedd ysgol cyn bod modd dychwelyd i'r ysgol yn raddol. Mae'n bosibl y bydd angen sicrhau bod cymorth yn parhau ar ôl i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol.

5.4 Mae gan ysgolion rôl allweddol o ran sicrhau ailsefydlu'n llwyddiannus. Dylai ysgolion roi sylw i:

- Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc sydd ag Anghenion Meddygol.

Absenoldebau Hirdymor

5.5 Os oes gan blant a phobl ifanc salwch fel canser neu gyflyrau eraill neu drawma sy'n arwain at absenoldeb hir o'r ysgol, neu os ydynt wedi cael niwed i'r ymennydd, rhaid sicrhau cysylltiadau da rhwng yr ysbyty, ysgol yr ysbyty, yr awdurdod lleol a'i ysgol. Dylai gwasanaethau ysbyty aciwt gydweithio'n agos â gwasanaethau iechyd cymunedol. Hwyrach y bydd yn ofynnol i bediatregydd y plentyn ofyn i'w gydweithwyr am gyngor ar faterion gwybyddol, emosiynol ac ymddygiadol a all effeithio ar ddysgu. Dylai'r pediatregydd gydweithio â'r swyddog meddygol penodedig i benderfynu pwy ddylai arwain a chydlynu cyngor i'r gwasanaethau addysg.

5.6 Mae problemau cyffredinol plentyn neu berson ifanc â niwed i'r ymennydd yn cynnwys nam ar y cof a'r gallu i ganolbwyntio, blinder, newid mewn personoliaeth a phroblemau ymddygiad. Hwyrach y bydd gan rai nam ar eu IQ neu IQ is. Ni fydd gan bob un â niwed i'r ymennydd anabledd corfforol, ac o ganlyniad, nid yw rhai pobl yn sylweddoli ei fod yn anabl. Gall y broses o atal ac ymyrryd ar gynnydd datblygiad arferol arwain at gadw rhai sgiliau ond colli eraill, gan arwain at broffiliau cymhleth ac anarferol. Er enghraifft, hwyrach y bydd oed darllen geiriau'r disgybl yn aros yn ddigyfnewid, ond ni fydd yn gallu datblygu ymhellach. Weithiau mae'n cymryd rhai blynyddoedd cyn i'r problemau ddod i'r amlwg.

5.7 Gall seicolegwyr addysg wneud cyfraniad allweddol, yn enwedig os yw'n ofynnol dechrau'r broses asesu statudol ar gyfer AAA pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn dal i fod yn yr ysbyty, er enghraifft, yn dilyn niwed i'r pen.

5.8 Gan eu bod yn addysgu plant a phobl ifanc mewn grwpiau llai, hwyrach y bydd Unedau Cyfeirio Disgyblion yn ganolfan bontio dda ar gyfer disgyblion ag anghenion meddygol cyn eu hailsefydlu yn yr ysgol. Mae rhai sy'n ymddangos yn ddigon bodlon i ddychwelyd

i'r ysgol yn mynd yn wael eto'n fuan ar ôl dychwelyd. O ganlyniad, rhaid i ysgolion fod yn hyblyg ynghylch materion fel amserlennu lle nad yw ailsefydlu'n broses syml.

5.9 O ran plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol hirdymor, dylid mynd ati i asesu eu sefyllfa a darparu cymorth strwythuredig gan y cartref a'r ysgol mewn cydweithrediad â'r ysbyty a'r gwasanaeth addysgu gartref ac asiantaethau eraill fel sy'n briodol, er mwyn eu helpu i ailsefydlu yn yr ysgol, lle bo hynny'n bosibl.

5.10 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod cynllun ailsefydlu pwrpasol unigol yn barod i bob plentyn a pherson ifanc cyn iddo ddychwelyd i'r ysgol. Dylai'r cynllun gael cymradwyaeth yr holl asiantaethau. Gall gynnwys:
 - manylion cyfarfodydd rheolaidd i drafod y posibilrwydd o ailsefydlu;
 - datganiad clir o gyfrifoldebau a hawliau pawb sy'n ymwneud â'r gwaith;
 - cysylltiadau cymdeithasol priodol - gan gynnwys mentoriaid o bosibl;
 - rhaglen o nodau bach a drafodwyd; a;
 - gweithdrefnau atodol ar gyfer ailsefydlu.

5.11 Lle bo ailsefydlu'n broses raddol a lle bo'r plentyn neu'r person ifanc ddim ond yn gallu mynychu'r ysgol yn rhan-amser oherwydd ei gyflwr meddygol, bydd cymorth addysgol ar gael o hyd i'w helpu i barhau â'i astudiaethau.

Rhyddhau Disgyblion o'r Ysbyty

5.12 Ar ôl rhyddhau disgybl o'r ysbyty, dylai athro'r ysbyty gysylltu â'r gwasanaeth addysgu gartref, yr ysgol neu wasanaeth addysgu'r ysbyty nesaf, fel sy'n briodol. Dylai athro'r ysbyty fod ar gael i roi cyngor, yn ôl y gofyn, ar newidiadau posibl i sgiliau iaith, cof a threfnu'r plentyn neu berson ifanc (a allai gael eu camddeall neu eu camreoli) ac ar ddulliau o drin y plentyn.

5.13 Mae'n hawdd i blant a phobl ifanc fynd ar goll yn y system, yn enwedig pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty i ddarpariaeth "y tu allan i'r sir". Yn yr achosion hyn mae hyd yn oed yn bwysicach sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng darpariaeth yr ysbyty, awdurdodau lleol ac ysgolion gartref.

5.14 Dylai ysbytai fynd ati'n syth i hysbysu pawb sy'n ymwneud ag addysg plentyn ei fod ar fin cael ei ryddhau, gan ddarparu gwybodaeth am ei lwyddiannau a'i gynnydd addysgol.

5.15 Yn aml iawn bydd gan ysbytai mawr sy'n ganolfannau rhanbarthol nyrs gyswllt sy'n gallu cynghori ysgol y plentyn ar sut i fynd ati orau i reoli'r broses ddychwelyd. Yn aml iawn, mae mynychu sesiwn wybodaeth fer gyda nyrs gyswllt yn galluogi athrawon heb unrhyw brofiad o ymdrin â chyflwr neu glefyd penodol i reoli ailsefydlu'n effeithiol. Gall hefyd hybu dealltwriaeth bod rhai mathau o salwch neu driniaeth yn gallu creu problemau neu anawsterau gwybyddol. Gall cyswllt â nyrs sy'n arbenigo yng nghyflwr penodol y plentyn fod yn fuddiol hefyd yn dilyn unrhyw gyfnod yn yr ysbyty.

Ar ôl Ailsefydlu

5.16 Weithiau mae'n hanfodol darparu gwasanaeth allgymorth i blentyn ar ôl ei ryddhau o'r ysbyty er mwyn ei atal rhag mynd yn wael eto.

5.17 Dylai athrawon ysbyty ac athrawon gartref fod yn ymwybodol o'u swyddogaeth wrth ailsefydlu plant a phobl ifanc yn yr ysgol cyn gynted â phosibl a dylai awdurdodau lleol sicrhau bod Swyddogion Lles Addysg yn deall eu swyddogaeth mewn perthynas â'r rhai ag anghenion meddygol.

5.18 Mae'n ddefnyddiol i'r awdurdod lleol holi ynghylch canlyniad y dilyniant i ailsefydlu - tasg weinyddol sy'n hanfodol er mwyn barnu effeithiolrwydd. Dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael yn lleol i ailsefydlu plentyn neu berson ifanc, nid yn unig gan asiantaethau iechyd a chyhoeddus eraill ond hefyd gan sefydliadau preifat a gwirfoddol.

Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol

5.19 Nid oes angen eithriadau ffurfiol gan Benaethiaid o dan Adran 114 o Ddeddf Addysg 2002 ac Offeryn Statudol 1999/1815 er mwyn awdurdodi gwyro oddi wrth y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n absennol o'r ysgol oherwydd salwch. Fodd bynnag, ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol, hwyrach y bydd yn ddefnyddiol i Benaethiaid ystyried, dan amgylchiadau arbennig ac am gyfnod byr o bosibl, (yn amodol ar weithdrefnau arferol y gyfraith ac ymgynghori ag athrawon), gwneud mwy o ddefnydd o'r hyblygrwydd a ddarperir gan y datganiad mynediad i'r Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn diwallu anghenion unigolion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

5.20 Mewn achosion priodol, mae'n ofynnol sicrhau ymhell ymlaen llaw bod athrawon ysbyty, athrawon gartref a'r ysgol yn cydweithredu. Mae cyhoeddiad ACCAC, *Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol*, yn rhoi canllawiau ar bob math o ddatgymhwyso.

Canllawiau ar Bolisiau Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer Cynorthwyo Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol

Dylai pob AAL gael datganiad polisi ysgrifenedig ar weithredu ei ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu addysg i blant a phobl ifanc sy'n methu mynychu'r ysgol oherwydd eu hanghenion meddygol. Dylai Cynllun Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod gyfeirio at y polisi hwn. Dylid sicrhau bod gan bawb fynediad i'r polisi. Dylai polisi awdurdod lleol gynnwys pob agwedd ar y trefniadau atgyfeirio. Dylai'r polisi fod yn glir a dylid sicrhau bod pob parti â buddiant yn cael gwybod amdano. Dylai polisi awdurdod lleol gynnwys holl agweddau darpariaeth yr awdurdod, yn yr ysbyty, gartref ac mewn llefydd eraill, gan nodi'n glir:

- Sut bydd yr awdurdod lleol yn cyrraedd safonau'r ddarpariaeth addysgol a nodir yn y canllaw hwn.
- Ystod a safon y ddarpariaeth addysgol a ddarperir.
- Sut y rhennir cyfrifoldeb am y gwasanaeth hwnnw rhwng ysgolion ac elfennau eraill, fel y gwasanaeth(au) addysgu yn yr ysbyty a gartref a Swyddogion Lles Addysg.
- Y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd plentyn neu berson ifanc yn absennol o'r ysgol o ganlyniad i anghenion meddygol, gan gynnwys gweithdrefnau i gynorthwyo.
 - nodi achosion mewn da bryd;
 - atgyfeiriadau meddygol;
 - cynlluniau addysg personol;
 - ailsefydlu yn yr ysgol;
 - plant a phobl ifanc yn gweithio tuag at arholiadau cyhoeddus.
- Gweithdrefnau clir sy'n sicrhau bod achosion o ddisgyblion sy'n gwrthod mynd i'r ysgol yn cael eu nodi yn gywir ac mewn da bryd, gan sicrhau mynediad, yn ôl yr angen, i wasanaethau iechyd meddwl arbenigol.
- Prif drefniadau ar gyfer cydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr awdurdod lleol lle mae'r ysbyty wedi'i lleoli ac ysbytai lleol a chenedlaethol, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd yn yr ysbyty yn parhau â'u haddysg.
- Cyllideb flynyddol, strwythur rheoli, trefniadaeth a gofynion staffio a hyfforddi'r gwasanaeth.

- Sut gall rhieni fynd ati i ddefnyddio'r gwasanaeth, a manylion y cyngor a'r cymorth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys enw swyddog cyswllt penodol.
- Sut bydd y gwasanaeth yn ystyried safbwynt y plentyn neu'r person ifanc.
- Sut bydd y gwasanaeth yn cael ei fonitro a'i werthuso; a
- Cysylltiadau â gwasanaethau eraill.

Canllawiau ar Bolisiau Ysgolion ar gyfer Cynorthwyo Plant a Phobl Ifanc â Gofynion Meddygol

Dylai pob ysgol gael polisi ysgrifenedig ar ddarparu addysg i blant a phobl ifanc ag anghenion meddygol (mae polisi enghreifftiol wedi'i gynnwys isod). Dylai'r polisi gynnwys gwybodaeth fel:

- Sut fydd yr ysgol yn sicrhau darpariaeth addysgol iddynt yn unol â'r hyn a nodir yn y canllaw hwn.
- Cyfrifoldeb yr ysgol i fonitro presenoldeb disgyblion a chadw cofrestr fel eu bod yn nodi a yw neu a ddylai plentyn neu berson ifanc fod yn cael ei addysg mewn lle heblaw mewn ysgol.
- Strwythurau rheoli a chyfrifoldebau staff.
- Strategaethau ar gyfer sicrhau bod disgyblion sy'n absennol am gyfnod hir yn derbyn cymorth, gan gynnwys darparu cynlluniau asesu a chwricwlwm mewn 5 diwrnod gwaith a rhaglenni gwaith bob tymor.
- Enw swyddog cyswllt penodol yn yr ysgol i gynorthwyo cyfathrebu â phartïon eraill, mynychu cyfarfodydd adolygu a hwyluso cyfathrebu cyffredinol rhwng y plentyn a'r person ifanc a'r ysgol.
- Darparu gwaith ac adnoddau i'r rhai sy'n absennol o'r ysgol oherwydd anghenion meddygol.
- Gweithdrefnau i sicrhau bod y rhai sy'n methu â mynychu'r ysgol oherwydd anghenion meddygol yn gallu sefyll arholiadau cyhoeddus, fel ymgeiswyr allanol o bosibl.
- Gweithdrefnau i sicrhau bod y rhai yn cael eu hailsefydlu yn yr ysgol yn effeithiol.
- Materion yn ymwneud â'r rhai â datganiadau anghenion addysgol arbennig.
- Sut bydd gweithdrefnau'r ysgol yn ystyried eu safbwyntiau.
- Swyddogaeth gwasanaeth iechyd yr ysgol, sef hwyluso asesiad da o'u hanghenion gofal iechyd, gan sicrhau bod modd eu helpu drwy waith tîm amlasiantaethol/amlddisgyblaethol effeithiol.
- A yw'r Pennaeth yn derbyn cyfrifoldeb, mewn egwyddor, am staff ysgol sy'n rhoi meddyginiaeth bresgripsiwn i blant a phobl ifanc, neu'n goruchwyllo'r broses yn yr ysgol.
- Yr amgylchiadau lle mae'n dderbyniol iddynt gymryd meddyginiaeth ddi-bresgripsiwn e.e. cyffur lleddfu poen (poenlinarydd).

- Polisi'r ysgol ar gynorthwyo plant a phobl ifanc sydd ag anghenion meddygol hirdymor neu gymhleth.
- Yr angen i sicrhau cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan rieni neu warcheidwaid ar gyfer unrhyw feddyginiaeth i'w rhoi i blentyn, boed ar bresgripsiwn neu'n ddi-bresgripsiwn. Polisi ar y rhai sy'n cario a chymryd eu meddyginiaeth.
- Hyfforddi staff i ymdrin ag anghenion meddygol.
- Cadw cofnodion.
- Storio a mynediad i feddyginiaeth; a.
- Gweithdrefnau brys yr ysgol.

Dylid adolygu'r datganiad polisi bob blwyddyn, ei ddiwygio yn ôl yr angen a'i ddefnyddio i wella darpariaeth. Hwyrach y bydd ysgolion yn awyddus, er enghraifft, i gynnwys adroddiad ar weithredu eu polisi ar blant a phobl ifanc ag anghenion meddygol yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr, ochr yn ochr â gwybodaeth am bolisi'r ysgol ar ddarparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac unrhyw newidiadau i'r polisi yn y flwyddyn ddiwethaf.

Polisi ysgol enghreifftiol ar gyfer Addysgu Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol

Enw'r ysgol:

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn wedi'i lunio mewn ymateb i'r canllawiau a nodir yng nghylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Mynediad i Addysg a Chymorth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol (2007)".

Bydd yr ysgol yn parhau i fod yn gyfrifol am bob disgybl nad yw'n gallu mynychu'r ysgol am resymau meddygol a dylent allu cael mynediad i addysg heb stigma ac ni ddylid eu hallgáu.

Gall y polisi hwn fod yn berthnasol i blant a phobl ifanc:

- sy'n gwella o salwch neu anaf sy'n peri iddynt fod yn absennol o'r ysgol;
- sydd â salwch hirdymor neu salwch sy'n dychwelyd yn gyson; a;
- sydd â salwch neu anhwylder iechyd meddwl a ddiffinnir yn glinigol sy'n achosi absenoldeb am gyfnod o fwy na 15 diwrnod lle mae'r farn feddygol yn datgan eu bod yn parhau i fethu mynychu'r ysgol brif ffrwd.

2. Nod

Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn ein hysgol yn parhau i gael mynediad i gymaint o addysg â phosibl ar sail eu cyflwr meddygol fel bod momentwm eu haddysg a'u hastudiaethau yn parhau. Bydd natur y ddarpariaeth yn ymatebol i ofynion cyfnewidiol cyflyrau unigol.

3. Cyfrifoldebau

Mae'r ysgol yn dynodi person penodedig i fod yn gyfrifol am addysg plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol, a'i waith yw hwyluso cyfathrebu â phob parti gan sicrhau bod yr ysgol yn diwallu anghenion yr holl rai a nodwyd. Os yw'r pennaeth yn derbyn cyfrifoldeb, mewn egwyddor, am staff yr ysgol sy'n rhoi neu'n goruchwyllo plant a phobl ifanc sy'n cymryd meddyginiaeth

ar bresgripsiwn, dylent sicrhau eu bod yn cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw am unrhyw feddyginiaeth a roddir.

Bydd y meysydd cyfrifoldeb cyffredinol yn cynnwys:

- cadw rhestr o blant a phobl ifanc â chyflwr meddygol yn yr ysgol.
- sicrhau bod yr ysgol yn parhau i gysylltu â phlant a phobl ifanc (a'u teuluoedd) sy'n absennol o'r ysgol oherwydd salwch am gyfnod o lai na 15 diwrnod gwaith, gan osod gwaith os yw'n ddigon iach i'w wneud, anfon cylchlythyrau ac ati, croesawu disgyblion yn ôl i'r ysgol, sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'i sefyllfa feddygol ddiweddaraf, sicrhau bod unrhyw newidiadau i adeiladau neu i'r cwricwlwm yn cael eu cyflawni a pharhau i fonitro ei sefyllfa a'i anghenion yn yr ysgol.
- hysbysu'r Swyddog Lles Addysg o bob mater yn ymwneud â phresenoldeb plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol corfforol neu feddyliol.
- sicrhau bod cofrestr yr ysgol yn cael ei chadw yn briodol.
- cadw cysylltiad â'r nyrs ysgol.
- hysbysu'r Tîm Anghenion Meddygol os yw plentyn neu berson ifanc yn absennol o'r ysgol (neu'n debygol o fod yn absennol) oherwydd anghenion meddygol am fwy na 15 diwrnod gwaith. Mae hyn yn cynnwys y rhai â salwch sy'n dychwelyd yn rheolaidd; a
- sicrhau bod yr ysgol yn parhau i gysylltu'n agos â hwy (a'u teulu) a bod trefniadau ar waith ar gyfer gosod a marcio gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer disgyblion y trefnir rhaglen gymorth ar eu cyfer.
- polisi'r ysgol ar gynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol hirdymor neu gymhleth.

4. Atgyfeirio Disgyblion i'r Tîm Anghenion Meddygol

Mae angen gweithredu mewn achosion lle bydd plant yn absennol o'r ysgol am 15 diwrnod gwaith.

Rhoddir darpariaeth addysgol ar waith mewn cydweithrediad â'r gwasanaeth sy'n darparu'r addysg amgen.

Bydd yr ysgol yn cynnal, cadeirio a chofnodi cyfarfod cynllunio.

Bydd y swyddog cyswllt a enwir gan yr ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol yn gyfrifol am:

- sicrhau bod ffurflenni atgyfeirio Anghenion Meddygol (ffurflenni Cais i Gyfrannu a Chais am Wybodaeth Feddygol) yn cael eu llenwi a'u trosglwyddo i'r asiantaethau perthnasol cyn gynted â phosibl.
- llunio Cynllun Addysg Unigol (CAU) a sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc wedi cyrraedd cam Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn unol â'r Cod Ymarfer AAA.
- trefnu i aelod o staff yr ysgol fynychu cyfarfod cychwynnol gyda'r tîm Anghenion Meddygol i gynllunio ffordd ymlaen.
- sicrhau bod cyfarfodydd adolygu yn cael eu cynnal bob hanner tymor.
- sicrhau bod gwybodaeth am alluoedd y plentyn neu'r person ifanc, rhaglenni gwaith ac adnoddau yn cael ei darparu'n brydlon (yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r Tîm Anghenion Meddygol). Bydd y gwaith a ddarperir gan yr ysgol yn berthnasol, yn briodol ac o lefel sy'n cymharu â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn yr ysgol gan ddisgyblion yn yr un set/grŵp.
- trosglwyddo manylion anghenion addysgol arbennig y plentyn neu'r person ifanc a chopi o'r CAU cyfredol.
- sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n methu mynychu'r ysgol oherwydd anghenion meddygol yn cael gwybodaeth am nosweithiau rhieni ac yn gallu cymryd rhan, er enghraifft, mewn clybiau gwaith cartref, cymorth astudio a gweithgareddau eraill.
- annog a hwyluso cydweithio â chymheiriaid - er enghraifft, trwy ymweliadau, negeseuon e-bost, llythyrau a galwadau ffôn; a
- sicrhau bod mynediad i asesu statudol, gan gynnwys canllawiau ar gwblhau gwaith cwrs addas, ar gael i bob plentyn neu berson ifanc y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddo. Bydd yr ysgol hefyd yn gyfrifol am ofyn am drefniadau arbennig, yn ôl yr angen.

5. Rhieni/Gofalwyr a Phlant a Phobl Ifanc

Dylai'r polisi cynnwys paragraff yn nodi sut bydd yr ysgol yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr a'r plentyn neu'r person ifanc unigol. Bydd angen amlinellu sut bydd rhieni yn dod yn bartneriaid llawn yn

y broses gydweithio a sut byddant yn cael mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth yn ystod salwch eu plentyn. Dylid ystyried unrhyw gyfleoedd i alluogi'r plentyn unigol i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau a dewisiadau. Dylid cael polisi ar blant a phobl ifanc yn cludo eu meddyginiaeth eu hunain hefyd.

6. Ailsefydlu

Bydd gan yr ysgol gyfraniad allweddol i'w wneud wrth sicrhau ailsefydlu llwyddiannus, gan fynd ati i weithio gyda phob asiantaeth i hwyluso'r broses a chael cyd-ddisgyblion i helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ailsefydlu. Dylai'r cynllun gael ei gymeradwyo gan yr holl asiantaethau bob amser.

7. Cynnwys Llywodraethwyr

Dylid cynnwys datganiad byr ar gyfraniad Llywodraethwyr a monitro'r polisi hwn.

8. Trefniadau Brys

Dylid nodi gweithdrefnau brys yr ysgol yn glir.

9. Crynodeb

Bydd polisi'r ysgol ar addysgu plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol yn rhan o'r polisi Cynhwysiant neu'r polisi AAA, a bydd yn cael ei gynnwys yn y prospectws.

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob blwyddyn.

Cyngor Meddygol ar Gyflyrau Cyffredin

Y cyflyrau meddygol mewn plant a phobl ifanc sy'n achosi pryder mewn ysgolion a lleoliadau gan amlaf yw asthma, diabetes, epilepsi ac adwaith alergaidd difrifol (anaphylaxis). Mae'r bennod hon yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am y cyflyrau hyn, ond nid yw'n ddigon eang i ddarparu cyngor meddygol manylach ac mae'n bwysig bod anghenion plant yn cael eu hasesu ar sail unigol.

Mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys cyngor ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn benodol, ar gael gan yr elusennau a restrir yn Atodiad 5.

ASTHMA - Beth yw Asthma?

Mae gan un plentyn a pherson ifanc o bob deg yn y DU asthma. Symptomau mwyaf cyffredin asthma yw pesychu, sŵn gwichian neu chwibanu yn y frest, y frest yn teimlo'n dynn neu brinder anadl. Mae'n bosibl y bydd plant bach yn dweud bod ganddynt boen bol neu yn cymharu'r teimlad â rhywun yn eistedd ar eu brest. Ni fydd pawb yn datblygu pob un o'r symptomau hyn, a hwyrach y bydd rhai plant ond yn cael symptomau o dro i dro.

Mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, mae'n bosibl na fydd staff yn gallu dibynnu ar allu plant bach i wybod neu ddweud pan fydd eu symptomau'n gwaethygu, neu pa feddyginiaethau y dylent eu cymryd a phryd i wneud hynny. Mae'n hollbwysig bod staff blynyddoedd cynnar a chynradd, sydd â phlant ieuengach yn eu dosbarth, yn adnabod yr arwyddion pan fydd symptomau'n gwaethygu a beth i'w wneud i blant ag asthma pan fydd hyn yn digwydd. Dylid ychwanegu at hyn drwy ddarparu cynlluniau asthma ysgrifenedig, hyfforddiant rheolaidd a chymorth i staff a chardiau asthma'r ysgol (a ddarperir gan rieni). Dylai plant sydd ag asthma cymedrol gael cynllun gofal iechyd unigol.

Meddyginiaeth a Rheolaeth

Defnyddir dwy brif feddyginiaeth i drin asthma, lliniarwyr (*relievers*) ac atalwyr (*preventers*). Gan amlaf, bydd angen i blentyn ddefnyddio lliniarydd yn unig yn yr ysgol. Mae lliniarwyr (anadlwyr glas) yn feddyginiaethau i'w cymryd yn syth i leddfu symptomau asthma yn ystod pwl o asthma. Weithiau bydd defnyddwyr yn eu cymryd cyn ymarfer corff. Gan amlaf, defnyddir atalwyr (anadlwyr brown, coch, oren, neu dabledi weithiau) y tu allan i oriau ysgol.

Rhaid i blant a phobl ifanc sydd ag asthma gael mynediad uniongyrchol i'w hanadlwyr lliniaru pryd bynnag y mae arnynt eu hangen. Fel arfer mae lliniarwyr yn cynnwys meddyginiaethau asthma.

Gellir defnyddio dyfais wahanu gyda'r anadlydd, yn enwedig ar gyfer plentyn ifanc, a hwyrach y bydd angen helpu'r plentyn i'w defnyddio. Mae'n arfer da eu helpu i fod yn gyfrifol am eu hanadlwyr a'u defnyddio o oedran cynnar, ac mae llawer ohonynt yn gwneud hyn.

Dylai plant a phobl ifanc sy'n gallu defnyddio eu hanadlwyr eu hunain gael caniatâd i'w cario. Os yw'r plentyn yn rhy ifanc neu anaeddfed i fod yn gyfrifol am ei anadlydd, dylai staff gadw'r anadlydd mewn lle diogel ond hygyrch a sicrhau bod enw'r plentyn arno. Dylid sicrhau bod anadlwyr ar gael yn ystod ymarfer corff, gweithgareddau chwaraeon ac ymweliadau addysgol.

Mae'n bosibl y bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn rhagnodi anadlydd ychwanegol i'w gadw yn yr ysgol neu'r lleoliad ar gyfer plentyn ag asthma difrifol.

Mae symptomau pwl o asthma yn cynnwys:

- pesychu;
- prinder anadl;
- gwichian wrth anadlu;
- y frest yn teimlo'n dynn; a
- bod yn anarferol o dawel.

Pan fydd plentyn yn cael pwl dylid ei drin yn unol â'i gynllun gofal iechyd unigol neu gerdyn asthma unigol fel y cytunwyd ymlaen llaw. Dylid ffonio am ambiwlans a'r rhieni os:

- nad yw'r symptomau'n gwella'n foddhaol ymhen 5-10 munud;
- nad oes gan y plentyn ddigon o anadl i siarad;
- yw'r plentyn yn mynd yn wannach; ac;
- yw'r plentyn yn troi'n las.

Mae'n bwysig cytuno â rhieni plant sydd ag asthma sut i adnabod pan fydd symptomau asthma eu plentyn yn gwaethygu a pha gamau y dylid eu cymryd. Mae Cerdyn Asthma'r Ysgol (ar gael gan Asthma UK) yn ffordd dda o gofnodi gwybodaeth ysgrifenedig am asthma'r plentyn, a dylai cynnwys manylion am feddyginiaethau asthma, y pethau sy'n achosi'r asthma, symptomau unigol a rhifau cyswllt brys y rhiant a meddyg y plentyn. Dylid rhoi gwybod i'r rhieni pan fydd eu plentyn wedi cael neu wedi cymryd eu hanadlydd yn ystod y dydd yn yr ysgol.

Dylai plentyn sydd ag asthma gael adolygiad rheolaidd gyda'i feddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol arall. Dylai rhieni'r plentyn drefnu'r adolygiad a sicrhau bod copi o'r cynllun rheoli ar gyfer y plentyn ar gael ar gyfer yr ysgol neu'r lleoliad. Dylai plant a phobl ifanc gario anadlydd lliniaru yn yr ysgol neu mewn lleoliad.

Dylai plant a phobl ifanc sydd ag asthma gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol neu'r lleoliad, gan gynnwys gweithgareddau corfforol. Dylent fynd â'u hanadlwyr lliniaru gyda nhw yn ystod pob gweithgaredd oddi ar y safle. Mae gweithgarwch corfforol yn llesol i blant a phobl ifanc sydd ag asthma, fel sy'n wir am bob plentyn a pherson ifanc. Mae rhai gweithgareddau'n fwy tebygol o arwain at asthma. Mae'n bosibl y bydd angen i rai plant a phobl ifanc gymryd eu meddyginiaeth lliniaru asthma cyn gwneud unrhyw ymarfer corff. Mae gweithgareddau cynhesu yn hanfodol cyn unrhyw weithgarwch disymwth, yn enwedig yn ystod tywydd oer. Hwyrach y bydd angen cymryd gofal arbennig yn ystod tywydd oer neu wlyb.

Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn amharod i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, dylid trafod y mater gyda rhieni, staff a'r plentyn. Ni ddylid gorfodi plant a phobl ifanc ag asthma i gymryd rhan os ydynt yn teimlo'n sâl. Dylid annog plant a phobl ifanc i adnabod pan fydd eu symptomau'n amharu ar eu gallu i gymryd rhan.

Mae'n bosibl na fydd plant a phobl ifanc ag asthma yn mynychu'r ysgol ar adegau oherwydd eu cyflwr, a hwyrach y bydd symptomau yn ystod y nos yn amharu ar eu cwsg. Gall hyn effeithio ar eu gallu i ganolbwyntio. Dylid trafod materion o'r fath gyda rhieni'r plentyn neu swyddogion presenoldeb fel sy'n briodol.

Dylai pob ysgol a lleoliad gael polisi asthma sy'n rhan annatod o bolisi'r ysgol gyfan neu'r lleoliad ar feddyginiaethau ac anghenion meddygol. Dylai'r adran asthma gynnwys gwybodaeth allweddol a nodi camau penodol i'w cymryd (mae polisi enghreifftiol ar gael gan Asthma UK). Dylai amgylchedd yr ysgol fod yn ystyriol o blant a phobl ifanc ag asthma drwy ddileu cymaint o ffactorau â phosibl â'r potensial i achosi asthma.

Dylai pob aelod o staff, yn enwedig athrawon Ymarfer Corff, dderbyn hyfforddiant neu wybodaeth am asthma unwaith y flwyddyn. Dylai hyn eu cynorthwyo i deimlo'n hyderus am adnabod symptomau asthma, gwybod am feddyginiaethau asthma a'r dulliau o'u cymryd a'r hyn y dylid ei wneud os yw plentyn yn cael pwl o asthma.

EPILEPSI - Beth yw Epilepsi?

Mae plant a phobl ifanc ag epilepsi yn cael ffitiau rheolaidd sy'n dechrau yn yr ymennydd. Gall ffit epileptig, a ddisgrifir weithiau fel pwl neu lewyg, ddigwydd i unrhyw un ar unrhyw adeg.

Gall ffitiau ddigwydd am lawer o resymau. Mae o leiaf un o bob 200 o blant ag epilepsi ac mae tua 80 y cant ohonynt yn mynychu ysgolion prif ffrwd. Nid yw'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ag epilepsi byth yn cael ffit yn yr ysgol. Mae epilepsi yn gyflwr unigol iawn.

Gall ffitiau amlygu eu hunain mewn sawl ffordd wahanol a gellir defnyddio amrywiaeth eang o dermau i ddisgrifio patrwm ffitiau plant a phobl ifanc unigol. Dylai rhieni a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddarparu gwybodaeth i ysgolion, i'w chynnwys yn y cynllun gofal iechyd unigol, yn nodi patrwm penodol epilepsi'r plentyn unigol. Os yw plentyn yn cael ffit mewn ysgol neu leoliad, dylid cofnodi'r manylion a hysbysu'r rhieni. Dylai'r manylion gynnwys unrhyw ffactorau a allai fod wedi achosi'r ffit - e.e. symbyliad gweledol/clywedol, emosiwn (pryder, gofid) ac unrhyw 'deimladau' anarferol a nododd y plentyn cyn y ffit, unrhyw ran o'r corff yn dangos nodweddion ffit e.e. rhan o'r corff neu un o gyhyrau'r wyneb, amseriad y ffit - pryd ddigwyddodd ac am faint a barodd, a oedd y plentyn yn anymwybodol ac a wnaeth e wlychu/baeddu ei hun. Bydd hyn yn helpu rhieni i roi gwybodaeth fwy cywir am ffitiau a pha mor aml mae ffitiau'n digwydd i arbenigwr y plentyn.

Mae'r hyn sy'n digwydd i'r plentyn yn dibynnu ar effaith y ffit ar yr ymennydd - ai'r ymennydd cyfan neu ran ohono yn unig. Nid yw pob ffit yn arwain at blentyn yn mynd yn anymwybodol. Os mai rhan yn unig o'r ymennydd sy'n cael ei effeithio, bydd plentyn yn aros yn ymwybodol a bydd ei symptomau'n amrywio o symudiadau herciog mewn rhan benodol o'i gorff i flas rhyfedd yn ei geg neu deimladau rhyfedd fel pinnau bach. Os yw plentyn wedi mynd yn anymwybodol, gall ymddangos yn ddryslyd a gall grwydro o gwmpas heb fod yn ymwybodol o'i amgylchiadau. Gall hefyd ddechrau ymddwyn yn rhyfedd, gan afael mewn dillad, chwarae gyda gwrthrychau neu wneud synau mwmian a symudiadau cnoi. Hwyrach na fydd plentyn yn ymateb os oes rhywun yn siarad ag ef. Mae'n bosibl y bydd yn anghofio popeth am y ffit wedyn, neu'n cofio ychydig bach yn unig.

Mewn rhai achosion, mae ffitiau yn effeithio ar yr ymennydd cyfan ac mae'r plentyn yn mynd yn anymwybodol. Gall ffitiau o'r fath ddechrau gyda'r plentyn yn gweiddi a'r cyhyrau'n mynd yn stiff ac yn dynn. Mae'n bosibl y bydd y plentyn yn syrthio. Dilynir hyn gan symudiadau herciog wrth i gyhyrau'r plentyn ymlacio a thynhau'n rhythmig. Yn ystod ffit mae'n bosibl y bydd y plentyn yn ei chael hi'n anodd anadlu a gall ei liw newid i las golau neu lwyd o gwmpas y geg. Gall rhai plant frathu eu tafod neu eu boch a gall rhai wlychu eu hunain. Ar ôl cael ffit, gall plentyn deimlo'n flinedig ac yn ddryslyd a hwyrach y bydd ganddo gur pen. Bydd angen rhoi amser iddo orffwys neu gysgu. Mae'r amser sydd ei angen ar blentyn i wella yn amrywio - bydd rhai plant yn teimlo'n well ar ôl ychydig o funudau ond bydd angen i eraill gysgu am rai oriau.

Mae ffit o fath gwahanol sy'n effeithio ar yr ymennydd cyfan ac sy'n arwain at blentyn yn mynd yn anymwybodol am ychydig eiliadau. Gall y plentyn sylu'n wag, gan agor a chau ei amrannau'n gyflym. Gall ffit o'r fath ddigwydd mor sydyn fel nad oes modd sylwi arno. Mae'n bosibl y bydd yr athro yn meddwl bod y plentyn â'i ben yn y cymylau neu nad yw'n canolbwyntio yn yr ystafell ddosbarth. Os yw plentyn yn cael ffitiau o'r fath yn rheolaidd, gall effeithio ar ei berfformiad academiaidd.

Meddyginiaeth a Rheolaeth

Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ag epilepsi yn cymryd meddyginiaethau gwrth epileptig i atal neu leihau eu ffitiau. Ni ddylai fod angen rhoi meddyginiaeth yn rheolaidd yn yr ysgol.

Gall ffactorau fel pryder, straen, blinder neu deimlo'n sâl gynyddu'r posibilrwydd y bydd plentyn yn cael ffit. Gall goleuadau sy'n fflachio a rhai ffurfiau neu batrymau geometrig achosi ffitiau hefyd. Enw hwn yw goleusensitifedd ac mae'n gyflwr prin iawn. Gall y rhan fwyaf o blant ag epilepsi arnynt ddefnyddio cyfrifiaduron a gwyllo'r teledu heb unrhyw drafferth.

Dylid cynnwys plant a phobl ifanc ag epilepsi ym mhob gweithgaredd. Mae'n bosibl y bydd angen bod yn fwy gofalus mewn rhai meysydd megis nofio neu weithio mewn labordai gwyddoniaeth. Dylid trafod unrhyw bryderon am ddiogelwch gyda'r plentyn a'r rhieni fel rhan o gynllun gofal iechyd.

Pan fydd plentyn yn cael ffit mae'n bwysig sicrhau ei fod mewn safle diogel. Dylid osgoi cyfyngu ar ei symudiadau neu geisio ymyrryd pan fydd yn cael y ffit. Pan fydd plentyn yn cael ffit afreolus, dylid rhoi rhywbeth o dan ei ben i helpu i'w ddiogelu. Ni ddylid rhoi dim byd yng ngheg y plentyn. Pan ddaw ffit afreolus i ben, dylid rhoi'r plentyn yn yr ystum adfer a sicrhau bod rhywun yn aros gydag ef nes ei fod wedi gwella'n llwyr.

Dylid ffonio am ambiwlans yn ystod ffit afreolus os:

- yw'r plentyn yn cael ffit afreolus am y tro cyntaf;
- yw'r plentyn wedi cael cymaint o niwed fel ei fod yn ei chael hi'n anodd anadlu ar ôl y ffit;
- yw'r ffit yn para am gyfnod hirach na'r hyn a nodir yng nghynllun gofal iechyd y plentyn;
- yw'r ffit yn para pum munud;
- nad ydych chi'n siŵr am faint mae ffitiau'r plentyn yn para fel arfer; ac
- yw'r plentyn yn cael sawl ffit, oni bai bod cynllun gofal iechyd y plentyn yn nodi bod hynny'n arferol.

Dylai gwybodaeth o'r fath fod yn rhan annatod o weithdrefnau brys yr ysgol neu'r lleoliad, ond dylai hefyd gyfeirio'n benodol at gynllun gofal iechyd unigol y plentyn. Dylai'r cynllun gofal iechyd nodi'r math neu'r mathau o ffitiau y mae'r plentyn yn eu cael, gan gynnwys disgrifiad o'r ffit, ffactorau posibl sy'n eu hachosi ac a fydd angen ymyrraeth frys.

Mae'r rhan fwyaf o ffitiau'n para ychydig eiliadau neu funudau, ac yn dod i ben heb i neb ymyrryd. Gellir rhagnodi diazepam i rai plant sy'n cael ffitiau hirach, i'w weinyddu drwy'r rectwm. Mae hyn yn driniaeth frys effeithiol ar gyfer ffitiau hir. Dylai'r nyrs epilepsi neu bediatregydd roi canllawiau ar yr adeg gywir i weinyddu'r cyffur a'r rhesymau dros wneud hynny.

Mae angen hyfforddiant ym maes gweinyddu diazepam drwy'r rectwm, a bydd gwasanaethau iechyd lleol yn gallu darparu hyn. Mae'n bwysig aros gyda'r plentyn wedyn am fod diazepam yn gallu achosi blinder. Os yw'n briodol yn glinigol, gellir rhagnodi'r hylif, midazolam, i'w gymryd drwy'r geg neu'r trwyn yn lle gweinyddu diazepam drwy'r rectwm. Rhaid i'r meddyg sy'n rhagnodi'r feddyginiaeth ddarparu cyfarwyddiadau ar gyfer ei ddefnyddio. Am fwy o wybodaeth am weinyddu diazepam drwy'r rectwm, gweler Ffurflen 9.

Bydd oedran, cefndir ac ethnigrwydd plant a phobl ifanc sydd angen cymryd diazepam drwy'r rectwm yn amrywio, felly hefyd lefel eu hanghenion, eu galluoedd a'u sgiliau cyfathrebu.

Os oes modd trefnu i ddau oedolyn, o leiaf un o'r un rhyw â'r plentyn, fod yn bresennol ar gyfer triniaeth o'r fath, mae'r potensial ar gyfer cyhuddiadau o gam-drin yn cael ei leihau. Mae hefyd yn haws yn ymarferol i ddau oedolyn roi triniaeth o'r fath. Dylai staff geisio sicrhau urddas y disgybl i'r graddau y mae hynny'n bosibl, hyd yn oed yn ystod argyfwng.

DIABETES - Beth yw Diabetes?

Mae diabetes yn gyflwr lle mae lefel y glwcos yn y gwaed yn codi. Mae hyn yn digwydd naill ai oherwydd diffyg inswlin (diabetes Math 1) neu oherwydd nad oes digon o inswlin ar gyfer anghenion y plentyn neu nad yw'r inswlin yn gweithio'n iawn (diabetes Math 2).

Mae diabetes ar tua 1,300 o blant yng Nghymru. Mae gan tua 97% o'r rhain ddiabetes Math 1, sy'n golygu eu bod yn hollol ddibynnol ar bigidau inswlin i fyw. Mae gan ychydig o blant ddiabetes Math 2 a mathau mwy prin o'r cyflwr, ac mae'r achosion o ddiabetes Math 1 a 2 wedi bod yn codi ers nifer o flynyddoedd.

Gall symptomau diabetes amrywio o blentyn i blentyn, a dylid trafod hyn wrth lunio'r cynllun gofal iechyd. Gall yr angen i fynd i'r toiled neu yfed yn amlach, blinder a cholli pwysau fod yn arwydd o reoli diabetes yn wael, ac yn naturiol, bydd staff yn awyddus i dynnu sylw rhieni at unrhyw arwyddion o'r fath.

Meddyginiaeth a Rheolaeth

Caiff lefelau glwcos y gwaed y mwyafrif o blant â diabetes eu rheoli drwy chwistrellu inswlin bob dydd. Bydd rhai plant yn cael inswlin sy'n para'n hirach ddwywaith y dydd ac mae'n annhebygol y bydd angen iddynt ei gymryd yn ystod oriau ysgol. Fodd bynnag, mae mwy o blant â diabetes yn symud i drefn o roi sawl pigiad dyddiol (MD1) er mwyn sefydlogi eu diabetes, a bydd ar blant o'r fath angen pigladau yn ystod oriau ysgol yn aml. Yn achos plant iau, efallai y bydd angen i oedolyn roi'r pigiad. Gall rhai plant reoli eu diabetes trwy ddefnyddio pwmp inswlin, ac mae hon yn driniaeth sy'n dod yn fwy cyffredin ar gyfer plant sy'n gorfod cael sawl pigiad y dydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn gallu rheoli eu pigladau eu hunain, ond os oes rhaid iddynt gymryd dos yn yr ysgol, mae'n bosibl y bydd angen eu goruchwyllo. Mae angen neilltuo lle addas, preifat iddynt wneud hynny.

Mae plant hŷn yn cael eu haddysgu fwyfwy y dyddiau hyn i gyfrif faint o garbohydradau y maent wedi'u cymryd a newid lefel eu hinswlin ar sail hynny. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael dos ddyddiol o inswlin sy'n para'n hir gartref, cyn mynd i'r gwely gan

amlaf. Yn ogystal, maent yn cael inswlin gyda'u brecwast, cinio a'u pryd min nos, a chyn byrbrydau sylweddol. Addysgir y plentyn faint o inswlin i'w gymryd gyda phob pryd bwyd, yn dibynnu ar faint o garbohydradau y mae wedi'u bwyta. Mae'n bosibl y bydd angen i'r plentyn brofi ei siwgr gwaed cyn bwyta a phenderfynu faint o inswlin i'w gymryd. Byddai arbenigwyr diabetes ond yn argymhell trefn o'r fath pe byddent yn hyderus bod plentyn yn ddigon aeddfed i'w gweithredu.

Mae angen i blant sydd â diabetes sicrhau bod lefelau glwcos eu gwaed yn aros yn sefydlog, a gallant wirio eu lefelau drwy gymryd sampl o ychydig o waed a defnyddio monitor bach yn rheolaidd. Mae'n bosibl y bydd angen iddynt wneud hyn yn ystod amser cinio yn yr ysgol, cyn ymarfer corff neu'n fwy rheolaidd os oes angen newid lefel eu hinswlin. Bydd y rhan fwyaf o blant hŷn yn gallu gwneud hyn eu hunain, a'r cwbl fydd ei angen arnynt yw lle addas. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen i oedolyn oruchwyllo plentyn ieuengach i wneud y prawf a/neu ddehongli canlyniadau'r prawf.

Pan fydd staff yn cytuno i weinyddu profion glwcos gwaed neu bigiadau inswlin, dylid sicrhau eu bod yn cael eu hyfforddi gan weithiwr iechyd proffesiynol priodol.

Rhaid caniatáu i blant a phobl ifanc â diabetes fwyta'n rheolaidd yn ystod y dydd. Gall hyn gynnwys bwyta byrbrydau yn y dosbarth neu cyn ymarfer corff. Mae'n bosibl y bydd rhaid i ysgolion wneud trefniadau arbennig iddynt os cynhelir amser cinio'r ysgol ar gyfnodau gwahanol.

Gall y plentyn neu'r person ifanc gael ymosodiad os yw'n methu pryd bwyd neu fyrbryd, neu'n dilyn gweithgaredd egniol, hypoglycemia (hypo) a bydd lefelau glwcos ei waed yn mynd yn rhy isel. Dylai staff sy'n gyfrifol am addysg gorfforol neu sesiynau gweithgarwch corfforol eraill fod yn ymwybodol o'r angenid dynt fod â thabledi glwcos neu ddiod yn cynnwys llawer o siwgr wrth law.

Dylai staff fod yn ymwybodol y gall y symptomau canlynol, boed yn unigol neu'n gyfuniad ohonynt, fod yn arwydd o siwgr gwaed isel - yn adwaith hypoglycemig (hypo) mewn plentyn â diabetes arno:

- chwant bwyd;
- chwysu;

- blinder;
- gwelwedd;
- llygaid difynegiant;
- crynu;
- diffyg canolbwyntio;
- aflonyddwch;
- cur pen; a
- tymer yn newid, yn enwedig ymddygiad cas neu ymosodol.

Gall symptomau bob plentyn fod yn wahanol a dylid trafod hyn wrth lunio cynllun gofal iechyd.

Os yw plentyn yn cael hypo, mae'n bwysig iawn bod rhywun yn aros gydag ef a'i fod yn derbyn siwgr sy'n cael effaith yn gyflym, fel y ceir mewn tabledi glwcos, gel sy'n cynnwys llawer o glwcos, neu ddiod sy'n cynnwys llawer o siwgr. Dylid rhoi bwydydd startsh sy'n cael effaith arafach, fel brechdan neu ddwy fisgeden a gwydraid o laeth i'r plentyn ar ôl iddo wella tua 10-15 munud yn ddiweddarach.

Dylid ffonio am ambiwlans os:

- nad yw'r plentyn wedi gwella ar ôl 10-15 munud; a/neu
- fod y plentyn yn mynd yn anymwybodol.

Os yw'r plentyn yn sâl, yn chwydu neu'n dioddef dolur rhydd, gall hyn arwain at ddiffyg hylif. Os oes arogl pêrs melys (pear drops) neu aseton yn dod o'r plentyn, gall fod yn arwydd o getosis a diffyg hylif a bydd angen sylw meddygol brys ar y plentyn.

Dylai gwybodaeth o'r fath fod yn rhan annatod o weithdrefnau brys yr ysgol neu'r lleoliad ond dylai hefyd fod yn berthnasol i gynllun gofal iechyd unigol y plentyn. Gall ysgolion alw ar nyrsys arbenigol diabetes pediatri (PDSNs) am gymorth a chyngor ymarferol.

ANAFFYLACISIS - Beth yw Anaffylacisis?

Adwaith alergaidd aciwt, difrifol yw anaffylacisis sy'n gofyn am sylw meddygol yn syth. Fel arfer mae'n digwydd rhai eiliadau neu funudau ar ôl cysylltiad â bwyd neu sylwedd penodol, ond ar adegau prin, gall ddigwydd rhai oriau wedyn.

Mae achosion cyffredin yn cynnwys cnau mwnci, cnau coed, sesame, wyau, llaeth buwch, pysgod, rhai ffrwythau fel ffrwyth ciwi, penisilin, latecs a gwenwyn pryfed sy'n pigo (fel gwenyn, cacwn neu gacwn meirch).

Y math mwyaf difrifol o adwaith alergaidd yw sioc anaffylactig, pan fydd y pwysedd gwaed yn disgyn yn ddramatig a'r claf yn mynd yn anymwybodol. Yn ffodus mae hyn yn brin ymysg plant ifanc nad ydynt wedi cyrraedd eu harddegau. Y symptomau mwy cyffredin ymysg plant yw'r gwddf yn chwyddo, a all gyfyngu ar y cyflenwad ocsigen, neu asthma difrifol. Mae unrhyw symptomau sy'n effeithio ar anadlu yn rhai difrifol.

Mae symptomau llai difrifol yn cynnwys goglais neu gosi yn y geg, llosg danadl unrhyw le ar y corff, croen yn cochi neu grampiau yn yr abdomen, cyfog a chwydu.

Hyd yn oed os nad yw'r symptomau yn rhai difrifol, dylid cadw golwg manwl ar y plentyn. Gall y symptomau fod yn ddechrau adwaith mwy difrifol.

Meddyginiaeth a Rheolaeth

Y driniaeth ar gyfer adwaith alergedd difrifol yw pigiad o adrenalin (epinephrine). Mae teclynnau chwistrellu parod sy'n cynnwys un ddos o adrenalin ar gael ar bresgripsiwn. Mae dau gryfder gwahanol ar gael - un i oedolion ac un i blant.

Os yw adwaith alergedd difrifol yn digwydd, dylid chwistrellu'r adrenalin i gyhyr y glun allanol uchaf. Dylid ffonio am ambiwlans bob tro.

Dylid sicrhau staff sy'n gwirfoddoli i gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r teclynnau hyn eu bod yn hawdd eu gweinyddu. Mae chwistrellwyr adrenalin, a ddefnyddir yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchwr, yn ddull hawdd-ei-ddefnyddio a diogel o roi adrenalin. Nid yw'n bosibl rhoi dos rhy fawr wrth ddefnyddio'r teclyn hwn. Nid oes modd gweld y nodwydd tan ar ôl iddi gael ei thynnu o goes y plentyn. Os oes unrhyw amheuaeth, mae'n well rhoi'r pigiad na pheidio â'i roi.

Mae'r penderfyniad ar faint o declynnau adrenalin y dylai'r ysgol neu'r lleoliad eu cadw, a lle i'w cadw, yn fater ar gyfer y pennaeth, rhieni'r plentyn a'r staff meddygol perthnasol, ar sail anghenion unigol.

Os yw plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn ddigon cyfrifol i gario eu triniaeth frys gyda nhw, dylid sicrhau bod yna driniaeth sbâr mewn lle diogel ond heb ei gloi, sy'n hygyrch i bob aelod o staff. Mewn ysgolion mawr neu ysgolion ar fwy nag un safle, yn aml iawn mae'n gyflymach i'r staff ddefnyddio chwistrellwr y plentyn yn hytrach na threulio amser yn casglu chwistrellwr o le canolog.

Mae astudiaethau wedi dangos bod y risgiau ar gyfer plant a phobl ifanc ag alergedd yn lleihau os oes ganddynt gynllun gofal iechyd unigol. Nid ydynt yn adweithio mor aml a phan y byddant maent yn llai difrifol gan amlaf. Bydd yn ofynnol i'w rieni, yr ysgol a'r meddyg sy'n rhoi'r driniaeth gytuno ar y cynllun.

Dylid cynnwys y materion pwysig canlynol sy'n berthnasol i anaffylacsis:

- anaffylacsis - achosion posibl;
- beth i'w wneud mewn argyfwng;
- meddyginiaeth bresgripsiwn;
- rheoli bwyd; a
- mesurau rhagofalus.

Unwaith y bydd staff wedi cytuno i roi meddyginiaeth i blentyn ag alergedd yn ystod argyfwng, bydd angen i'r gwasanaethau iechyd lleol ddarparu sesiwn hyfforddi. Dylid sicrhau bod staff yn cael y cyfle i ymarfer drwy ddefnyddio teclynnau chwistrellu ymarfer.

Rhaid llunio mesurau polisi o ddydd i ddydd ar gyfer rheoli bwyd, ymwybyddiaeth o anghenion y plentyn mewn perthynas â'r fwydlen, gofynion prydau bwyd unigol a byrbrydau yn yr ysgol.

Os yw staff y gegin yn cael eu cyflogi gan sefydliad ar wahân, mae'n bwysig sicrhau bod y goruchwylydd arlwyo yn gwbl ymwybodol o anghenion y plentyn penodol. Gellid datblygu 'cod ymarfer ar gyfer y gegin'.

Yn aml iawn mae rhieni yn gofyn i'r Pennaeth wahardd y bwyd y mae gan eu plentyn alergedd iddo o'r ysgol. Nid yw'n bosibl gwneud hyn bob tro, ond dylid cymryd y camau priodol i leihau unrhyw risgiau i blant ag alergedd.

Nid yw plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef adweithiau alergedd difrifol yn sâl yn yr ystyr arferol. Maent yn ddisgyblion normal ym mhob ffordd, ond os ydynt yn dod i gysylltiad â bwydydd neu sylwedd penodol, gallant fynd yn sâl iawn. Mae'n bwysig nad ydynt yn cael eu gorfodi i deimlo'n wahanol. Mae hefyd yn bwysig tawelu ofnau rhieni drwy eu sicrhau y bydd camau prydlon ac effeithlon yn cael eu cymryd yn unol â chynghor a chanllawiau meddygol.

Mae modd rheoli anaffylacsis. Wrth ddatblygu mesurau rhagofal pendant a chymorth gan staff, gall bywyd yn yr ysgol barhau'r un fath ag arfer i bawb.

Ffurflenni

Er mwyn helpu ysgolion i weinyddu eu cymorth i blant ag anghenion meddygol rydym wedi paratoi nifer o ffurflenni enghreifftiol, fel y gwelir isod.

Hwyrach y bydd ysgolion a lleoliadau am ddefnyddio neu addasu'r ffurflenni yn unol â'u polisiau ar roi meddyginiaethau.

- Ffurflen 1 Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys
- Ffurflen 2 Cynllun Gofal Iechyd
- Ffurflen 3A Cytundeb rhieni i'r ysgol/lleoliad roi meddyginiaeth
- Ffurflen 3B Cytundeb rhieni i'r ysgol/lleoliad roi meddyginiaeth
- Ffurflen 4 Cytundeb Pennaeth yr ysgol/lleoliad i roi meddyginiaeth
- Ffurflen 5 Cofnod o feddyginiaeth a roddwyd i blentyn unigol
- Ffurflen 6 Cofnod o feddyginiaethau a roddwyd i bob plentyn
- Ffurflen 7 Cais i blentyn gario ei feddyginiaeth ei hun
- Ffurflen 8 Cofnod o hyfforddiant staff - rhoi meddyginiaethau
- Ffurflen 9 Awdurdodi gweinyddu diazepam drwy'r rectwm

Gellir lawrlwytho'r ffurflenni hyn fel dogfennau Word o'r wefan isod er mwyn eu haddasu ar gyfer ysgol neu leoliad penodol:

<http://www.cymru.gov.uk>

FFURFLEN 1: Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys

Cais am Ambiwylans:

Deialwch 999, gofynnwch am ambiwlans a gwnewch yn siŵr fod y wybodaeth ganlynol wrth law

1. Eich rhif ffôn
2. Eich lleoliad (*rhowch gyfeiriad yr ysgol/lleoliad*)
3. Y cod post
4. Eich union leoliad yn yr ysgol/lleoliad (*rhowch ddisgrifiad cryno*)
5. Eich enw
6. Enw'r plentyn a disgrifiad cryno o symptomau'r plentyn
7. Dywedwch wrth y Gwasanaeth Ambiwylans beth yw'r fynedfa orau ac y bydd yno rywun i gyfarfod â chriw'r ambiwlans a'i hebrwng i
8. **Peidiwch â rhoi'r ffôn i lawr nes i chi glywed yr wybodaeth yn ôl.**

Siaradwch yn glir ac yn araf a byddwch yn barod i ailadrodd gwybodaeth os oes angen

Gadewch y ffurflen hon wrth ymyl pob ffôn yn yr ysgol ar ôl ei chwblhau

FFURFLEN 2: Cynllun Gofal Iechyd

2.40 Dylai'r cynllun iechyd nodi:

- Barn y plentyn neu'r person ifanc lle bo hynny'n bosibl.
- Dymuniad y rhieni ar gyfer y plentyn.
- Cydgysylltydd/gweithiwr allweddol gofal y plentyn.
- Unrhyw newidiadau a ragwelir i drefn ofal y plentyn neu'r person ifanc.
- Manylion cyswllt y tîm gofal iechyd paediatrig sy'n darparu cyngor, gofal a chymorth meddygol.
- Protocolau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng gwasanaethau addysg ac iechyd (gan ddiffinio cyfrifoldebau'n glir ac enwi pobl i gysylltu â nhw) gan gynnwys darparu gwybodaeth gywir sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd am anghenion plant a phobl ifanc unigol.
- Y feddyginiaeth mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei chymryd yn ystod oriau'r ysgol a'r tu allan iddynt.
- Caniatâd rhieni a'r pennaeth er mwyn i staff weinyddu meddyginiaeth neu i'r plentyn neu'r person ifanc ei hun wneud hynny (Ffurflenni 3 a 4).
- Trefniadau ar gyfer gofal brys neu ymyrrol, neu ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Dylid cydweithio â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i lunio gweithdrefnau brys. Dylid cynnal asesiad risg sy'n cynnwys cydnabod sefyllfaoedd argyfwng posibl mewn perthynas ag anghenion iechyd y plentyn - mae cynllunio gwell yn arwain at lai o argyfyngau go iawn.
- Unrhyw anghenion gofal iechyd arbennig a all effeithio ar allu'r plentyn neu'r person ifanc i ddefnyddio gwasanaethau fel trafndiaeth neu weithgareddau chwarae yn yr ysgol, gweithredu rhaglenni therapi ac ati.
- Sut i ddefnyddio, storio a gofalu am unrhyw gyfarpar.

- Unrhyw drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau addysg neu wasanaethau eraill pan fydd y plentyn yn rhy sâl i fynychu'r ysgol neu pan fydd mewn ysbyty neu leoliad gofal iechyd priodol arall.
- Dylai cynlluniau gofal iechyd gael eu hysgrifennu ar y cyd gan weithwyr iechyd proffesiynol a rhieni. Dylai'r rhieni, y Pennaeth a gweithwyr iechyd proffesiynol lofnodi'r cynlluniau terfynol. Dylai copi o'r cynllun fod ar gael i bob un o'r uchod a dylid mynd â chopi pan fydd y plentyn yn mynd ar dripiâu.
- Dylid adolygu cynlluniau gofal iechyd yn flynyddol pan fydd yr ysgol yn cynnal ei hadolygiad blynyddol o'r plentyn neu'r person ifanc. Os oes angen diwygio'r cynllun, dylai gweithwyr iechyd proffesiynol yr ysgol gyfarfod â rhieni a byddai'r cynllun yn cael ei ysgrifennu eto a'i lofnodi gan bob parti. Os oes angen diwygio'r cynllun rhwng adolygiadau, dylid gwneud hynny gyda'r rhieni a sicrhau ei fod yn cael ei lofnodi.
- Pwysigrwydd llunio gweithdrefnau hynod glir mewn perthynas â thriniaeth frys ar gyfer **pob** plentyn neu'r person ifanc ag anghenion iechyd cymhleth.
- Dylid darparu'r cynllun i unrhyw aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â'r plentyn neu'r person ifanc.
- Dylai copïau o unrhyw ffurflenni perthnasol fod yn rhan o'r cynllun gofal iechyd.

Cynllun Gofal Iechyd

Enw'r ysgol/lleoliad

Enw'r plentyn

Grŵp/dosbarth

Dyddiad geni

Cyfeiriad y plentyn

Diagnosis neu gyflwr meddygol

Dyddiad

Dyddiad adolygu

Aelod cyswllt y staff

Cyswllt y Teulu

Enw

Rhif ffôn (gwaith)

(cartref)

(symudol)

Enw

Rhif ffôn (gwaith)

(cartref)

(symudol)

Cyswllt y Clinig/Ysbyty

Enw

Rhif ffôn

Meddyg Teulu

Enw

Rhif ffôn

Mynediad i Addysg
a Chymorth i Blant a
Phobl Ifanc ag Anghenion
Meddygol

Mai 2010

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2010

Disgrifiwch yr anghenion meddygol a nodwch fanylion symptomau'r plentyn

Anghenion gofal dyddiol (e.e. *cyn chwaraeon/yn ystod amser cinio/gartref/teithiau ysgol*)

Disgrifiwch beth sy'n argyfwng i'r plentyn, a'r camau i'w cymryd os yw hyn yn digwydd

Pwy sy'n gyfrifol mewn argyfwng? (*nodwch os yw hyn yn wahanol ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle*)

Copi o'r ffurflen yn mynd i

FFURFLEN 3A: Cytundeb rhieni i'r ysgol/lleoliad roi meddyginiaeth

Ni fydd yr ysgol/lleoliad yn rhoi meddyginiaeth i'ch plentyn oni bai eich bod yn cwblhau ac yn llofnodi'r ffurflen hon a bod gan yr ysgol neu'r lleoliad bolisi sy'n caniatáu staff i roi meddyginiaeth.

Enw'r ysgol/lleoliad

Enw'r plentyn

Dyddiad geni

Grŵp/dosbarth

Cyflwr meddygol neu salwch

Meddyginiaeth

Enw/math o feddyginiaeth
(fel y disgrifiad ar y cynhwysydd)

Dyddiad gweinyddu Dyddiad terfynu

Dyddiad adolygu y cytunwyd arno i'w ddechrau gan [enw'r aelod o staff]

Dos a dull

Pryd i'w chymryd

Rhagofalon arbennig

A oes unrhyw sgil effeithiau
y dylai'r ysgol/lleoliad wybod
amdanynt?

Ydy'r plentyn yn cymryd y feddyginiaeth ei hun (*dileu fel bo'n briodol*) **Ydy/Nac ydy**

Gweithdrefnau ar gyfer argyfwng

Manylion Cyswllt

Enw

Rhif ffôn yn ystod y dydd.

Perthynas â'r plentyn

Cyfeiriad

Deallaf fod rhaid i mi roi'r feddyginiaeth i [aelod o staff penodedig]

Rwy'n deall bod hwn yn wasanaeth nad oes dyletswydd ar yr ysgol/lleoliad i'w gyflawni.
Rwy'n deall bod rhaid i mi hysbysu'r ysgol/lleoliad o unrhyw newidiadau yn ysgrifenedig.

Dyddiad Llofnod(ion)

FFURFLEN 3B: Cytundeb rhieni i'r ysgol/lleoliad roi meddyginiaeth

Ni fydd yr ysgol/lleoliad yn rhoi meddyginiaeth i'ch plentyn oni bai eich bod yn cwblhau ac yn llofnodi'r ffurflen hon a bod gan yr ysgol neu'r lleoliad bolisi sy'n caniatáu i staff roi meddyginiaeth.

Enw'r ysgol/lleoliad	<input type="text"/>
Dyddiad	<input type="text" value="/ /"/>
Enw'r plentyn	<input type="text"/>
Grŵp/dosbarth	<input type="text"/>
Enw a chryfder y feddyginiaeth	<input type="text"/>
Dyddiad y daw i ben	<input type="text" value="/ /"/>
Faint i'w roi (<i>h.y. y ddos i'w rhoi</i>)	<input type="text"/>
Pryd i'w roi	<input type="text"/>
Unrhyw gyfarwyddiadau eraill	<input type="text"/>
Nifer tabledi/faint i'w roi i'r ysgol/lleoliad	<input type="text"/>

Sylwch: Rhaid i feddyginiaethau fod yn y cynhwysydd gwreiddiol fel y'u gweinyddwyd gan y fferyllfa

Rhif ffôn y rhiant yn ystod y dydd	<input type="text"/>
neu, Oedolyn cyswllt	<input type="text"/>
Enw a rhif ffôn y meddyg teulu	<input type="text"/>

Dyddiad adolygu y cytunwyd arno i'w ddechrau gan [enw'r aelod o staff]

Mae'r wybodaeth uchod yn gywir adeg ei hysgrifennu, hyd eithaf fy ngwybodaeth, ac rwy'n caniatáu i staff yr ysgol/lleoliad roi meddyginiaeth yn unol â pholisi'r ysgol/lleoliad. Byddaf yn hysbysu'r ysgol/lleoliad yn syth, yn ysgrifenedig, o unrhyw newid o ran dos y feddyginiaeth neu pa mor aml y dylid ei chymryd neu os nad oes angen y feddyginiaeth bellach.

Printiwch eich Enw

Llofnod y rhiant

Dyddiad

Os oes angen rhoi mwy nag un feddyginiaeth dylid cwblhau ffurflen ar wahân ar gyfer pob un.

FFURFLEN 4: Cytundeb Pennaeth yr ysgol/lleoliad i roi meddyginiaeth

Enw'r ysgol/lleoliad

Cytunir y bydd [enw'r plentyn] yn derbyn
[dos ac enw'r feddyginiaeth] bob dydd am
[amser rhoi'r feddyginiaeth e.e. amser cinio neu egwyl y prynhawn]

Bydd [enw'r aelod o staff} yn rhoi'r
feddyginiaeth i [enw'r plentyn} neu'n ei oruchwylio wrth
ei chymryd.

Bydd y trefniant hwn yn para tan [naill ai ddyddiad diwedd cwrs y feddyginiaeth neu nes
y derbynnir cyfarwyddyd gan y rhieni].....

Dyddiad

Llofnod

.....

(Pennaeth yr ysgol/lleoliad/yr aelod o staff penodedig)

FFURFLEN 5: Cofnod o feddyginiaeth a roddwyd i blentyn unigol

Enw'r ysgol/lleoliad	<input type="text"/>
Enw'r plentyn	<input type="text"/>
Dyddiad derbyn y feddyginiaeth gan y rhiant	<input type="text" value="/ /"/>
Grŵp/dosbarth	<input type="text"/>
Faint a dderbyniwyd	<input type="text"/>
Enw a chryfder y feddyginiaeth	<input type="text"/>
Dyddiad y daw i ben	<input type="text" value="/ /"/>
Faint a ddychwelwyd	<input type="text"/>
Dos a pha mor aml y defnyddir y feddyginiaeth	<input type="text"/>
Llofnod yr aelod o staff
Llofnod y rhiant

Dyddiad	<input type="text" value="/ /"/>	<input type="text" value="/ /"/>	<input type="text" value="/ /"/>
Amser a roddwyd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Dos a roddwyd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Enw'r aelod o staff	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Llythrennau cyntaf yr aelod o staff	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Dyddiad	<input type="text" value="/ /"/>	<input type="text" value="/ /"/>	<input type="text" value="/ /"/>
Amser a roddwyd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Dos a roddwyd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Enw'r aelod o staff	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Llythrennau cyntaf yr aelod o staff	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Mynediad i Addysg
a Chymorth i Blant a
Phobl Ifanc ag Anghenion
Meddygol
Mai 2010
Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2010

FFURFLEN 5: Parhad

Dyddiad	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>
Amser a roddwyd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Dos a roddwyd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Enw'r aelod o staff	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Llythrennau cyntaf yr aelod o staff	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Dyddiad	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>
Amser a roddwyd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Dos a roddwyd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Enw'r aelod o staff	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Llythrennau cyntaf yr aelod o staff	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Dyddiad	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>
Amser a roddwyd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Dos a roddwyd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Enw'r aelod o staff	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Llythrennau cyntaf yr aelod o staff	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Dyddiad	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>
Amser a roddwyd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Dos a roddwyd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Enw'r aelod o staff	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Llythrennau cyntaf yr aelod o staff	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

FFURFLEN 6: Cofnod o feddyginiaethau a roddwyd i bob plentyn

Enw'r ysgol/leoliad

Dyddiad	Enw'r plentyn	Amser	Enw'r feddyginiaeth	Dos a roddwyd	Unrhyw adweithiau	Llofnod yr aelod o staff	Enw mewn prif lythrennau
/ /							
/ /							
/ /							
/ /							
/ /							
/ /							
/ /							
/ /							
/ /							
/ /							

Mynediad i Addysg
a Chymorth i Blant a
Phobl Ifanc ag Anghenion
Meddygol
Mai 2010
Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2010

FFURFLEN 7: Cais i blentyn gario ei feddyginiaeth ei hun

Rhaid i rieni/gwarcheidwaid gwblhau'r ffurflen hon

Os oes gan staff unrhyw bryderon dylid trafod y cais hwn â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

Enw'r ysgol/lleoliad

Enw'r plentyn

Grŵp/dosbarth

Cyfeiriad

Enw'r feddyginiaeth

Gweithdrefnau i'w
dilyn mewn argyfwng

Gwybodaeth Gyswilt

Enw

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Perthynas â'r plentyn

Rwyf am i'm mab/merch gadw'r feddyginiaeth gyda nhw i'w defnyddio yn ôl yr angen.

Llofnod

Dyddiad

Mynediad i Addysg
a Chymorth i Blant a
Phobl Ifanc ag Anghenion
Meddygol
Mai 2010
Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2010

FFURFLEN 8: Cofnod o hyfforddiant staff - rhoi meddyginiaethau

Enw'r ysgol/lleoliad

Enw

Math o hyfforddiant
a dderbyniwyd

Dyddiad cwblhau'r hyfforddiant

Darparwyd yr hyfforddiant

Proffesiwn a theitl

Rwy'n cadarnhau bod [*enw'r aelod o staff*] wedi derbyn yr hyfforddiant a nodir uchod ac yn gymwys i roi unrhyw driniaeth ofynnol.

Rwy'n argymhell y dylid diweddarau'r hyfforddiant [*nodwch pa mor aml*]

Llofnod yr hyfforddwr

Dyddiad

Rwy'n cadarnhau i mi dderbyn yr hyfforddiant a nodir uchod.

Llofnod yr aelod o staff

Dyddiad

Dyddiad adolygu a argymhellir

FFURFLEN 9: Awdurdodi gweinyddu diazepam drwy'r rectwm

Enw'r ysgol/lleoliad	<input type="text"/>
Enw'r plentyn	<input type="text"/>
Dyddiad geni	<input type="text" value="/ /"/>
Cyfeiriad gartref	<input type="text"/>
Meddyg Teulu	<input type="text"/>
Ymgynghorydd Ysbyty	<input type="text"/>

..... gael Diazepam drwy'r Rectwm mg.

Os yw ef/hi'n cael ffit epileptig hir* sy'n para rhai munudau

NEU

*gyfres o ffitiau sy'n para dros o fynyddau.

Dylid ffonio ambiwlans *pan fydd y ffit yn dechrau

NEU

Os nad yw'r ffit wedi stopio* wedi o fynyddau. (*dilwch fel bo'n briodol)

Llofnod y meddyg Dyddiad

Llofnod y rhiant Dyddiad

DS: Awdurdodi gweinyddu diazepam drwy'r rectwm

Am fod yr arwyddion ar gyfer pryd i weinyddu'r diazepam yn amrywio, rhaid cael caniatâd unigol ar gyfer pob plentyn. Dylai Meddyg Teulu, Ymgynghorydd a/neu Nyrs Arbenigol Epilepsi'r plentyn awdurdodi hyn, a'i adolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei gweinyddu'n briodol. Dylai'r caniatâd nodi'n glir:

- pryd y dylid rhoi'r diazepam e.e. ar ôl 5 munud; a
- faint o feddyginiaeth y dylid ei rhoi.

Dylai'r Ffurflen Awdurdodi nodi brasamcan o bryd i ffonio am ambiwlans.

Dylid defnyddio Ffurflen 5 neu ffurflen debyg i gofnodi'r defnydd o diazepam.

Mynediad i Addysg
a Chymorth i Blant a
Phobl Ifanc ag Anghenion
Meddygol
Mai 2010
Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2010

Cysylltiadau Defnyddiol

Action for Sick Children

Rhadffôn: 0800 744519

<http://www.actionforsickchildren.org/>

Allergy UK

Linell gymorth: (01322) 619898

<http://www.allergyuk.org/>

Asthma UK Cymru

Linell gyngor: 08457 01 02 03 (Llun-Gwe 9am i 5pm)

Ffôn: Caerdydd (029) 2043 5400

<http://www.asthma.org.uk>

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) Cymru

Linell wybodaeth: 08701 545500 (Llun-Gwe 8am-6pm)

Ffôn: Caerdydd (029) 2026 3000

<http://www.hse.gov.uk>

Barnardos Cymru

Ffôn: Caerdydd (029) 2049 3387

<http://www.barnardos.org.uk/wales>

Cerebra - for Brain Injured Children and Young people

Ffôn: Caerfyrddin (01267) 244200

<http://www.cerebra.org.uk/>

CLIC Sargent

Ffôn: 0800 197 0068

<http://www.clicsargent.org.uk>

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CEHR)

Ffôn: Caerdydd (029) 2072 9229

<http://www.cehr.org.uk>

Mynediad i Addysg
a Chymorth i Blant a
Phobl Ifanc ag Anghenion
Meddygol

Mai 2010

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2010

Cymdeithas Cefnogi ME a CFS Cymru

Ffôn: Caerdydd (029) 2051 5061

<http://www.wames.org.uk>

Cymdeithas Eczema Genedlaethol

Llinell gymorth: 0870 241 3604 (Llun-Gwe 8am i 8pm)

<http://www.eczema.org>

Cymdeithas Lles Plant yn yr Ysbyty (AWCH)

Ffôn: Abertawe (01792) 205227

<http://www.awchwales.org.uk/>

Cymdeithas Spina Bifida a Hydroceffalws

Ffôn: (01733) 555988 (9am i 5pm)

CSBH Gogledd Cymru Ffôn: (01248) 671345

<http://www.asbah.org/>

Cyngor dros Blant Anabl, Biwro Cenedlaethol y Plant

Ffôn: Llundain (020) 78436000

<http://www.ncb.org.uk>

Cyswllt Teulu

Llinell gymorth: 0808 808 3555

Ffôn: Caerdydd (029) 2039 6624

<http://www.cafamily.org.uk>

Diabetes UK Cymru

Llinell gymorth: 0845 1202960 (9am i 5pm yn ystod yr wythnos)

Ffôn: Caerdydd (029) 2066 8276

<http://www.diabetes.org.uk>

Epilepsi Cymru

Llinell gymorth: 0845 741 3774

<http://www.epilepsy-wales.co.uk>

Galw Iechyd Cymru

Ffôn: 0845 46 47

<http://www.nhsdirect.wales>

MENCAP Cymru

Ffôn: Caerdydd (029) 2074 7588

<http://www.mencap.org.uk/html/cymru>

MIND Cymru

Ffôn: Caerdydd (029) 2039 5123

<http://www.mind.org.uk/About+Mind/Mind+Cymru/>

National Attention Deficit Disorder Information and Support Service

Ffôn: Middlesex (02089) 522800

<http://www.addiss.co.uk>

NCH Cymru, yr Elusen Blant

Ffôn: Caerdydd (029) 2021 27

<http://www.nch.org.uk>

Plant yng Nghymru

Ffôn: Caerdydd (029) 2034 2434

<http://www.childreninwales.org.uk>

Prosiect Ymgynghorol Anghenion Arbennig (SNAP) Cymru

Ffôn: 08451203730

<http://www.snapcymru.org.uk>

Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig

Llinell gymorth: 0845 859 1000

<http://www.cftrust.org.uk>

Ymgyrch Anaffylaxis

Llinell gymorth: (01252) 542029

<http://www.anaphylaxis.org.uk/>

Mynediad i Addysg
a Chymorth i Blant a
Phobl Ifanc ag Anghenion
Meddygol

Mai 2010

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2010